The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ1)**
**Cyhoeddwyd ar 27 Medi 2022**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth (ExQ1) yr Awdurdod Archwilio (ExA). Os bydd angen, mae amserlenni'r Archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rowndiau ychwanegol o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at rowndiau ychwanegol o gwestiynau fel ExQs gyda rhif i ddynodi rhif y rownd.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 23 Awst 2022. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o bob cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at bwy y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif (sy'n dangos ei fod yn perthyn i'r rownd ExQs o'r rhif hwnnw) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar 'Faterion cyffredinol a thrawsbynciol' yn y rownd hon o gwestiynau fel ExQ1.0.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Dylid anfon ymatebion at flwch negeseuon e-bost yr Archwiliad. Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn neges e-bost neu lythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos.

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 1**: **Dydd Llun 24 Hydref 2022**.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Talfyriadau a ddefnyddir**

| | |
|---|---|
| **A** | Erthygl |
| **AIS** | Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer |
| **ALC** | Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| **AHNE** | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| **ATR** | Llwybrau Teithio Llesol |
| **AyM** | Awel y Môr |
| **BEIS** | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| **BoR** | Llyfr Cyfeirio |
| **CA** | Caffael Gorfodol |
| **CCBC** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **CEA** | Asesiad o Effeithiau Cronnol |
| **Cefas** | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| **CSIP** | Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau |
| **DAERANI** | Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon |
| **dDCO** | Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft |
| **DCC** | Cyngor Sir Ddinbych |
| **DCO** | Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| **ECC** | Coridor Cebl Allforio |
| **ECoW** | Clerc Gwaith Ecolegol |
| **EDR** | Radiws Atal Effeithiol |
| **EM** | Memorandwm Esboniadol |
| **EPR** | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 |
| **ES** | Datganiad Amgylcheddol |
| **ExA** | Awdurdod Archwilio |
| **FCA** | Asesiad Canlyniadau Llifogydd |

| | |
|---|---|
| **FCC** | Cyngor Sir y Fflint |
| **FMfP** | Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio |
| **FRAP** | Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd |
| **FS** | Datganiad Cyllid |
| **CALl** | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| **FWNP** | Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 |
| **GC** | Cyngor Gwynedd |
| **GCN** | Madfallod Dŵr Cribog |
| **GIS** | Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy |
| **GyM** | Gwynt y Môr |
| **HDD** | Drilio Cyfeiriadol Llorweddol |
| **HRA** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **INNS** | Rhywogaethau Estron Goresgynnol |
| **IoACC** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **JNCC** | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| **km** | cilometrau |
| **LIR** | Adroddiad ar yr Effaith Leol |
| **ACLl** | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| **LWS** | Safle Bywyd Gwyllt Lleol |
| **LVIA** | Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol |
| **m** | metrau |
| **MDS** | Senario Dylunio Mwyaf |
| **MHWS** | Penllanw Cymedrig y Gorllanw |
| **NATS** | Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol |
| **NE** | Natural England |
| **NS** | NatureScot |

| | |
|---|---|
| **NHWF** | Fferm Wynt North Hoyle |
| **$NO_x$** | Ocsidiau Nitrogen |
| **NPS** | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **NRMM** | Peiriant Symudol Nad yw ar gyfer y Ffordd |
| **NSIP** | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| **NT** | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| **NWWT** | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| **oACMP** | Cynllun Rheoli Ansawdd Aer amlinellol |
| **oCCP** | Cynllun Cyfathrebu Adeiladu amlinellol |
| **oCoCP** | Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol |
| **oCMS** | Datganiad Dulliau Adeiladu amlinellol |
| **oNVMP** | Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad amlinellol |
| **oLEMP** | Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol |
| **oPPEIRP** | Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol |
| **oPAMP** | Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol |
| **oSWMP** | Cynllun Rheoli Gwastraff Safle amlinellol |
| **oSMP** | Cynllun Rheoli Pridd amlinellol |
| **OnSS** | Is-orsaf ar y Tir |
| **oPPIERP** | Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol |
| **PA2008** | Deddf Cynllunio 2008 |
| **PAH** | Hydrocarbonau Aromatig Polysyclig |
| **PPG** | Canllawiau Ymarfer Cynllunio |
| **PPW** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **PRoW** | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| **PTS** | Newid Trothwy Parhaol |

| | |
|---|---|
| **R** | Gofyniad |
| **RFWF** | Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl |
| **RIAA** | Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol |
| **RR** | Sylw Perthnasol |
| **RSPB** | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| **ACA** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **Sch** | Atodlen |
| **SGLP** | Cynlluniau Tir Categori Arbennig |
| **SLVIA** | Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol |
| **SoCG** | Datganiad(au) Tir Cyffredin |
| **SoS** | Ysgrifennydd Gwladol |
| **SoR** | Datganiad o'r Rhesymau |
| **SNP** | Parc Cenedlaethol Eryri |
| **SuDS** | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| **TAN** | Nodyn Cyngor Technegol |
| **TP** | Meddiant Dros Dro |
| **TPO** | Gorchymyn Cadw Coed |
| **TSUPRoW** | Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro |
| **TTS** | Newid Trothwy Dros Dro |
| **UKCP18** | Rhagolygon Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2018 |
| **UXO** | Ordnans Heb Ffrwydro |
| **VP** | Golygfan |
| **WBFGW** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **WTG** | Generadur Tyrbin Gwynt |

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Llyfrgell yr Archwiliad**

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael yma.

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddaru wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

**Mynegai**


0. Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol ........ 8
1. Hedfanaeth ........ 17
2. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ........ 17
3. Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP) ........ 70
4. Adeiladu ........ 91
5. Dylunio ........ 97
6. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) ........ 105
7. Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr ........ 123
8. Yr Amgylchedd Hanesyddol ........ 139
9. Defnydd Tir ........ 149
10. Tirwedd a Gweledol ........ 155
11. Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol ........ 173
12. Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo ........ 177
13. Morol – Naturiol ........ 184
14. Iechyd y Cyhoedd a Niwsans ........ 188
15. Prosiectau a Chynigion Eraill ........ 194
16. Disgrifiad o'r Prosiect a Dethol Safle ........ 194

17. Morlun, Tirwedd a Gweledol ..... 199
18. Economaidd-Gymdeithasol ..... 213
19. Twristiaeth a Hamdden ..... 222
20. Traffig a Thrafnidiaeth ..... 229

**ExQ1: 27 Medi 2022**

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 24 Hydref 2022**

| ExQ1 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn | |
|---|---|---|---|
| **0.** | **Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol** | | **Ymateb GC** |
| 0.1 | Yr Ymgeisydd | **Cynlluniau a dogfennau**<br>Darparwch restr o'r holl gynlluniau a dogfennau eraill y bydd arnynt angen ardystiad yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) (gan gynnwys cyfeirnodau cynllun / dogfen). Dylai'r rhestr hon gael ei diweddaru drwy gydol y broses archwilio er mwyn hwyluso olrhain fersiynau o ddogfennau a dylai rhestr derfynol gael ei chyflenwi i'r Awdurdod Archwilio (ExA) cyn i'r archwiliad orffen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.2 | Yr Ymgeisydd, DCC, IoACC, CCBC, GC, FCC,<br>SNP | **Y Cynllun Datblygu**<br>Darparwch gopïau llawn o unrhyw bolisïau Cynllun Datblygu perthnasol (neu ddogfennau eraill e.e. cynlluniau rheoli, canllawiau atodol) yr ydych wedi cyfeirio atynt yn unrhyw un o'ch cyflwyniadau. Os byddwch yn cyfeirio at unrhyw bolisïau Cynllun Datblygu ychwanegol ar unrhyw adeg yn eich cyflwyniadau yn y dyfodol (er enghraifft, mewn Adroddiad ar yr Effaith Leol), cyflwynwch gopïau o'r rhain i'r Archwiliad hefyd os nad ydynt eisoes wedi'u darparu.<br><br>a) A fu unrhyw ddiweddariadau perthnasol i'r Cynllun Datblygu statudol ers i ddogfennau'r cais gael eu casglu ynghyd?<br>b) A yw awdurdodau cynllunio lleol yn fodlon â dadansoddiad yr Ymgeisydd o bolisïau? | Canllaw Cynllunio Atodol – Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd -Orllewin Cymru<br><br>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon (31 Gorffennaf 2017)<br><br>Polisi PS20 Diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth<br><br>Polisi AT1 Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd A thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig<br><br>Copiau o'r polisiau a CCA uchod ynghlwm<br><br>a) Na<br>b) Ydi |
| 0.3 | Yr Ymgeisydd, Unrhyw Barti â Buddiant | **Polisi Cenedlaethol**<br>A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i Bolisi neu Arweiniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i benderfynu ar y cais hwn sydd wedi digwydd ers iddo gael ei gyflwyno? Os felly, beth yw'r newidiadau hyn a beth yw'r goblygiadau, os o gwbl, i'r cais? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.4 | Yr Ymgeisydd, DCC, CCBC | **Ceisiadau cynllunio**<br>Rhowch ddiweddariad ar unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, neu gydsyniadau a roddwyd, ers i’r Cais gael ei gyflwyno a allai effeithio ar y Datblygiad Arfaethedig neu y gallai’r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt a ph’un a fyddai’r rhain yn effeithio ar y casgliadau y deuir iddynt yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) (e.e. cynlluniau amddiffynfa fôr y Rhyl a Phrestatyn). | |
| 0.5 | DCC | **Cynnydd Parc Cenedlaethol**<br>Rhowch ddiweddariad ar gynnydd a graddfeydd amser tebygol mewn perthynas â’r Parc Cenedlaethol newydd posibl ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. | |
| 0.6 | Yr Ymgeisydd | **Gwynt y Môr**<br>Gan nodi paragraff 121 Pennod 1 yr ES: Disgrifiad o’r Prosiect Alltraeth [APP-047], eglurwch ymhellach pam nad yw rhwydwaith trawsyrru Gwynt y Môr (GyM) yn ddigonol i ganiatáu allforio’n llawn o’r Datblygiad Arfaethedig (neu fel arall)? A ystyriwyd y posibilrwydd o uwchraddio rhwydwaith trawsyrru GyM i ganiatáu ar gyfer hyn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.7 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf y Grid Cenedlaethol**<br>Rhowch gyfiawnhad llawn a manwl i'r rhesymau dros gynnwys tir o fewn terfynau'r Gorchymyn sy'n ymwneud â'r estyniad i is-orsaf y Grid Cenedlaethol, o ystyried y byddai'r estyniad yn cael ei benderfynu o dan gais ar wahân. A oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar y cais hwn? | |
| 0.8 | Yr Ymgeisydd | **Cyfnod gweithredol**<br>Mae'r asesiadau yn yr ES yn tybio cyfnod gweithredol o 25 mlynedd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig cyn iddo gael ei ddatgomisiynu. Felly, a ddylai'r cyfnod hwn gael ei nodi'n benodol a'i sicrhau fel gofyniad yn y dDCO? Os na, a allai hyn ganiatáu i gyfnod gweithredu hwy ddigwydd a beth yw goblygiadau posibl hyn i asesiadau'r ES? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.9 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Carbon**<br>Mae adran 5.3.4 NPS drafft EN-1 yn nodi y dylai pob cynnig ar gyfer prosiect seilwaith ynni gynnwys asesiad carbon yn rhan o'i ES, ynghyd â'r math o wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr asesiad. Mae adran 4.2 NPS drafft EN-1 yn cyfeirio at Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 sy'n cyfeirio at yr hinsawdd, ymhlith pethau eraill. Yn ogystal, yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn ag ailbenderfynu ar brosiect Norfolk Vanguard, amlygodd yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) ddymunoldeb asesiad ôl troed ac effaith carbon sy'n ystyried carbon a nwyau tŷ gwydr ymgorfforedig o elfennau echdynnu, puro a gweithgynhyrchu'r prosiect, ynghyd â'r allyriadau o'r camau adeiladu (gan gynnwys torri ffosydd a chloddio tir âr a cholli capasiti amsugno nwyon tŷ gwydr o ffermio, planhigion a choed), gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu.<br><br>A allai'r Ymgeisydd gyfeirio at unrhyw waith asesu o'r natur hwn a gynhaliwyd ac a yw'r Ymgeisydd yn bwriadu darparu unrhyw beth arall yn hyn o beth? Os felly, erbyn pryd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.10 | Yr Ymgeisydd | **Adolygiad o'r rhwydwaith trawsyrru alltraeth**<br>a) A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried yr Adolygiad o'r Rhwydwaith Trawsyrru Alltraeth gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) / Ofgem? Os na, pam?<br>b) Os ydyw, a yw wedi dylanwadu ar ddyluniad y Datblygiad Arfaethedig mewn unrhyw ffordd?<br>c) A yw'r Ymgeisydd wedi amlygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer dull mwy cydlynol o ddylunio a darparu seilwaith trawsyrru'r Datblygiad Arfaethedig hwn a phrosiectau eraill yn yr un rhanbarth?<br>ch) A yw unrhyw un o arsylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r adolygiad o'r rhwydwaith trawsyrru alltraeth mewn llythyrau penderfyniad DCO yn ymwneud â ffermydd gwynt alltraeth eraill yn berthnasol yn hyn o beth? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.11 | Yr Ymgeisydd | **Cydsyniadau a thrwyddedau eraill**<br>Mae’r ddogfen gais [APP-037] yn cadarnhau y byddai angen cydsyniadau a thrwyddedau eraill ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Rhowch ddiweddariad ar unrhyw gynnydd o ran cael y cydsyniadau a’r trwyddedau hyn, a chynhwyswch adran sy’n rhoi diweddariad ar y cydsyniadau a’r trwyddedau hyn mewn unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin (SoCG) sy’n dod i’r amlwg sy’n cael eu llunio gyda’r awdurdodau cydsynio perthnasol. | |
| 0.12 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau arwyddocaol**<br>Darparwch dabl crynhoi sy’n rhestru’r effeithiau gweddilliol arwyddocaol tebygol a amlygwyd ym Mhenodau’r ES. | |
| 0.13 | Yr Ymgeisydd | **Mesurau lliniaru**<br>A wnewch chi ddarparu copïau o’r mesurau lliniaru a ragnodwyd yn yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ac y cyfeiriwyd atynt yn yr atodlen mesurau lliniaru [APP-310]. Nid yw’r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr: Cynllun Rheoli Amgylcheddol Prosiect, Cynllun Wrth Gefn Llygredd Morol, Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr yn ymwneud yn benodol ag Ordnans Heb Ffrwydro, Cynllun Gwrthrychau wedi’u Gollwng, Cynllun Rheoli Gosod Deunyddiau i Atal Erydu, ac ati. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.14 | Yr Ymgeisydd | **Adolygiad cyffredinol**<br>A wnewch chi adolygu dogfennau'r cais a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau, yn enwedig y rhai hynny a briodolir i'r Senario Dylunio Mwyaf (MDS); er enghraifft, mae'r Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol – Paragraff 44 [APP-027] yn datgan "Bydd y coridor ceblau ar y tir oddeutu 14 km o hyd", tra bod Cyfrol 3 yr ES, Pennod 1, Disgrifiad o'r Prosiect ar y Tir, Paragraff 30 [APP-062] yn datgan y bydd y coridor ceblau ar y tir oddeutu 12 km o hyd. | |
| 0.15 | Yr Ymgeisydd | **Materion polisi a newid hinsawdd cyffredinol**<br>O ran NPS EN-1, paragraff 4.8.8, esboniwch sut mae'r ES yn dangos na fyddai unrhyw nodweddion allweddol o'r cynllun mewn perygl o effaith ddifrifol yn sgil newidiadau mwy sylweddol i'r hinsawdd y tu hwnt i'r rhai a ragfynegir yn rhagolygon hinsawdd diweddaraf y Deyrnas Unedig? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.16 | CNC, CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP)**<br>Byddai’r CoCP yn rhan bwysig o’r strategaeth liniaru ar gyfer ymdrin ag effeithiau niweidiol posibl o’r gweithgareddau adeiladu amrywiol, a’u rheoli. A ydych chi’n ystyried ei fod yn ddigon cadarn a manwl gywir fel y mae wedi’i lunio ar hyn o bryd, ac felly’n gallu cael ei orfodi? | Ydi |
| 0.17 | Natural England | **Cyfranogiad**<br>Mae’r ExA yn diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 19 Awst 2022 yn datgan nad ydych wedi cofrestru fel Parti â Buddiant ar gyfer yr Archwiliad ac na fyddwch yn mynychu’r Cyfarfod Rhagarweiniol [AS-037]. Er mwyn osgoi amheuaeth, a wnewch chi gadarnhau nad oes gennych bryderon ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig. Os oes gennych bryderon, rhowch fanylion os gwelwch yn dda. | |
| 0.18 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau cronnol**<br>Mae ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig Mona a Morgan yn ymddangos mewn mannau amrywiol yn yr ES. Rhowch ddiweddariadau, os oes angen, ar gynnydd y cynigion hyn ers i’r ES gael ei ysgrifennu ac unrhyw newidiadau y gallai hyn eu gwneud i’r asesiad o’r datblygiad arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0.19 | Yr Holl Bartïon â Buddiant | **Prosiectau a Chynigion eraill**<br>A oes unrhyw brosiectau eraill nad ydynt wedi'u cofnodi yn yr ES sy'n berthnasol ac y mae angen eu hystyried gan yr ExA? Os felly, nodwch y prosiectau hyn a'r ffynhonnell/ffynonellau gwybodaeth gyhoeddus yr ydych wedi'u defnyddio i wneud eich asesiad eu bod yn berthnasol. | |
| **1.** | **Hedfanaeth** | | |
| 1.1 | Yr Ymgeisydd | Nid yw'r adran 'Asesiad amgylcheddol: effeithiau cronnol' (13.13) o Gyfrol 2, Pennod 13 yr ES (Hedfanaeth) [APP-059] yn cyfeirio at ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig Mona na Morgan, y mae'r ddwy yn ymddangos ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, i lefelau amrywiol o fanylder. A wnewch chi ddiweddaru'r bennod i gyfeirio at y cynigion hyn neu gyfiawnhau peidio â gwneud hynny. | |
| 1.2 | Yr Ymgeisydd, NATS | Rhowch ddiweddariad ar y cytundeb masnachol arfaethedig i liniaru'r mesurau lliniaru gofynnol a amlygwyd ar gyfer Prif Radar Goruchwylio Great Dun Fell a St Anne. | |
| **2.** | **Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>a) A wnewch chi gadarnhau pan ddefnyddir y gair 'gallai' fel yn yr Atodlen Lliniaru [APP-310] a hefyd yn yr ES fel "Gallai PAMS gael ei ddefnyddio" Paragraff 31 [APP-107], p'un a yw'r casgliadau dilynol ynglŷn â'r effeithiau yn dilyn lliniaru wedi'u seilio ar yr holl fesurau lliniaru a ddefnyddir neu rai ohonynt yn unig.<br>b) A wnewch chi gadarnhau pan ddefnyddir y geiriau 'os oes angen' o fewn mesurau lliniaru fel yn ES Cyfrol 3, Pennod 5 [APP-066] a hefyd datganiadau fel "Os dewisir ADD yn rhan o'r gyfres o fesurau lliniaru a amlinellir yn yr MMMP terfynol" paragraff 32 [APP-107], p'un a yw'r casgliadau dilynol ynglŷn â'r effeithiau yn dilyn lliniaru wedi'u seilio ar yr holl fesurau lliniaru a ddefnyddir neu rai ohonynt yn unig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>Mae’r cais yn cyfeirio at ddogfennau canllaw AEA proffesiynol: Canllawiau ar gyfer Asesu Effeithiau Ecolegol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: Daearol, Dŵr Croyw ac Arfordirol (CIEEM, 2016) o fewn [APP-041]; a’r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (2019). ‘Canllawiau ar gyfer Asesu Effeithiau Ecolegol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: Daearol, Dŵr Croyw, Arfordirol a Morol fersiwn 1.1’ o fewn [APP-066].<br><br>A wnewch chi esbonio a disgrifio’r effaith ar yr AEA o ganlyniad i’r fersiwn ddiweddaraf o’r Canllawiau ar gyfer Asesu Effeithiau Ecolegol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: Daearol, Dŵr Croyw ac Arfordirol (CIEEM, Medi 2018, fersiwn 1.2 diweddarwyd ym mis Ebrill 2022). | |
| 2.3 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>A wnewch chi gynghori ac esbonio’ch ymagwedd at Ddosbarthiadau Cynefinoedd y Deyrnas Unedig (UKHabLtd) o ystyried y bwriedir rhyddhau fersiwn 2.0 o Ddosbarthiad Cynefinoedd y Deyrnas Unedig yn gynnar yn 2023. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.4 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>A wnewch chi esbonio sut mae'r cais yn ystyried cyfeiriadau yng Nghymru'r Dyfodol (y cynllun cenedlaethol 2040), polisi 9 – rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd, at ddiogelu rhwydweithiau ecolegol a sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth (budd net). | |
| 2.5 | Yr Ymgeisydd, CNC, DCC | **Cyffredinol**<br>Mae paragraff 5.3.4 NPS EN-1 yn datgan y dylai'r Ymgeisydd ddangos sut mae'r prosiect wedi manteisio ar gyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth a buddiannau cadwraeth daearegol. A wnewch chi amlinellu os a sut mae'r cais yn manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth? | |
| 2.6 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>A wnewch chi nodi a oes offeryn metrig bioamrywiaeth cydnabyddedig (fel metrig bioamrywiaeth cyfredol Natural England neu offeryn tebyg) i gyfrifo enillion (neu golledion) bioamrywiaeth net ar gyfer y prosiect a ph'un a fyddech yn gallu ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect. Os na, esboniwch a disgrifiwch sut y byddai enillion neu golledion bioamrywiaeth net y prosiect yn cael eu pennu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.7 | Yr Ymgeisydd | **Cyffredinol**<br>Cynllun Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol / Anstatudol [AS-010]<br>A wnewch chi fynd i’r afael â’r pwyntiau canlynol:<br>a) Dalen 1 o 11 – Nid yw’r allwedd yn adlewyrchu’r holl liwiau llinellau a ddangosir ac mae’n ymddangos bod hyd a lled y llinellau Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn wahanol ar ddalenni 2 a 3;<br>b) Dalen 2 o 11 – a yw’r siâp a’r hyd a lled a dynnwyd ar gyfer y Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol ar yr ymyl gorllewinol yn adlewyrchu’r Ffrith D011;<br>c) gwahaniaethu’r ardal goetir er mwyn helpu i amlygu coetiroedd lled-naturiol hynafol eraill, planhigfeydd ar safle coetir hynafol a choetiroedd eraill lleol;<br>ch) labelu enw’r gwarchodfeydd natur eraill ar y ddalen berthnasol. | |
| 2.8 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **Alltraeth – Cyffredinol**<br>A ydych yn fodlon nad oes asesiad aflonyddu ar gael i asesu gweithgareddau adeiladu eraill fel drilio, treillio, gweithgarwch llongau? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.9 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Cyffredinol**<br>A wnewch chi ddisgrifio'ch ymagwedd at yr amgylchedd morol ac egwyddorion enillion net morol. | |
| 2.10 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – diffiniad o MDS**<br>O ran gosod seilbyst ar gyfer sylfeini tyrbin aml-goes wedi'u gosod ar seiliau pin, mae Tabl 18, Pennod 7 yr ES: Mamaliaid Môr [AS-026] yn pennu uchafswm o 200 o goesau i gyd. Mae'r ExA yn nodi bod y paramedrau a amlinellir yn y Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr amlinellol drafft [APP-107] (Tabl 3) yn nodi 400 o seiliau pin. A all yr Ymgeisydd esbonio'r anghysondeb ymddangosiadol hwn a chadarnhau'r ffigur cywir? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.11 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Data sylfaenol a modelu**<br>A ydych yn fodlon â'r canlynol:<br>a) y wybodaeth a gynhwysir yn nhabl 22, Cyfrol 4 yr ES [APP-106] o ran y rhywogaethau a restrir, maint mu ac amcangyfrifon dwysedd yr argymhellir eu defnyddio yn yr asesiad o effaith feintiol;<br>b) bod y ddau leoliad modelu i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain o'r ardal aráe yn cynrychioli'r lleoliadau sydd agosaf i ardaloedd mamaliaid môr pwysig;<br>c) y cyflymderau nofio fesul mamal a dybir yn yr asesiad o effaith.<br><br>Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw un o'r pwyntiau uchod, esboniwch y rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.12 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Data sylfaenol a modelu**<br>Cadarnhewch SCANS II Bloc O dolffin cyffredin/rhychwant km2. A yw'n 0.018km$^2$ ynteu 0.0081 km$^2$? [APP-106] | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.13 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A ydych chi'n fodlon gan nad oes trothwy ar gyfer dechrau newid trothwy dros dro (TTS) (a fyddai'n arwydd o swm biolegol arwyddocaol o TTS), nad oes modd cynnal asesiad meintiol o faint neu arwyddocâd effaith TTS ar famaliaid môr? [AS-026]. Os na, esboniwch eich rheswm a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.14 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>I asesu'r potensial ar gyfer aflonyddu ar ymddygiad mamaliaid môr o ganlyniad i danio ordnans heb eu ffrwydro (UXO), mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno asesiad o effaith ar gyfer cwmpas atal effeithiol (EDR) 26km ar gyfer taniadau uwch; EDR 5km ar gyfer taniadau is; a throthwyon dechrau TTS ar gyfer taniadau uwch yn [AS-026]. A ydych chi'n fodlon â'r asesiadau hyn? Os na, esboniwch y rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.15 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi gadarnhau'r asesiad ar gyfer dechrau Newid Trothwy Parhaol (PTS) o ganlyniad i osod seilbyst heb fesurau lliniaru ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, dolffiniaid cyffredin a dolffiniaid Risso? Mae paragraff 132 (tudalen 128) yn dod i'r casgliad y byddai arwyddocâd canolig tra bod tabl 25 (tudalen 133) yn datgan arwyddocâd niweidiol bach [AS-026]. | |
| 2.16 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio effeithiau gweddilliol ac unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer mamaliaid môr os oes angen ysgraffau codi (*jack-up barges*) yn yr ardal islanw bas. (Cyfrol 2 yr ES, Pennod 1, paragraff 143 [APP-047]). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.17 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi roi esboniad, a chyfiawnhad gyda thystiolaeth, i fynd i’r afael â Sylw Perthnasol CNC [RR-015], sef:<br>a) Bod y cyfiawnhad dros absenoldeb Newid Trothwy Parhaol (PTS) Cronnol yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn annigonol ac felly mae’r asesiad yn anghyflawn;<br>b) Bod sail annigonol i ddod i’r casgliad bod perygl o ddechrau PTS yn cael effaith ddibwys ar lamhidyddion pan fo dechrau PTS cronnol wedi cael ei eithrio o’r Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr;<br>c) Bod angen modelu ychwanegol i lywio’r asesiadau o sŵn tanddwr a dechrau PTS; a<br>ch) Bod cyfiawnhad annigonol i gefnogi casgliad o ddim Effaith Arwyddocaol Debygol o wrthdaro â llongau ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, morloi llwyd na llamhidyddion, sy’n nodweddion o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) perthnasol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.18 | CNC | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>Gan gyfeirio at eich Sylw Perthnasol [RR-015], a wnewch chi esbonio, gyda thystiolaeth i gyfiawnhau:<br>a) yr hyn a olygir wrth “*dylai asesiad wedi’i seilio ar ardal gael ei gynnal lle y pennir maint cynefin sy’n cael ei soneiddio i lefel a allai gynhyrchu aflonyddu arwyddocaol*”;<br>b) y dewis amgen yn lle “*defnyddio cromlinau dos/ymateb i gynnal asesiad wedi’i seilio ar ardal i amcangyfrif yr ardal o gynefin llamhidyddion yr aflonyddir arni*”; a’ch<br>c) rhesymau dros “*gyfiawnhad annigonol i gefnogi casgliad o ddim Effaith Arwyddocaol Debygol o wrthdaro â llongau ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, morloi llwyd na llamhidyddion, sy’n nodweddion o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) perthnasol*”. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.19 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>Mae'r Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr Amlinellol Drafft – Paragraff 20 [APP-107] yn datgan "*O ystyried y lefelau ansicrwydd a gor-ragofalus hyn, ac o ystyried bod y maes ymchwil hwn yn esblygu, nid yw'r Prosiect o'r farn bod angen ymrwymo i liniaru dechrau PTS cronnol ar y cam hwn*". A wnewch chi ymateb i'r datganiad hwn a rhoi cyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.20 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi esbonio'r rheswm dros effeithiau gweddilliol ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, dolffiniaid cyffredin a dolffiniaid Risso yn nhabl 6 [AS-018] (sydd oll yn niweidiol bach) tra bod yr arwyddocâd yn nhabl 5 [APP-107] ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, dolffiniaid cyffredin a dolffiniaid Risso oll yn arwyddocâd niweidiol dibwys. | |
| 2.21 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi esbonio a rhoi tystiolaeth ar gyfer ymagwedd yr asesiad o effaith ar sŵn tanddwr mamaliaid môr ar gyfer gwaith archaeolegol alltraeth ac effeithiau gweddilliol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.22 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio'r asesiad o effaith ar famaliaid môr ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Aráe WTC sy'n gorgyffwrdd â safle Llaid B Bae Lerpwl? | |
| 2.23 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A ydych chi'n fodlon â'r rhestr o brosiectau yn [AS-026] a sgriniwyd yn yr asesiad o effeithiau cronnol (CEA) morol o ran aflonyddu o ganlyniad i sŵn tanddwr? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.24 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi roi diffiniad o WCS. (Paragraff 9 [APP-107]) | |
| 2.25 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>Esboniwch pam mae Cyfrol 2 yr ES, Pennod 7, Asesu aflonyddu o ganlyniad i osod seilbyst, yn cynnwys defnyddio'r modelu PCOD dros dro ar gyfer dolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd ond nid ar gyfer llamhidyddion. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.26 | CNC, JNCC, NWWT | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A ydych chi'n fodlon â'r canlynol:<br>a) Y diffiniadau o faint yr effaith a roddir yn Nhabl 9, [AS-026]; a'r<br>b) Disgrifiad/rheswm yn Nhabl 10 Sensitifrwydd/pwysigrwydd yr amgylchedd? [AS-026].<br>Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.27 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>Mae paragraff 55 [APP-026] yn datgan "*mae maint effeithiau posibl yn cael ei ddiffinio gan gyfres o ffactorau, gan gynnwys hyd a lled gofodol unrhyw ryngweithio, tebygolrwydd, hyd, amlder a gwrthdroadwyedd effaith bosibl*". A wnewch chi restru unrhyw ffactorau eraill sydd wedi cael eu hystyried. | |
| 2.28 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>O ran effeithiau rhyng-gysylltiedig [APP-060], a wnewch chi gadarnhau:<br>a) Os gallai'r rhyngweithio rhwng sŵn tanddwr, rhyngweithiadau llongau, ac effeithiau ar rywogaethau ysglyfaeth yn ystod adeiladu arwain at effeithiau o arwyddocâd mwy ar famaliaid môr;<br>b) Arwyddocâd effeithiau cyn lliniaru ac ar ôl lliniaru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.29 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Mamaliaid Môr**<br>A wnewch chi gadarnhau a fydd y lefelau sŵn fesul gweithgaredd adeiladu, fel y’u rhestrir yn Nhabl 39 [AS-026], yn cael eu dilysu a’u monitro yn ystod y gwaith. Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.30 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Lliniaru**<br>A wnewch chi gynghori ar gymwyseddau allweddol (fel sgiliau, gwybodaeth, profiad, cymwysterau ac ymddygiad) i ymgymryd â rôl arbenigol arsylwr mamaliaid môr (MMOb) a sut y cânt eu sicrhau yn y dDCO [AS-014]? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.31 | Yr Ymgeisydd, CNC | **Alltraeth – Lliniaru**<br>Mae [AS-026] (Tabl 3) yn datgan “*Cytunodd CNC â’r dull arfaethedig o gynnwys ADDs* [dyfeisiau atal acwstig] *yn yr MMMP*”. Mae’r Protocol Lliniaru Rheolaeth Forol (MMMP) amlinellol drafft yn awgrymu rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â ph’un a fwriedir darparu ADD – er enghraifft, mae paragraff 32 yn datgan “*Os dewisir ADD yn rhan o’r gyfres o fesurau lliniaru a amlinellir yn yr MMMP terfynol…”.*<br>a) A all yr Ymgeisydd esbonio pa ffactorau a fyddai’n effeithio ar benderfynu p’un ai dewis ADD yn rhan o’r gyfres o fesurau lliniaru a amlinellir yn yr MMMP terfynol?<br>b) A all yr Ymgeisydd a CNC wneud sylwadau ar b’un a oes angen sicrhau bod ADD yn cael ei darparu trwy’r DCO? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.32 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Lliniaru**<br>Mae adrannau 1.11 a 1.12 [APP-107] yn disgrifio'r monitro arfaethedig ar gyfer mamaliaid môr, cyn gosod seilbyst ac yn ystod y cyfnod dechrau meddal. Pe byddai unrhyw newidiadau annisgwyl i ymddygiad anifeiliaid yn cael eu nodi yn ystod y cyfnod dechrau meddal, pa gamau gweithredu (os o gwbl) fyddai'n cael eu cymryd i ymateb i hynny? | |
| 2.33 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Protocol Lliniaru Rheolaeth Forol**<br>Mae Tabl 18 [AS-026] yn nodi paramedrau MDS mewn perthynas â gosod seilbyst ar gyfer yr argae coffr. A all yr Ymgeisydd ddiweddaru'r Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr amlinellol drafft [APP-107] i gynnwys y paramedrau hyn? | |
| 2.34 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Lliniaru**<br>Byddai'r Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau (CSIP) (y disgwylir iddo gael ei sicrhau fel amod o'r Drwydded Forol) hefyd yn sicrhau bod croesfannau ceblau'n cael eu dylunio'n briodol i liniaru effeithiau amgylcheddol. A wnewch chi esbonio dyluniad priodol i liniaru effeithiau amgylcheddol, gan roi cyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.35 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Lliniaru**<br>Mae Tabl 63: Crynodeb o effeithiau yn Adareg alltraeth [APP-050] yn datgan Dd/B, ond mae [APP-310] yn datgan y mesurau lliniaru canlynol ar gyfer Adareg Alltraeth, sef lleiafswm cliriad llafnau o 22m uwchben penllanw cymedrig y gorllanw, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Prosiect (a fydd yn cynnwys Cynllun Wrth Gefn Llygredd Morol), a Chynllun Rheoli Gosod Deunyddiau i Atal Erydu.<br><br>A wnewch chi gadarnhau'r mesurau lliniaru (os o gwbl) a ddefnyddir i bennu cwmpas effeithiau gweddilliol ar gyfer adareg alltraeth. | |
| 2.36 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Lliniaru**<br>Mae [APP-310] yn datgan y byddai cynllun rheoli gosod deunyddiau i atal erydu yn cael ei sicrhau trwy'r Drwydded Forol. Mae egwyddorion y Drwydded Forol [AS-023] yn cyfeirio at gynllun rheoli gosod deunyddiau i atal erydu ac arolwg bathymetrig ystod ar sampl o dyrbinau ac mae'n dweud na ddisgwylir y bydd angen hynny o ystyried y rhagfynegiadau lleiafsymiol o ran gosod deunyddiau i atal erydu. A wnewch chi gadarnhau p'un a yw'r cynllun rheoli gosod deunyddiau i atal erydu yn fesur lliniaru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.37 | CNC | **Alltraeth – Monitro**<br>A all CNC wneud sylwadau ar gwmpas y monitro arfaethedig yn ystod gweithdrefnau gosod seilbyst, fel y disgrifir yng Nghyfrol 4: Atodiad 7.2: Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr Amlinellol Drafft [APP-107]? | |
| 2.38 | RSPB | **Alltraeth – Adareg**<br>A ydych chi'n fodlon ag ymagwedd yr ymgeisydd at Gyngor Dros Dro Cyrff Cadwraeth Natur Statudol ar Drin Dadleoli Trochyddion Gyddfgoch (2022)? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.39 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **Alltraeth – Adareg**<br>A ydych chi'n fodlon â'r data sylfaenol presennol ac i linell sylfaen yn y dyfodol gael ei llywio gan allosod y data sydd ar gael ar hyn o bryd gan gyfeirio at bolisi a chynlluniau, ceisiadau ar gyfer cynigion eraill a barn arbenigol? (Paragraff 40, [APP-050]). Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.40 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Adareg**<br>Mae Tabl 1 Paramedrau tyrbinau ac araeau, a ddefnyddir i lywio Modelau Risg Gwrthdrawiad (CRM) [APP-097], yn cyfeirio at radiws rotor cymedrig, lleiaf ac uchaf o 125m. A wnewch chi esbonio’r rheswm a disgrifio effeithiau radiws rotor gwahanol yn y model risg gwrthdrawiad petai’r radiws rotor yn 153m (i adlewyrchu amlen ddylunio tabl 16 ar gyfer WTS â diamedr rotor WTG mwy, sef 306m) [APP-047]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.41 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **Alltraeth – Adareg**<br>A ydych chi'n fodlon:<br>a) Na allai'r arolygon llinell sylfaen a'r meintiau sampl penodol i safle gael eu defnyddio i gyfrifo uchderau hedfan penodol i safle yn gywir ar gyfer y pedair rhywogaeth a ddewiswyd ar gyfer CRM, ac o ganlyniad bod band 2 a 3 wedi cael eu cymhwyso a'u cyflwyno yn yr adroddiad? Paragraff 2.1 [APP-097];<br>b) Â'r rhestr o adar mudol a sgriniwyd ar gyfer modelu MigroPath a modelu blaen eang yn nhabl 1 yn ES Cyfrol 4 [APP-098];<br>c) Â'r enghraifft a weithiwyd ar gyfer dosrannu marwolaethau huganod trwy wrthdrawiad i gytrefi yn ystod tymor bridio pan nad oes mudo (mis Ebrill i fis Awst) tabl 1 [APP-032]; ac<br>ch) Â'r effeithiau arwyddocaol tebygol posibl a restrir yn y Matricsau? Adroddiad ES 5.2 [APP-033].<br>Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.42 | Yr Ymgeisydd | **Alltraeth – Adareg**<br>Mae paragraff 441 [APP-050] yn sôn y byddai gorgyffyrddiad tebygol o ran amser o fewn camau gweithredol rhai o'r prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth Gwyddelig a bod yr ystyriaeth o effeithiau trawsffiniol posibl wedi'i chyfyngu gan y data sydd ar gael i seilio'r asesiad arno. A wnewch chi esbonio'r rhesymau dros beidio â chynnwys monitro adareg alltraeth [APP-311]. | |
| 2.43 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>A wnewch chi wirio paragraff 115, o ran y cyfeiriad at yr adroddiad arolwg cynefin cyf. cais: 6.5.5.3 (a ddylai fod yn 6.5.5.2?) [APP-066]. | |
| 2.44 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>A wnewch chi adolygu a chroesgyfeirio'r wybodaeth yn y 3 thabl canlynol a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau: ES Cyfrol 3, Pennod 13, Tabl 5 [APP-074], Tabl 15 a Thabl 21 [APP-066]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.45 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>A wnewch chi gadarnhau'r cyfeirnod ar gyfer canlyniadau arolygon adar sy'n gaeafu?<br>Mae'n ymddangos bod ES Cyfrol 3, Pennod 5 paragraff 148 yn cyfeirio at ES Cyfrol 5, Atodiad 5.2 cyf. cais: 5.5.5.2 yn hytrach nag ES Cyfrol 5, Atodiad 5.3 cyf. cais 6.5.5.3. | |
| 2.46 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>a) A wnewch chi gadarnhau'r diffiniad o'r "*Holl nodweddion ecolegol pwysig*" – o dan y pennawd gweithredu yn Nhabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]<br>b) A ddylai'r diffiniad hwn gael ei ychwanegu at y dDCO? | |
| 2.47 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>O dan y pennawd datgomisiynu yn Nhabl 5, adran 13.3.5 [APP-074], a wnewch chi esbonio a disgrifio pa achosion a fyddai'n debyg o ran maint yr effaith a pha achosion a fyddai'n is o lawer yn ystod adeiladu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.48 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>A wnewch chi ddarparu lluniad cynllun sy'n nodi'r ardaloedd yr ystyrir eu bod yn<br>a) Waith lliniaru a digolledu dros dro; a<br>b) Pharhaol.<br><br>er mwyn helpu i egluro a mynd i'r afael â Gwaith Rhif 41 – Ffyrdd mynediad i ddarparu mynediad gweithredol o'r priffyrdd cyhoeddus i Rifau Gwaith 4 i 40 ac unrhyw ddatblygiad cysylltiedig, ac mewn cysylltiad â Rhifau Gwaith 4 i 41 i ddarparu gwaith lliniaru a digolledu ecolegol ac amgylcheddol dros dro a pharhaol [AS-014]. | |
| 2.49 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cyffredinol**<br>A wnewch chi ddarparu neu dynnu sylw at luniad cynllun sy'n labelu'r prif goetiroedd y cyfeirir atynt yn nhabl 3-2 prif goetiroedd o fewn yr ardal arolwg yn yr Adroddiad Arolwg Cynefinoedd a Gwrychoedd [APP-125]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.50 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru – Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol [APP-305]**<br><br>A wnewch chi:<br>a) Amlygu’r math o fesurau ecolegol a chreu cynefin yr ystyrir eu bod yn ardal liniaru dros dro bosibl, fel y dangosir ar Ffigurau 3-7;<br>b) Amlygu cysylltedd coridor bywyd gwyllt, a chynefinoedd lloches a chwilota am fwyd yn ystod adeiladu a gweithredu;<br>c) Esbonio a disgrifio cyfundrefnau rheoli a monitro cynefinoedd, gan gynnwys unrhyw dargedau cynefinoedd a rhywogaethau;<br>ch) Esbonio a disgrifio’r methodolegau, gan gynnwys unrhyw arferion gorau/ canllawiau sefydledig a ddefnyddir i greu’r cynefinoedd;<br>d) Esbonio a fwriedir i’r holl fesurau lliniaru “os oes angen” gael eu dangos ar Ffigurau 3-7 fel Ardaloedd Lliniaru Dros Dro Posibl. Er enghraifft, mae ES Cyfrol 3, Pennod 5 [APP-066] yn crybwyll y byddai mesur lliniaru ar gyfer pyllau HDD ac ardaloedd gweithio eraill wrth y lanfa a chroesfan Afon Clwyd yn cael eu sgrinio os oedd angen, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ond nid yw'n ymddangos bod yr ardal liniaru dros dro bosibl hon wedi'i dangos ar y ffigur perthnasol;<br>dd) Cadarnhau'r ardal arolwg ar gyfer arolygon cyn-adeiladu yn ymwneud ag Ystlumod, h.y. DOL neu OL; ac<br>e) Mae Tabl 1: Arolygon Cyn-Adeiladu yn datgan amseriadau arolygon yn ystod y tymor cyn i waith adeiladu ddechrau. A wnewch chi gadarnhau amseriadau arolygon ar gyfer gwaith Rhagarweiniol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.51 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae'r Cynllun Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) Amlinellol [APP-323] yn cyfeirio at fesurau rheoli cyffredinol, bioddiogelwch a monitro. A wnewch chi esbonio a disgrifio'ch dull o drin a chael gwared ar INNS sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith ac effaith amgylcheddol asesu. | |
| 2.52 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi gynghori ar gymwyseddau allweddol (fel sgiliau, gwybodaeth, profiad, cymwysterau ac ymddygiad) i ymgymryd â rolau arbenigol Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW) a sut y cânt eu sicrhau yn y dDCO [AS-014]? | |
| 2.53 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi ddisgrifio beth fyddai'r mesurau osgoi rhesymol i leihau'r effaith ar Famaliaid Adran 7 eraill gymaint â phosibl? [APP-066]. | |
| 2.54 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae [APP-066] yn datgan y bydd mesurau osgoi rhesymol ychwanegol yn cael eu gweithredu ar gyfer moch daear, dyfrgwn ac ymlusgiaid. A wnewch chi esbonio a disgrifio beth fyddai'r rhain yn ei gynnwys. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.55 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio'r ystod o fesurau i liniaru colli 11ha o gors pori arfordirol a gorlifdir, aber Afon Clwyd a LWS cyfagos dros dro (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.56 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio sut byddai'r ardal o gynefin Adran 7 sy'n weddill: Ffen Iseldir (Llwybr Rhan C) yn cael ei gwarchod rhag difrod yn ystod y gwaith adeiladu (Tabl 15 [APP-066]). | |
| 2.57 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi gynghori sut y bydd mesur i sicrhau na fydd gwaith torri ffosydd wrth gyrsiau dŵr a ffosydd llai yn digwydd yn y nos (mesur lliniaru ar gyfer llysywod) yn cael ei sicrhau yn y dDCO (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.58 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio’r mesurau lliniaru ar gyfer:<br>a) infertebratau sy’n bresennol yn y cynefin twyni arfordirol y mae’r gwaith yn effeithio arno; ac<br>b) ar gyfer llyffantod duon sy’n bodoli yn y cynefinoedd y mae’r gwaith yn effeithio arnynt. | |
| 2.59 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio’r:<br>a) fethodoleg trawsleoli a safleoedd derbyn (gan gynnwys graddfeydd amser) ar gyfer unrhyw ymlusgiaid a ganfyddir yn y cynefinoedd y mae’r gwaith yn effeithio arnynt; a’r<br>b) fethodoleg trawsleoli a safleoedd derbyn (gan gynnwys graddfeydd amser) ar gyfer unrhyw lygod y dŵr a ganfyddir yn y cynefinoedd y mae’r gwaith yn effeithio arnynt. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.60 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi ddisgrifio'r ystod o fesurau ar gyfer adar sy'n bridio yn yr OnSS yn ymwneud â:<br>a) Chlirio llystyfiant;<br>b) Gwaith adeiladu arall; a<br>c) Chreu a rheoli cynefin.<br><br>(Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]) | |
| 2.61 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>O ran adar nad ydynt yn bridio, datganir y bydd hyd at 2.4 ha o gynefin rhynglanw yn cael ei golli dros dro yn y Ffrith. A wnewch chi esbonio a disgrifio'r mesurau lliniaru ar gyfer golau, sŵn ac effeithiau gweledol yn ymwneud â gwaith adeiladu o fewn yr ardal islanw bas, yr ardal rynglanw a'r lanfa (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.62 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi gadarnhau sut byddai gwaith gosod seilbyst (os bydd angen yn y lanfa) yn digwydd y tu allan i gyfnod y gaeaf (mis Hydref i fis Mawrth) neu sut byddai technoleg gosod seilbyst trwy ddirgryniad yn cael ei sicrhau yn y dDCO [AS-014]? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.63 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae’r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol [APP-305] yn amlinellu dyletswyddau allweddol y Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW) ac mae’r Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol – Atodiad 1 [APP-313] yn datgan y bydd yr ECoW yn cael ei gyflogi ar hyd cyfnod y prosiect i sicrhau bod mesurau lliniaru, datganiadau dulliau a chynlluniau penodol i rywogaeth yn cael eu gweithredu’n effeithiol. Disgrifiwch sut byddai’r ECoW yn cyflawni ei ddyletswyddau pe byddai’r gwaith ar y tir yn cael ei adeiladu mewn dau gam neu fwy a / neu yn ystod gwaith 24 awr. | |
| 2.64 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio’ch rôl amgylcheddol cleient gyda’r ECoW yn ystod gwaith rhagarweiniol a gwaith adeiladu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.65 | CNC, DCC, NWWT, Envirowatch.EU, Sustainable Cymru | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A ydych chi'n fodlon bod y canlynol yn darparu manylion mesur lliniaru digonol a'u bod yn ddigonol i baratoi fersiynau manwl yn y dyfodol:<br>a) Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol [APP-312];<br>b) Datganiad Dulliau Adeiladu amlinellol [APP-313];<br>c) Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol [APP-305].<br>Os na ar gyfer unrhyw un o'r pwyntiau uchod, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 2.66 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio'r berthynas (gan gynnwys y deiliad dyletswydd) rhwng y Datganiad Dulliau Adeiladu Amlinellol [APP-313] a Chynllun Camau Adeiladu a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu. | |
| 2.67 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>A wnewch chi gadarnhau sut bydd yr holl arolygon cyn-adeiladu'n cael eu sicrhau yn y dDCO [AS-014]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.68 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae mesurau i liniaru ar gyfer colli/darnio llinellau hedfan a chynefin chwilota am fwyd dros dro yn cynnwys defnyddio “gwrychoedd marw” mewn lleoliadau ar wahân yn ystod adeiladu. A wnewch chi:<br>a) Ddarparu trychiadau arhydol a chroestoriadau sy’n dangos sut mae gwrych marw’n llenwi bylchau gwrychoedd dros dro dros nos;<br>b) Esbonio a disgrifio beth sy’n digwydd i’r gwrych marw yn ystod y wawr a’r cyfnos, a hefyd yn ystod y dydd; ac<br>c) Esbonio a disgrifio sut bydd y gwrych marw’n cael ei fonitro a’i gynnal a’i gadw yn ystod adeiladu ac ar ôl adeiladu, a sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau yn y dDCO [AS-014]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.69 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae’r mesurau lliniaru’n cynnwys arolygon cyn-adeiladu a mesurau osgoi rhesymol ar gyfer colli cynefin chwilota am fwyd dros dro ar hyd yr ECC ar y tir, a cholli tua 5ha o gynefin chwilota am fwyd yn barhaol yn yr OnSS ar gyfer Moch Daear, ond ni ragwelir y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar y boblogaeth leol o ganlyniad i’r digonedd o laswelltir amaethyddol na effeithir arno gerllaw [APP-074].<br><br>A wnewch chi esbonio a disgrifio sut bydd y digonedd o laswelltir amaethyddol na effeithir arno gerllaw fel cynefin chwilota am fwyd yn cael ei sicrhau yn y dDCO [AS-014]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.70 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru**<br>Mae'r Cod Adeiladu Amlinellol yn cyfeirio at:<br>a) Sgrinio a ffensys – a wnewch chi ddarparu lluniad gosodiad nodweddiadol sy'n dangos y math o sgriniau a ffensys a ystyrir yn yr MDS, a'u maint, a disgrifio sut bydd y gosodiad yn rhyngweithio â choridorau ystlumod a bywyd gwyllt arall i gynefinoedd perthnasol.<br>b) Goleuadau ac ymwthiad gweledol – a wnewch chi ddisgrifio sut bydd goleuadau'r safle adeiladu'n cael eu dylunio a'u lleoli i leihau'r effeithiau ar dderbynyddion ecolegol gymaint â phosibl.<br>c) Sŵn a dirgryniad – a wnewch chi esbonio a disgrifio unrhyw effeithiau sŵn a dirgryniad ar rywogaethau ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.71 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol**<br>A wnewch chi gadarnhau arwyddocâd effeithiau gweddilliol ar gyfer nodweddion ecolegol pwysig? Er enghraifft, infertebratau sy'n defnyddio cynefin twyni arfordirol: a yw'n niweidiol arwyddocaol, dros dro ar lefel y sir yn y tymor byr ac yn y tymor canolig? Mae'r testun ychwanegol "*hyd nes y bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigon aeddfed ac wedi sefydlu*" yn awgrymu bod y casgliad yn niwed dros dro ar lefel y sir hyd nes y bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigon aeddfed ac wedi sefydlu (efallai na fydd yn digwydd tan y tymor hir). Sylwer – Mae gan nodweddion ecolegol pwysig eraill eiriad tebyg, a byddai'n ddefnyddiol pe gellid egluro'r rhain e.e. Cynefin Adran 7: Gwrychoedd (Llwybr Rhannau B-G; Rhywogaethau planhigion (yn y cynefin twyni arfordirol) (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.72 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol**<br>Dywedir yn Nhabl 5, adran 13.3.5 [APP-074] bod cadarnhad o arwyddocâd effeithiau gweddilliol yn gofyn am ddatblygu mesurau lliniaru/digolledu pellach. A wnewch chi gadarnhau arwyddocâd y casgliad effaith weddilliol ar gyfer:<br>a) Cynefin Adran 7: twyni tywod arfordirol (Llwybr Rhan B) tymor canolig a’r mesur(au) lliniaru/digolledu arfaethedig.<br>b) Cynefin Adran 7: Ffen Iseldir (Llwybr Rhan C) tymor byr, a’r mesur(au) lliniaru/digolledu arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.73 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Gwelliannau**<br>a) Mae paragraff 131 [APP-305] yn cyfeirio at welliannau bioamrywiaeth ac yn datgan y byddant yn destun cyfnod ôl-ofal cychwynnol o hyd at dair blynedd. A wnewch chi esbonio a disgrifio'r gwelliannau bioamrywiaeth a fyddai'n destun llai na thair blynedd.<br>b) Mae paragraff 134 yn cyfeirio at y cynigion cychwynnol ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth ychwanegol yn yr OnSS a chreu pum pwll dŵr/pwll ychwanegol wedi'u lleoli i'r de-ddwyrain o'r OnSS a rheolaeth barhaus y pyllau dŵr newydd. A wnewch chi gadarnhau a yw rheolaeth barhaus y pyllau newydd yn cynnwys pyllau dŵr.<br>c) A wnewch chi gadarnhau'r math o rywogaethau adar a fydd yn gallu defnyddio'r bylchau adar a fyddai'n cael eu creu yn yr OnSS.<br>ch) A wnewch chi esbonio a disgrifio unrhyw welliannau bioamrywiaeth i ddarparu enillion net y tu hwnt i'r OnSS ac o fewn yr OL. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.74 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Ystlumod**<br>A wnewch chi feintioli'r llinellau hedfan a'r cynefin chwilota am fwyd a fyddai'n cael eu colli'n barhaol yn ardal yr OnSS ar gyfer y boblogaeth ystlumod (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.75 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Ystlumod**<br>A wnewch chi gadarnhau arwyddocâd yr effaith weddilliol o ganlyniad i golli cynefin yn barhaol ar gyfer poblogaethau ystlumod yn:<br>a) Yr OnSS,<br>b) Yr ECC ar y tir.<br>(Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.76 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Ystlumod**<br>A wnewch chi gadarnhau'r mesurau digolledu ar gyfer poblogaethau ystlumod ar hyd yr ECC ar y Tir, gan gynnwys unrhyw flychau ystlumod a'r swm a gynigir (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.77 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – GCN a Llyffantod Duon**<br>A wnewch chi gadarnhau arwyddocâd effeithiau gweddilliol tymor hir a thymor canolig ar gyfer GCN a llyffantod duon? [APP-066]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.78 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Gwrychoedd**<br>Ni chynhwyswyd gwrychoedd i'r gogledd o'r A525 o ganlyniad i ddiffyg strwythur addas, planhigion bwyd a/neu gysylltedd. Gan fod yr A525 yn llwybr o'r gogledd i'r de yn gyffredinol o'r Rhyl i Lanelwy, a wnewch chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol am leoliad y gwrychoedd na chynhwyswyd i'r gogledd o'r A525 [APP-066]. | |
| 2.79 | Yr Ymgeisydd, CNC, NWWT, Envirowatch.EU | **Ar y Tir – Gwrychoedd**<br>A wnewch chi gynghori ar amser adfer gwrych i swyddogaeth ecolegol at ddefnydd rhywogaethau unigol? | |
| 2.80 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Gwrychoedd**<br>A wnewch chi gadarnhau'r canlynol y cyfeirir atynt yn Nhabl 5, adran 13.3.5) [APP-074]:<br>a) Faint o fetrau a gollir dros dro o'r rhannau o'r 128 o wrychoedd eraill;<br>b) Hyd y gwrych sy'n bwysig o dan y Rheoliadau Gwrychoedd a fyddai'n cael ei golli yn yr OnSS ac a fyddai'n cael ei golli yn yr ECC Ar y Tir;<br>c) Arwyddocâd yr effaith weddilliol o ganlyniad i golli gwrychoedd yn barhaol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.81 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Pathewod**<br>A wnewch chi wirio paragraff 178, sy'n cyfeirio at yr adroddiad arolwg pathewod, cyfeirnod cais 6.5.7 (a ddylai fod yn 6.5.5.7?) [APP-066]. | |
| 2.82 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Coed**<br>A wnewch chi gadarnhau sut mae coed yr aflonyddir arnynt wedi cael eu hamlygu [APP-066]. | |
| 2.83 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Adareg**<br>A wnewch chi gadarnhau arwyddocâd effeithiau gweddilliol o ran aflonyddu ar adar sy'n gaeafu yn y lanfa a chroesfan Afon Clwyd gan nad yw'n ymddangos y penderfynwyd a oes angen mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer effeithiau gweledol ac acwstig. | |
| 2.84 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Adareg**<br>A wnewch chi gadarnhau'r cynefin a gollir dros dro, mewn ha, ar gyfer adar sy'n bridio ar y tir (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.85 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Coed**<br>A wnewch chi egluro'r datganiad 'gan gynnwys tua 41 o goed aeddfed' (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). A yw hyn yn ychwanegol at yr 8 coeden aeddfed a gollir yn yr OnSS, gan roi cyfanswm o 49? (Gyda 41 o goed aeddfed ar hyd yr ECC ar y tir). | |
| 2.86 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Llinell Sylfaen**<br>A wnewch chi esbonio sut mae amodau llinell sylfaen a nodweddion ecolegol pwysig wedi cael eu hamlygu mewn ardaloedd lle mae terfyn y gorchymyn drafft wedi newid? Er enghraifft, mae Ffigur 1, tudalen 5 o 13, yn y cynllun cynefin yn dangos hyd a lled yr ardal arolwg cynefin ger Aberkinsey yn cwtogi yn hytrach nag ymestyn i gyfeiriad dwyreiniol/gogledd-ddwyreiniol ar hyd y lôn i'w chyffordd (ES Cyfrol 5 – Atodiad 5.2 [APP-125]). | |
| 2.87 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>A wnewch chi gadarnhau hyd a lled yr ardal ffen iseldir yn y Flash y gallai'r gwaith effeithio arni, y cyfraddau aildyfu tybiedig a'r amser a gymerir i'r cynefin ffen ailsefydlu o'r ardaloedd na effeithir arnynt. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.88 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio'r dull o asesu effeithiau allyriadau $NO_x$ ac asid yn gollwng o beiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd ("NRMM") i safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol. | |
| 2.89 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>A wnewch chi gadarnhau effeithiau posibl, mesurau lliniaru/digolledu rhagarweiniol ac arwyddocâd effeithiau gweddilliol ar gyfer brogaod (*Rana temporaria*), madfallod dŵr cyffredin (*Lissotriton vulgaris*) a madfallod dŵr palfog (*Lissotriton helveticus*). | |
| 2.90 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – INNS**<br>Mae lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) Tabl 12: MDS Paramedrau Allweddol ar gyfer EcIA [APP-066], colofn 'senario niweidiol mwyaf a aseswyd' yn rhestru'r INNS y gwyddys eu bod yn bresennol yn yr OL. A wnewch chi esbonio'r rhesymau dros beidio â chynnwys y canlynol (sy'n ymddangos fel petaent o fewn cyffiniau'r ardal arolwg ddwyreiniol yn y Ffrith) yn y rhestr: Môr-rafnwydd (*Hippophae rhamnoides*), Clychau'r gog Sbaen (*Hyacinthoides hispanica*), Peithwellt (*Cortaderia selloana*), Briweg wen (*Sedum album*). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.91 | CNC, DCC, RSPB | **Ar y Tir – Cynefinoedd a Rhywogaethau**<br>A ydych chi'n fodlon â'r canlynol:<br>a) Y safleoedd dynodedig a restrir yn Nhabl 5: Safleoedd Dynodedig Na Chynhwyswyd yn yr Asesiad, ES Cyfrol 3, Pennod 5 [APP-066];<br>b) Cwmpas targedig yr arolwg adar sy'n gaeafu a bod effeithiau arwyddocaol ar rywogaethau adar eraill sy'n gaeafu yn annhebygol ac yr ystyriwyd nad oedd angen arolygon ar gyfer rhywogaethau eraill (ES Cyfrol 5 – Atodiad 5.3 [APP-126]); ac<br>c) Nad oes angen asesu effaith sŵn ar dderbynyddion ecolegol ar gyfer llwybr y ceblau na'r OnSS (paragraff 105 yr ES Cyfrol 3, Pennod 10 [APP-071]).<br><br>Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.92 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>A wnewch chi ddisgrifio ac esbonio sut gall cynefin H2130 Atodiad 1 y Rheoliadau Cynefinoedd, glaswelltir twyni, gael ei ailsefydlu'n llwyddiannus o dywarch a achubwyd o ardaloedd penodol ac a grëwyd o hadau lleol brodorol.<br><br>A wnewch chi gadarnhau'r raddfa amser ar gyfer y ddau ddull er mwyn i'r cynefin fod yn gwbl weithredol (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.93 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>A wnewch chi:<br>a) Ddiffinio'r term "coed safonol trwm" sy'n ymddangos o fewn penodau gwahanol o'r ES fel mesur lliniaru arfaethedig;<br>b) Esbonio ffynhonnell y gymhareb blannu 3:1 a sut y sicrheir y gymhareb hon yn y dDCO (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]); ac<br>c) Esbonio ffynhonnell/lleoliad cymysgedd brodorol sy'n briodol yn lleol ar gyfer ailblannu a'r raddfa amser yn yr MDS i gyrraedd aeddfedrwydd digonol i'w defnyddio fel gwrychoedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.94 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Cynefin a Rhywogaethau**<br>Ar gyfer Rhywogaethau Mamaliaid Adran 7 eraill: draenogod, ysgyfarnogod brown, ffwlbartiaid, a wnewch chi gadarnhau'r cynefin a gollir yn barhaol mewn hectarau yn yr OnSS ac esbonio a disgrifio'r ardal o gynefin a neilltuwyd ar gyfer ail-greu (Tabl 5, adran 13.3.5 [APP-074]). | |
| 2.95 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Infertebratau**<br>Mae Tabl 11 [APP-066] yn nodi bod infertebratau'n nodwedd ecolegol bwysig mewn morfa heli arfordirol; cors pori arfordirol a gorlifdir, afonydd; ac mae ES Cyfrol 5, Atodiad 7.4 [APP-140] yn amlygu bod LWS Gwlyptir Bryn Cwnin yn cynnal ystod o infertebratau pwysig. A wnewch chi gadarnhau'r mathau sylfaenol o infertebratau a amlygwyd yn y cynefinoedd a grybwyllir uchod ac arwyddocâd effeithiau gweddilliol ar infertebratau yn y cynefinoedd canlynol: morfa heli arfordirol; cors pori arfordirol a gorlifdir, afonydd; ac LWS Gwlyptir Bryn Cwnin. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.96 | Yr Ymgeisydd | **Ar y Tir – Infertebratau**<br>Disgrifiwch ac esboniwch sut mae'r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer twyni tywod arfordirol yn Nhabl 15 [APP-066] yn helpu i liniaru infertebratau yn y cynefinoedd canlynol: morfa heli arfordirol; cors pori arfordirol a gorlifdir, afonydd; ac LWS Gwlyptir Bryn Cwnin. | |
| 2.97 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol (RIAA)**<br>A ydych chi'n fodlon:<br>a) Tabl 57 a dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd yn unigol ac ar y cyd? (ES Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol [APP-027]);<br>b) Tabl 6 – crynodeb o'r casgliadau sgrinio ar gyfer yr holl dderbynyddion (ac eithrio adareg) (ES RIAA Atodiad 1 [APP-028]); a'r<br>c) Bwlch aer lleiaf o 21.9m y cyfeirir ato yn nhabl 1 paramedrau tyrbinau ac araeau a ddefnyddir i lywio Modelau Perygl Gwrthdrawiad [APP-097].<br><br>Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw un o'r pwyntiau uchod, nodwch ba rai, gan esbonio'ch rhesymau a rhoi cyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.98 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **RIAA**<br>A ydych chi’n fodlon â’r effeithiau posibl a ystyriwyd yn y dynodiadau yn Nhabl 1.1? Os na, nodwch y dynodiad(au), esboniwch eich rhesymau, a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth (ES Matricsau Cyfanrwydd [APP-034]). | |
| 2.99 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>A wnewch chi ymateb i Janet Finch-Saunders AS [AS-036] a’r datganiad sy’n ymddangos yn [APP-032] ynglŷn â’r potensial i ffermydd gwynt alltraeth gael effaith negyddol ar gyfanrwydd Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig o fewn cwmpas chwilota am fwyd safle’r fferm wynt alltraeth yn ystod y tymor bridio. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.100 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>Mae Tabl 5 yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol [APP-027] yn rhestru nodweddion yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) a'r safleoedd Ramsar sy'n debygol o brofi effeithiau arwyddocaol o'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y nodweddion a restrir ar gyfer rhai o'r AGAau yn cyfateb i'r nodweddion a restrir yn y dyfyniadau neu'r amcanion cadwraeth ar gyfer y nodweddion hyn – er enghraifft, disgrifir bod nodwedd môr-wenoliaid cyffredin AGA Bae Lerpwl yn bridio ac ar daith tra bod y dyfyniad AGA yn cyfeirio at y boblogaeth môr-wenoliaid cyffredin sy'n bridio. Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro'r nodweddion a ystyrir yn Nhabl 5 (ac, os oes angen, fersiwn ddiwygiedig o Dabl 5), yn nodedig o ran yr AGAau/AGAau arfaethedig/safleoedd Ramsar canlynol:<br>• Bae Lerpwl;<br>• Aber Afon Dyfrdwy;<br>• Môr-wenoliad Ynys Môn;<br>• Aberoedd Ribble ac Alt;<br>• Gweunydd Bowland;<br>• Ailsa Craig;<br>• Ynysoedd Copeland;<br>• Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli;<br>• Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro; a<br>• Safle Ramsar Bae Morecambe | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.101 | CNC | **RIAA**<br>Mae asesiad yr Ymgeisydd o LSE ar safleoedd Ewropeaidd (Tabl 5 [APP-027]) yn cynnwys hwyaid llostfain, corhwyaid a chwtiaid torgoch fel nodweddion Safle Ramsar Aber Afon Hafren. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi bod y nodweddion hyn wedi'u rhestru ar y Safle Gwybodaeth Ramsar perthnasol fel rhai a amlygwyd i'w hystyried yn y dyfodol, o bosibl, o dan faen prawf 6. Gofynnir i Cyfoeth Naturiol Cymru gadarnhau a ddylai'r nodweddion hyn gael eu trin fel nodweddion Ramsar rhestredig. Os felly, beth yw'r sail gyfreithiol neu bolisi dros wneud hynny? | |
| 2.102 | CNC, NS, DAERANI, Llywodraeth Ynys Manaw, JNCC | **RIAA**<br>A wnewch chi gadarnhau a oes unrhyw safleoedd Ewropeaidd/Ramsar neu nodweddion cymhwyso ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn [APP-027]. | |
| 2.103 | CNC, JNCC, DAERANI | **RIAA**<br>A wnewch chi gadarnhau a yw'r asesiad yn [APP-027] yn cyfeirio at yr amcanion cadwraeth cywir ar gyfer y safleoedd Ewropeaidd/Ramsar sy'n cael eu hystyried. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.104 | CNC | **RIAA**<br>Yn yr asesiad o effeithiau niweidiol posibl ar gyfanrwydd AGA Bae Lerpwl, mae [APP-027] yn cyfeirio at yr amcanion cadwraeth a gynhwysir yn y Cyngor Rheoliad 35(3) y cytunwyd arno gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Natural England (NE), er gwaethaf diffyg cyfeiriad yn yr amcanion hyn at sawl un o'r nodweddion cymhwyso (môr-wenoliaid cyffredin, môr-wenoliaid bychan a môr-hwyaid duon). A allai CNC gadarnhau a yw'r dull hwn yn briodol a sut gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried y goblygiadau ar gyfer amcanion cadwraeth yr AGA os nad yw'r amcanion cadwraeth yn ymdrin â'r ystod lawn o nodweddion cymwys? | |
| 2.105 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>Mae adran 10.2 [APP-027] yn datgan bod Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Casgliad Ynysoedd Scilly wedi'i chynnwys yn yr asesiad o effeithiau ar forloi llwyd. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr ACA hon wedi cael ei hamlygu yn yr ymarfer sgrinio LSE a adroddwyd yn y RIAA a dogfennau ategol. Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro p'un a yw'n ystyried y gallai LSE godi ar yr ACA hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.106 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>Mae Tabl 4 [APP-027] yn amlygu LSE ar Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy o ganlyniad i golli/aflonyddu ar gynefin ffisegol yn ystod pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, ni ymdrinnir â'r LSE hon yn yr asesiad o effeithiau ar gyfanrwydd yr ACA a gyflwynir yn adran 10.1.1 y RIAA. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu asesiad wedi'i ddiweddaru sy'n mynd i'r afael ag effeithiau ar yr ACA o ganlyniad i golli/aflonyddu ar gynefin ffisegol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.107 | Yr Ymgeisydd, CNC | **RIAA**<br>Mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi bod yr Ymgeisydd wedi dibynnu ar fesurau lliniaru i osgoi niweidio cyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd/Ramsar yn yr amgylchedd morol. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau lliniaru hyn, gan gynnwys y Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Prosiect, yn cael eu sicrhau trwy'r DCO drafft ond yn hytrach yn dibynnu ar osod amodau addas ynghlwm wrth y Trwyddedau Morol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.<br><br>Gofynnir i'r **Ymgeisydd** esbonio, gan gyfeirio at gyfraith achosion os yw'n briodol, pam y dylai'r SoS fod yn hyderus y byddai dull o'r fath yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.<br><br>A yw **CNC** yn cytuno â'r dull hwn o sicrhau mesurau lliniaru? Os felly, dylid rhoi cyfiawnhad, gan gyfeirio at unrhyw gyfraith achosion berthnasol, ynglŷn â pham mae'r dull hwn yn briodol. | |
| 2.108 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio sut mae'r RIAA a'r ES yn ystyried effaith allyriadau llongau morol a'r effaith ar safleoedd dynodedig? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.109 | Yr Ymgeisydd | **RIAA**<br>A wnewch chi ddarparu ffigur ychwanegol (yn ychwanegol at Ffigur 4 – Pob safle a sgriniwyd yn yr asesiad) i ddangos y safleoedd Ffrengig a sgriniwyd, fel y datganir yn nhabl 4. A wnewch chi hefyd ddiweddaru paragraff 93 a'r datganiad *"Mae Ffigur 4 yn dangos yr holl safleoedd a sgriniwyd mewn perthynas ag AyM"*. RIAA [APP-027]. Cynghorwch hefyd a oes angen i'r Wybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd [AS-022] gael ei diweddaru i gynnwys safleoedd Ffrengig perthnasol, a'u hamcanion cadwraeth a nodweddion cymwys. | |
| **3.** | **Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)** | | |
| **Y Llyfr Cyfeirio (BoR), Datganiad o'r Rhesymau (SoR), Cynlluniau Tir, ymholiad diwyd a diweddariadau** | | | |
| 3.1 | Yr Ymgeisydd | Cynghorwch b'un a yw'r BoR [AS-020a] yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) 'Deddf Cynllunio 2008: gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol' (Medi 2013) (canllawiau'r DCLG). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Yr Ymgeisydd | a) Rhowch fanylion ychwanegol / cyfiawnhad ynglŷn â sut rydych wedi amlygu partïon Categori 3 at ddibenion yr [AS-020a].<br>b) A oes unrhyw unigolion eraill a allai fod â hawl i wneud hawliad perthnasol pe byddai'r DCO yn cael ei wneud a'i weithredu'n llawn, ac felly y dylid eu hychwanegu fel partïon Categori 3 at [AS-020a]? Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr unigolion hynny sydd wedi rhoi sylwadau ar y canlynol neu sydd â buddiant ynddynt:<br>- sŵn, dirgryniad, arogleuon, mygdarthau, mwg neu oleuadau artiffisial;<br>- effaith adeiladu neu weithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar werthoedd eiddo neu incwm rhentu;<br>- pryderon ynglŷn ag ymsuddiant neu sadio;<br>- honiadau y byddai angen i rywun gael ei adleoli dros dro neu'n barhaol;<br>- effeithiau ar fusnes;<br>- colli hawliau, e.e. i le parcio neu fynediad i eiddo preifat;<br>- pryderon ynglŷn ag ariannu'r prosiect; | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | - honiadau bod dewisiadau amgen hyfyw; neu<br>- falltod. | |
| 3.3 | Yr Ymgeisydd | Mae'r Cynlluniau Tir ar y Tir [AS-005] yn dangos y byddai tir pinc a glas yn destun TP yn ogystal â naill ai caffael tir neu hawliau'n orfodol. Ble y darperir ar gyfer hyn yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [AS-014] ac a ddylai hyn gael ei adlewyrchu yn ail golofn tabl Rhan 1 [AS-020a]? | |
| 3.4 | Yr Ymgeisydd | Gan nodi paragraff 149 y SoR [APP-021] a pharagraff 35 y Datganiad Cyllid (FS) [AS-018], rhowch gyfiawnhad pellach i'r casgliad na fyddai unrhyw falltod. | |
| 3.5 | Unigolion yr Effeithir Arnynt, Partïon â Buddiant | A yw unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt neu Bartïon â Buddiant yn ymwybodol o unrhyw anghywirdebau yn [AS-020a], [APP-021] neu [AS-005]? Os felly, nodwch beth yw'r rhain a darparwch y manylion cywir. | |
| 3.6 | Yr Ymgeisydd | Crynhowch lle nad ydych eto wedi gallu nodi unrhyw unigolion sydd â buddiant yn y tir, gan gynnwys unrhyw hawliau dros dir sydd heb ei gofrestru. Pa gamau ychwanegol y byddwch yn eu cymryd i adnabod unrhyw hawliau anhysbys yn ystod yr Archwiliad? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.7 | Yr Ymgeisydd | Rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â sut y cynhaliwyd ymholiadau diwyd, gan nodi bod nifer fawr o fuddiannau ‘anhysbys’ yn [AS-020a], er enghraifft, mewn perthynas â Lleiniau 96, 97 a 98? | |
| 3.8 | Yr Ymgeisydd | Mae’n ymddangos bod rhai anghysondebau rhwng y wybodaeth a ddarparwyd mewn rhai sylwadau perthnasol (RR) a’r wybodaeth yn [AS-020a]. Er enghraifft, nid yw’r geiriau ‘Ymddiriedolaeth yn ôl Disgresiwn’ yn [RR-037] yn ymddangos yn y cofnod perthnasol yn [AS-020a] ac nid yw enw’r cwmni sy’n gysylltiedig ag [RR-017] yn ymddangos felly yn [AS-020a]. Archwiliwch yr anghysondebau hyn, ac unrhyw rai eraill, a rhowch eglurhad. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.9 | Yr Ymgeisydd | O ran [AS-020a], [APP-021], [AS-005] a Chynlluniau Tir Categori Arbennig [AS-006], gwnewch yn siŵr:<br>a) Eu bod yn cael eu cadw’n gwbl gyfredol gydag unrhyw newidiadau a bod y fersiynau diweddaraf yn cael eu cyflwyno erbyn y terfynau amser a ddangosir yn amserlen yr Archwiliad ynghyd ag esboniad o’r rhesymau dros bob newid;<br>b) Bod dwy fersiwn yn cael eu cyflenwi (glân a chyda newidiadau wedi’u holrhain) erbyn pob terfyn amser;<br>c) Eu bod yn cael eu cyflenwi gyda rhifau diwygio unigryw sy’n cael eu diweddaru’n olynol o fersiynau’r cais, wedi’u dangos yn glir o fewn corff pob dogfen ac wedi’u cynnwys yn enw’r ffeil electronig; a<br>ch) Bod [AS-014], gan gynnwys Atodlenni perthnasol, yn cael ei diweddaru yn unol â hynny. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.10 | Yr Ymgeisydd | Pa sicrwydd a thystiolaeth y gall yr Ymgeisydd eu darparu o gywirdeb y buddiannau tir y nodwyd eu bod wedi’u cyflwyno, ac a all yr Ymgeisydd nodi p’un a oes unrhyw newidiadau’n debygol i’r buddiannau tir, gan gynnwys amlygu perchnogion / buddiannau ychwanegol neu fonitro a diweddaru newidiadau i fuddiannau? | |
| 3.11 | Yr Ymgeisydd | A ydych chi’n disgwyl unrhyw newidiadau i’r cais a allai ysgogi Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.12 | Yr Ymgeisydd | Mae Atodlen 1 [APP-021] (Crynodeb o statws trafodaethau â thirfeddianwyr) yn rhoi manylion cyfyngedig ac nid yw’n glir p’un a yw’n berthnasol i bob tirfeddiannwr. At hynny, nid yw’n rhoi unrhyw fanylion ynglŷn â thrafodaethau â phartïon Categori 1 eraill, partïon Categori 2 na phartïon Categori 3. Rhowch wybodaeth fanwl am statws trafodaethau â’r holl Unigolion yr Effeithir Arnynt o ystyried y dylai’r ExA fod yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu â’r holl Unigolion yr Effeithir Arnynt gyda’r bwriad o gaffael eu buddiannau tir trwy gytundeb. Rhowch ddiweddariad hefyd mewn perthynas ag ymgysylltu â’r partïon hynny yr effeithir arnynt y cyfeirir atynt yn adran 9 [APP-021]. Gellir cynnwys y wybodaeth hon yn yr Atodlen Caffael Gorfodol a’r Atodlen Cynnydd Ymgymerwyr Statudol (gweler isod). | |
| 3.13 | Yr Ymgeisydd | Mae paragraff 7 [AS-020a] yn nodi bod yr Ymgeisydd wedi defnyddio dull rhagofalus o geisio pwerau CA / TP mewn perthynas â’r holl leiniau tir hyd yn oed os yw eisoes yn dal buddiant neu’n rhagdybio ei fod yn dal buddiant mewn tir. Rhestrwch y lleiniau y mae’r Ymgeisydd yn dal buddiant neu’n rhagdybio ei fod yn dal buddiant ynddynt, gan nad yw’n glir o [AS-020a] pa rai yw’r rhain. | |

| **Sut y bwriedir defnyddio'r tir, p'un a archwiliwyd dewisiadau amgen rhesymol a ph'un a yw'r hawliau a geisir yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn angenrheidiol** | | | |
|---|---|---|---|
| 3.14 | Yr Ymgeisydd | Er mwyn helpu i ystyried p'un a yw maint y tir sydd i'w ddefnyddio dros dro yn ddim mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn rhesymol at ddibenion y Datblygiad Arfaethedig, rhowch fanylion ychwanegol i gyfiawnhau maint y tir a geisir i'w ddefnyddio dros dro (gan gynnwys mewn perthynas â Chlwb Golff y Rhyl). | |
| 3.15 | Yr Ymgeisydd | Mae'n ymddangos bod Erthygl 27(8)(a) a (b) [AS-014] yn darparu ar gyfer caffael hawliau dros dir yn orfodol / caffael isbridd yn orfodol mewn perthynas â lleiniau a amlygir ar gyfer TP yn unig (fel yr amlinellir yn Atodlen 6 [AS-014] ac fel yr amlygir yn y Cynlluniau Tir ar y tir mewn melyn). A wnewch chi gyfiawnhau pwerau o'r fath, egluro i ba raddau y mae unigolion yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn ymwybodol o hyn a chadarnhau p'un a yw'r pwerau a geisir wedi'u hadlewyrchu yn yr [AS-020a] ac [APP-021]? | |
| 3.16 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi gyfiawnhau lled yr ECC ar y tir lle y cynigir technegau di-ffos ac esbonio pam mae hyn yn fwy na lle y byddai ffosydd yn cael eu torri. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.17 | Yr Ymgeisydd | O ystyried nad yw'r estyniad i is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn rhan o'r cais, a wnewch chi gyfiawnhau'r pwerau a geisir ar gyfer caffael hawliau'n orfodol / TP tir sy'n gysylltiedig â hyn a chynnwys tir o'r fath o fewn terfynau'r Gorchymyn. | |
| 3.18 | Yr Ymgeisydd | Mae adran 5 [APP-021] yn datgan bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros CA. A wnewch chi fynd i'r afael â'r canlynol:<br>a) Pa asesiad, os o gwbl, a wnaed o'r effaith ar Unigolion yr Effeithir Arnynt a'u colled breifat a fyddai'n digwydd o ganlyniad i arfer pwerau CA ym mhob achos;<br>b) Sut y dangoswyd yn y cais bod buddion cyhoeddus y cynllun yn drech nag unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol, gan gynnwys colled breifat a ddioddefir gan dirfeddianwyr a meddianwyr unigol; a<br>c) Dangos sut y daethpwyd i gasgliad o'r fath a sut y cynhaliwyd yr ymarfer cydbwyso rhwng budd cyhoeddus a cholled breifat? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.19 | Yr Ymgeisydd | Mae adran 12 [APP-021] yn mynd i’r afael â hawliau dynol. A all yr Ymgeisydd:<br>a) Ddangos yn fanylach y byddai ymyrryd â hawliau dynol yn yr achos hwn yn gymesur ac yn gyfiawnadwy; ac<br>b) Esbonio sut y cynhaliwyd y prawf cymesuredd a sut y defnyddiwyd y dull hwn mewn perthynas â lleiniau unigol? | |
| 3.20 | Yr Ymgeisydd | Er mwyn osgoi amheuaeth, amlinellwch yr holl ffactorau yr ystyrir eu bod yn cynrychioli tystiolaeth o achos cymhellol er budd y cyhoedd ar gyfer y pwerau CA a TP a geisir a ble, gan gyfeirio at baragraffau penodol, yr amlinellir y rhain yn y dogfennau a gyflwynwyd. | |
| **Gwrthwynebiadau, materion a chytundebau gwirfoddol unigol** | | | |
| 3.21 | Yr Holl Unigolion yr Effeithir Arnynt | A oes gan unrhyw Unigolyn yr Effeithir Arno unrhyw bryderon nad yw wedi’u codi eto ynglŷn â chyfreithlondeb, cymesuredd neu anghenraid y pwerau caffael gorfodol neu feddiant dros dro a geisir gan yr Ymgeisydd a fyddai’n effeithio ar ei dir neu ei hawliau mewn tir? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.22 | Yr Ymgeisydd | Cwblhewch yr Atodlen Gwrthwynebiadau Caffael Gorfodol (CA) / Meddiant Dros Dro (TP) (yn Atodiad A y ddogfen hon) a gwnewch unrhyw gofnodion y credwch y byddent yn briodol, gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd mewn sylwadau perthnasol (RRs), a rhoi rhesymau dros unrhyw ychwanegiadau. Wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo ac ar bob terfyn amser dilynol, diweddarwch yr Atodlen CA fel y bo'r angen. | |
| 3.23 | Yr Ymgeisydd | Yng ngoleuni canllawiau'r DCLG, yn enwedig paragraff 8, disgrifiwch:<br>a) Sut gall yr ExA fod yn sicr bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle CA (gan gynnwys addasiadau i'r cynllun) wedi cael eu harchwilio; ac<br>b) Amlinellu'n gryno, gan gyfeirio at ddogfennau lle y bo'n briodol, pa asesiad / cymhariaeth a wnaed o'r dewisiadau amgen yn lle'r bwriad i gaffael tir neu fuddiannau ym mhob achos. | |
| **Ymgymerwyr Statudol** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.24 | Yr Ymgeisydd, Ymgymerwyr Statudol (gan gynnwys SP Energy Networks ar ran SP Manweb, National Grid Electricity Transmission Plc a Diamond Transmission Corporation) | Mae [AS-020a] yn cynnwys sawl Ymgymerwr Statudol â buddiannau mewn tir ac offer y byddai CA / TP yn effeithio arnynt.<br><br>**Yr Ymgeisydd:**<br>a) Darparwch adroddiad cynnydd ar drafodaethau â phob un o'r Ymgymerwyr Statudol a restrir yn [AS-020a], gyda syniad o'r amserlen ar gyfer sicrhau cytundeb â nhw;<br>b) Nodwch b'un a ddisgwylir unrhyw rwystrau rhag sicrhau cytundebau o'r fath; a<br>c) Datganwch b'un a nodwyd unrhyw Ymgymerwyr Statudol ychwanegol ers i [AS-020a] gael ei gyflwyno gyda'r cais.<br><br>**Ymgymerwyr Statudol:**<br>Lle mae gan Ymgymerwyr Statudol ([RR-013], [RR-014] ac [RR-017]) bryderon ynglŷn â drafft presennol y Ddarpariaeth Amddiffynnol yn [AS-014], darparwch gopïau o eiriad amgenach neu, os ydych wedi'i ddarparu, rhowch gyfeiriad at ble y gellir dod o hyd iddo ac esboniwch pam nad ydych o'r farn bod y geiriad presennol yn briodol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.25 | Yr Ymgeisydd | Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu'r RRs a'r Sylwadau Ysgrifenedig dilynol a wnaed gan unrhyw Ymgymerwr Statudol wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo ac yna, ar bob terfyn amser dilynol, ddiweddaru, fel y bo'r angen, tabl sy'n amlygu ac yn ymateb i unrhyw sylwadau a wnaed gan Ymgymerwyr Statudol sydd â thir neu hawliau y mae PA2008 a127 a / neu a138 PA2008 yn berthnasol iddynt (Atodlen Cynnydd Ymgymerwyr Statudol).<br>Pan amlygir sylwadau o'r fath, gofynnir i'r Ymgeisydd nodi:<br>a) Rhestr gyfredol o Ymgymerwyr Statudol;<br>b) Natur eu hymgymeriadau;<br>c) Tir, hawliau neu gyfarpar yr Ymgymerwr Statudol yr effeithir arnynt a sut;<br>ch) Y cynnydd a wnaed mewn trafodaethau ag Ymgymerwyr Statudol ers y diweddariad diwethaf o ran y profion a amlinellir yn a127(3)(a) neu (b), a127(6)(a) neu (b) ac a138(4) PA2008; ac<br>d) Unrhyw gytundeb neu wahaniaethau rhwng yr Ymgeisydd a'r Ymgymerwr Statudol ynglŷn â ph'un a fodlonwyd y profion, y camau nesaf i'w cymryd, a'r cynnydd a ddisgwylir erbyn diwedd yr Archwiliad; | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dd) O ran y materion hyn, p'un a ddisgwylir unrhyw ddarpariaethau amddiffynnol a / neu gytundeb masnachol, ac os felly:<br>• p'un a yw'r rhain eisoes ar gael i'r ExA ar ffurf ddrafft neu derfynol;<br>• p'un a yw dogfen newydd sy'n eu disgrifio ynghlwm wrth yr ymateb i'r cwestiwn hwn; neu<br>• b'un a oes angen gwaith ychwanegol cyn y gellir eu dogfennu; ac<br>e) O ran Ymgymerwr Statudol a enwyd mewn fersiwn gynharach o'r tabl ond y daethpwyd i gytundeb ag ef:<br>• p'un a yw'r setliad wedi ei ysgogi i dynnu ei sylw(adau) yn ôl yn gyfan gwbl neu'n rhannol; ac<br>• amlygu unrhyw ddogfennau sy'n darparu tystiolaeth neu gytundeb a thynnu'n ôl.<br><br>Bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol, felly ni ddylid rhoi manylion masnachol a / neu gyfrinachol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.26 | Yr Ymgeisydd, Ymgymerwyr Statudol (gan gynnwys EirGrid, North Hoyle Wind Farm (NHWF) Limited a Rhyl Flats Wind Farm (RFWF) Limited) | Mae sawl Ymgymerwr Statudol â buddiannau tir ac offer alltraeth (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y BoR) wedi cyflwyno RR ([RR-018], [RR-019] ac [RR-020]).<br><br>**Yr Ymgeisydd:**<br>a) Darparwch adroddiad cynnydd ar drafodaethau â phob un o'r Ymgymerwyr Statudol hyn, gyda syniad o'r amserlen ar gyfer sicrhau cytundeb â nhw;<br>b) Nodwch b'un a ddisgwylir unrhyw rwystrau rhag sicrhau cytundebau o'r fath; a<br>c) Datganwch b'un a nodwyd unrhyw Ymgymerwyr Statudol ychwanegol â buddiannau alltraeth ers i'r cais gael ei gyflwyno.<br><br>**Ymgymerwyr Statudol:**<br>Lle mae gan Ymgymerwyr Statudol [RR-018, RR-019 a RR-020] bryderon ynglŷn â drafft presennol y Ddarpariaeth Amddiffynnol yn [AS-014], darparwch gopïau o eiriad amgenach neu, os ydych wedi'i ddarparu, rhowch gyfeiriad at ble y gellir dod o hyd iddo ac esboniwch pam nad ydych o'r farn bod y geiriad presennol yn briodol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.27 | Yr Ymgeisydd | Rhowch sylwadau ar y pryderon a godwyd gan RFWF Limited [RR-020] ynglŷn â'r canlynol:<br>a) Gwaith Rhif 2 a goblygiadau i weithredu RFWF a'i gytundebau prydles;<br>b) Cydsyniadau angenrheidiol gan RFWF (yn debyg i fater a godwyd hefyd gan NHWF Limited [RR-019]); a<br>c) Lleoliad y Datblygiad Arfaethedig a'r potensial ar gyfer lleihau allbwn ynni RFWF o ganlyniad i newidiadau i gyflymder a chyfeiriad y gwynt. | |
| 3.28 | Yr Ymgeisydd | Mae NHWF Limited [RR-019] yn cyfeirio at lwybr ceblau alltraeth amgen a fyddai'n osgoi ei seilwaith. Gwnewch sylwadau ar hyn. | |
| 3.29 | Yr Ymgeisydd | A yw Atodlen 9 (Darpariaethau Amddiffynnol) Rhan 1 (Amddiffyniad ar gyfer ymgymerwyr trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth) [AS-014] yn berthnasol ar y tir ac ar y môr? | |
| **Tir Categori Arbennig** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.30 | Yr Ymgeisydd | Mae adran 11.2 [APP-021] yn mynd i'r afael â 'mannau agored' ac a132 PA2008. Fodd bynnag, eglurwch y canlynol, os gwelwch yn dda:<br>a) P'un a yw a131 PA2008 yn berthnasol i'r cais;<br>b) P'un a oes unrhyw dir comin neu randiroedd gardd danwydd neu gae yn berthnasol i'r cais; a<br>c) Ph'un a allai Clwb Golff y Rhyl gael ei ystyried yn fan agored ac, os na, pam y cyfeirir ato yn adran 11.2 [APP-021]? | |
| 3.31 | DCC | Mae adran 11.2 [APP-021] yn nodi na fyddai unrhyw ganiatâd datblygu a roddir yn destun gweithdrefn seneddol arbennig o ystyried na fydd 'man agored' o fewn tir y Gorchymyn, gyda baich hawl y gorchymyn, yn llai manteisiol nag ydoedd o'r blaen i (a) yr unigolion y mae wedi'i roi iddynt, (b) unigolion eraill, os o gwbl, sydd â hawliau tir comin neu hawliau eraill, ac (c) y cyhoedd, yn unol ag a132(3) PA2008. Cadarnhewch a ydych yn fodlon â'r casgliad hwn. | |
| **Tir y Goron** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.32 | Yr Ymgeisydd | Bydd angen cydsyniad ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yn y DCO a fyddai'n ymwneud â thir y Goron neu hawliau sydd o fudd i'r Goron yn unol ag a135(2) PA2008. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys cydsyniad ar gyfer unrhyw TP a geisir dros dir y Goron.<br><br>Mae Rhan 4 [AS-020a] yn rhestru nifer o leiniau lle mae'r Goron yn berchen ar y tir. Mae'r disgrifiad o bob un o'r lleiniau hyn yn cynnwys yr ôl-ychwanegiad '(ac eithrio holl fuddiannau'r Goron)'.<br>a) Rhowch esboniad ychwanegol dros gynnwys y geiriad hwn a'r hyn y mae'n ei awgrymu at ddibenion a135 PA2008.<br>b) Mae [APP-021] yn cynghori eich bod yn cynnal trafodaethau ag awdurdodau priodol y Goron er mwyn cael eu caniatâd i gynnwys y darpariaethau hyn, fel sy'n ofynnol o dan a135 PA2008. Rhowch ddiweddariad ar hynt y trafodaethau hyn (gan restru'r holl awdurdodau perthnasol) a chadarnhewch b'un a ddeuir i gytundeb cyn diwedd yr Archwiliad.<br>c) Cadarnhewch b'un a oes unrhyw dir a fyddai'n destun fforffedu wedi'i gynnwys o fewn terfynau'r Gorchymyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.33 | Yr Ymgeisydd | Eglurwch / nodwch awdurdod perthnasol y Goron ar gyfer 'Mawrhydi Tra Bendigedig Y Frenhines yn Hawl Ei Choron' fel y'i hamlygir yn [AS-020a]. | |
| 3.34 | Yr Ymgeisydd | Mae paragraffau 16 a 110 [APP-021] yn nodi bod cytundeb prydles ar gyfer ardal yr aráe eisoes wedi cael ei gwblhau'n derfynol gydag Ystad y Goron a bod cytundeb prydles ychwanegol ar gyfer ardal y ceblau yn mynd rhagddo. Rhowch ddiweddariad ar y cynnydd hwn a chadarnhewch b'un a ddeuir i gytundeb cyn diwedd yr Archwiliad, gan hefyd nodi a mynd i'r afael â'r ffaith bod North Hoyle Wind Farm Limited [RR-019] a Rhyl Flats Wind Farm Limited [RR-020] yn nodi bod angen eu cydsyniad nhw hefyd. | |
| **Darpariaethau iawndal a digonolrwydd cronfeydd** | | | |
| 3.35 | Yr Ymgeisydd | Mae paragraff 27 [AS-018] yn nodi y byddai'r Ymgeisydd yn sicrhau bod yr arian angenrheidiol sy'n ymwneud â CA / TP / iawndal (oddeutu £11.2 miliwn) ar gael pan fydd yn ddyledus. Sut byddai hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol, gan nodi bod yr Ymgeisydd yn fenter ar y cyd rhwng tri chwmni gwahanol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.36 | Yr Ymgeisydd | Mae adran 6 [AS-018] yn amlinellu costau amcangyfrifedig y prosiect a'i gydrannau. A ddylai hyn hefyd gynnwys:<br>a) Costau TP; a<br>b) Chostau datgomisiynu?<br>Os na, pam? Os felly, a fyddai unrhyw gynnydd yng nghostau'r prosiect yn effeithio ar yr arian sydd ar gael ar gyfer CA / TP / iawndal? | |
| 3.37 | Yr Ymgeisydd | Mae Atodiad 2 [AS-018] yn nodi bod y ddealltwriaeth o'r effaith debygol ar fusnesau unigol yn anghyflawn o hyd oherwydd bod tystiolaeth leiafsymiol wedi cael ei chyflwyno hyd yma. Cadarnhewch:<br><br>a) A gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol ers i Atodiad 2 gael ei gynhyrchu?<br>b) Os felly, a oes angen diweddaru unrhyw ffigurau?; ac<br>c) Os na, pa mor hyderus y gall yr ExA fod ynglŷn â chywirdeb y ffigurau? | |
| 3.38 | Yr Ymgeisydd | Mae Atodiad 2 [AS-018] yn nodi mai dyddiad y prisiad yw mis Ebrill 2022. A yw'n debygol y bydd angen diweddaru'r FS yn ystod yr archwiliad, o ystyried y disgwylir iddo barhau tan fis Mawrth 2023? | |
| **Cwestiynau Penodol i Safle** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.39 | Yr Ymgeisydd | Mae [RR-030] ac [RR-031] yn ymwneud ag effaith y Datblygiad Arfaethedig ar weithredu Parc Coffa ac Amlosgfa Sir Ddinbych, gan gynnwys mewn perthynas â sŵn ac aflonyddu gweledol / tarfu. Ymatebwch i’r pryderon a godwyd. | |
| 3.40 | Yr Ymgeisydd | Ymdriniwch â’r pwyntiau a godwyd yn [RR-037], gan gynnwys mewn perthynas ag ymgysylltu a chyfathrebu, dewisiadau amgen a darpariaethau hawliau tir. | |
| 3.41 | Yr Ymgeisydd | Mae [RR-038] yn codi pryderon ynglŷn â chaffael tir a hyfywedd y fenter amaethyddol yr effeithir arni. Ymatebwch i’r pryder hwn. | |
| 3.42 | Yr Ymgeisydd | Mae [RR-039] i [RR-041] yn nodi pryderon ynglŷn â’r effaith ar dir a safonau adfer. Rhowch ymateb. | |
| 3.43 | Yr Ymgeisydd | Mae [RR-044] i [RR-051] yn codi pryderon ynglŷn â sŵn, golau a llygredd llwch o gyfadeilad Cwybr Fawr, diogeledd bwyd, effeithiau ar farchogaeth, diogelwch ar y priffyrdd ac effeithiau ar fusnesau lleol. Mae [RR-042] ac [RR-043] yn codi pryderon ynglŷn â diogeledd bwyd hefyd. Ymatebwch i’r pryderon hyn. | |
| **Arall** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.44 | Yr Ymgeisydd | Eglurwch sut rydych wedi ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran y pwerau a geisir. A amlygwyd unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa ystyriaeth a roddwyd iddynt? | |
| 3.45 | Yr Ymgeisydd | A oes angen caffael unrhyw dir neu hawliau yn ychwanegol at y rhai hynny a geisir trwy'r dDCO cyn y gallai'r Datblygiad Arfaethedig ddod yn weithredol? | |
| **4.** | **Adeiladu** | | |
| 4.1 | Yr Ymgeisydd | **Rhaglen Adeiladu Ddangosol**<br>Darparwch raglen adeiladu ddangosol ddiwygiedig (Ffigur 2 ES Cyfrol 3, Pennod 1 [APP-062]) sy'n cynnwys manylion ychwanegol ynglŷn â'r gweithgareddau lefel uchel a restrir ar hyn o bryd. | |
| 4.2 | Yr Ymgeisydd | **Adeiladu argae coffr**<br>A wnewch chi gadarnhau faint o oedi wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r 81 diwrnod i adeiladu argae coffr? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Yr Ymgeisydd | **Cyfnod adeiladu alltraeth**<br>Mae Tabl 18 yn ES Cyfrol 2, Pennod 7 [AS-026] yn nodi mai'r dyddiadau adeiladu alltraeth yw mis Ionawr 2028 i fis Mawrth 2030, tra bod y rhaglen adeiladu ddangosol yn Ffigur 2 ES Cyfrol 2, Pennod 1 [APP-047] yn dangos gwaith clirio alltraeth o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 4 Chwarter 2, a gosod sylfeini o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 4. A wnewch chi egluro'r cyfnod adeiladu alltraeth a gynhelir ar gyfer yr asesiad o effaith? | |
| 4.4 | Yr Ymgeisydd | **Cebl allforio**<br>Darparwch nodyn esboniadol gan gynnwys diagram darluniadol (gyda chynllun a thrychiadau) sy'n dangos gwaith gosod di-ffos ar gyfer y cebl allforio o dan amddiffynfa fôr y Rhyl. | |
| 4.5 | Yr Ymgeisydd | **Ysgraffau Codi**<br>Darparwch nodyn esboniadol a diagram darluniadol o ysgraffau codi yn yr ardal islanw bas. | |
| 4.6 | Yr Ymgeisydd | **Canolfan Adeiladu**<br>Esboniwch sut y cynhaliwyd yr asesiad o effaith ar gyfer dadleoli a tharfu ar long(au) sy'n mordwyo i/o leoliad canolfan adeiladu heb ei ddiffinio (cyfleuster porthladd)? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.7 | Yr Ymgeisydd | **Hyd Gwaith Gosod Seilbyst**<br>A wnewch chi roi gwybodaeth ychwanegol am sut y gwasgarwyd y 201 o ddiwrnodau gosod seilbyst ar hap ar hyd y cyfnod adeiladu 12 mis. Er enghraifft, a roddwyd unrhyw bwys i dymhorau er mwyn gwahaniaethu rhwng dwyseddau isel ac uchel? | |
| 4.8 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf ar y Tir (OnSS)**<br>Darparwch nodyn esboniadol a lluniadau o gamau cloddwaith ar gyfer adeiladu'r OnSS. Cynhwyswch:<br>a) leoliad tomenni uwchbridd ac isbridd; a<br>b) nodweddion draenio fel pyllau dŵr. | |
| 4.9 | Yr Ymgeisydd | **Deunydd a Gloddiwyd**<br>Cadarnhewch a fwriedir i unrhyw ddeunydd a gloddiwyd ar gyfer yr OnSS gael ei ailddefnyddio fel deunydd peirianneg? Os felly, rhowch y swm amcangyfrifedig a'r math o ddeunydd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.10 | Yr Ymgeisydd | **Ailddefnyddio Gwastraff**<br>Mae Tabl 17 [APP-062] yn amcangyfrif y mathau o wastraff a'r symiau sydd i'w cynhyrchu o adeiladu'r OnSS. Mae'r golofn opsiwn rheoli gwastraff yn cyfeirio at ailddefnyddio ar y safle lle y bo'n bosibl, sy'n awgrymu ailbrosesu a sicrwydd defnydd o ran cynllunio. Esboniwch a disgrifiwch y dull o ailddefnyddio ar y safle, gan gynnwys y trwyddedau a'r eithriadau sy'n debygol o fod yn ofynnol. | |
| 4.11 | Yr Ymgeisydd | **Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol (oCoCP**)<br>Mae paragraff 9 yr oCoCP [APP-312] yn ymwneud ag elfennau'r Datblygiad Arfaethedig sydd ar y tir yn unig (h.y., tua'r tir o Benllanw Cymedrig y Gorllanw (MHWS)). Darparwch restr o ddogfennau a ddefnyddir i reoli'r effeithiau amgylcheddol posibl tua'r môr o MHWS yn ystod gwaith rhagarweiniol a gwaith adeiladu. | |
| 4.12 | Yr Ymgeisydd | **Croesfannau Di-ffos**<br>Nodwch yr hyd adeiladu tebygol ar gyfer gwaith croesfan ddi-ffos wrth yr A55 ac Afon Clwyd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.13 | Yr Ymgeisydd | **Dyfnderoedd Ceblau**<br>Cadarnhewch ddyfnder mwyaf y ffos geblau nad yw'n croesi rhwystrau (a yw'n 1.7m ynteu 2.0m?) | |
| 4.14 | Yr Ymgeisydd | **Pentwr Uwchbridd**<br>Cadarnhewch uchder mwyaf y pentwr uwchbridd. | |
| 4.15 | Yr Ymgeisydd | **Pentwr Isbridd**<br>Cadarnhewch uchder mwyaf y pentwr isbridd. | |
| 4.16 | Yr Ymgeisydd | **Gosod Ceblau a Draenio**<br>Esboniwch a disgrifiwch, gan gynnwys cynllun gosodiad, "*pwmpio trwy fodd priodol i gael gwared ar waddodion cyn rhyddhau i ffosydd neu ddraeniau lleol trwy ddraeniau ailgyfeirio dros dro* (paragraff 105 [APP-062]". | |
| 4.17 | Yr Ymgeisydd | **Safleoedd Gwastraff**<br>Cadarnhewch enw(au) a chyfeiriad(au) safleoedd gwastraff confensiynol a pheryglus, gan gynnwys capasiti gweddilliol i dderbyn gwastraff a gynhyrchir o'r Datblygiad Arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.18 | Yr Ymgeisydd | **Gweithgareddau Dymchwel**<br>Mae paragraff 131 ES Cyfrol 3, Pennod 3.11 [AS-030] yn datgan *"Ni fwriedir gwneud unrhyw waith dymchwel yn rhan o'r gwaith adeiladu ar y tir. Fel y cyfryw, nid yw effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau dymchwel wedi cael eu hystyried ymhellach ac fe'u sgriniwyd allan".*<br>Cadarnhewch a yw ailddefnyddio deunydd a gafwyd ar y safle yn cynnwys gweithgaredd dymchwel (fel mathru a phrosesu cerrig). | |
| 4.19 | Yr Ymgeisydd | **Ceblau Allforio Aráe ac Alltraeth**<br>Rhowch esboniad a chyfiawnhad gyda thystiolaeth am y datganiad paramedr bod 50% o waddodion yn cael eu hylifo a bod 50% yn cael eu hailgrogi yn y golofn ddŵr ar gyfer ffos siâp V, fel y manylir yn nhablau 21 a 22 [APP-047]. | |
| 4.20 | Yr Ymgeisydd | **Claddu Ceblau Alltraeth**<br>Cadarnhewch y llethr graddiant critigol i atal claddu cebl (paragraff 38 [APP-047]). | |
| 4.21 | Yr Ymgeisydd | **Trin Angorau**<br>Esboniwch a disgrifiwch y dull asesu effaith ar gyfer trin angorau a defnyddio angorau y tu hwnt i derfyn y gorchymyn o longau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.22 | CNC | **Prosesau Gwastraff Peryglus ac Argyfyngau**<br>A ydych chi'n fodlon â chynnwys y Cynllun Rheoli Gwastraff Safle amlinellol (oSWMP) [APP-317] a'r Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfyngau amlinellol (oPPEIRP) [APP-317] o ystyried y prosesau gwastraff peryglus ac argyfyngau arfaethedig yn benodol? Os na, esboniwch eich rhesymau. | |
| 4.23 | Yr Ymgeisydd | **Parthau Diogelwch**<br>A wnewch chi gadarnhau bod y parthau diogelwch 500 metr yn ystod adeiladu o fewn yr OL? | |
| 4.24 | Yr Ymgeisydd | **Parthau Diogelwch**<br>Cadarnhewch yr ymagwedd parth diogelwch at Rif Gwaith 3A Ardal weithio dros dro, gan gynnwys defnydd ar gyfer angori llongau gosod ceblau, gan nad yw'n ymddangos ei bod wedi'i chynnwys yn Adran 4 y Datganiad Parth Diogelwch [APP-297]. | |
| 4.25 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Torri Ffosydd ar y Tir**<br>A wnewch chi ddarparu lluniad cynllun sy'n dangos lleoliad a hyd ffosydd agored ar y tir sydd wedi'u cynnwys yn yr MDS. | |
| **5.** | **Dylunio Da** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Yr Ymgeisydd | **Meintiau is-orsaf**<br>Rhowch fanylion dyluniad a meintiau cymharol yr OnSS arfaethedig ac is-orsafoedd presennol Gwynt y Môr a Burbo Bank. Os oes gwahaniaeth arwyddocaol (neu wahaniaeth tebygol), pam? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.2 | Yr Ymgeisydd | **Dylunio Da – Polisi**<br>Mae meini prawf adran 4.5 EN-1 ar gyfer 'dylunio da' o ran seilwaith ynni yn datgan y dylai cymhwyso dylunio da i brosiectau ynni gynhyrchu seilwaith sy'n gynaliadwy, yn ystyriol o le, ac yn effeithlon o ran defnyddio adnoddau naturiol a'r ynni a ddefnyddir wrth eu hadeiladu a'u gweithredu, ac y dylai eu golwg ddangos estheteg dda cyn belled ag y bo'n bosibl.<br><br>Mae paragraff 4.5.3 EN-1 yn mynnu bod ymgeiswyr yn ystyried ymarferoldeb ac estheteg (gan gynnwys ei gyfraniad at ansawdd yr ardal y byddai'n cael ei leoli ynddi) ac yn eu hannog i achub ar gyfleoedd i ddangos dylunio da o ran lleoli yn berthynol i gymeriad y dirwedd, y dirffurf a'r llystyfiant presennol. Mae paragraff 4.5.2 yn nodi bod dylunio da hefyd yn fodd o fodloni llawer o'r amcanion polisi yn yr NPS, fel sut gall lleoli a defnyddio technolegau priodol helpu i liniaru effeithiau niweidiol, er enghraifft sŵn.<br><br>Sut byddai'r Datblygiad Arfaethedig:<br>a) Yn cyflawni 'dylunio da' yn unol ag adran 4.5 NPS EN-1; ac<br>b) Yn cyd-fynd ag Egwyddorion Dylunio Da ar gyfer Seilwaith Cenedlaethol y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (Chwefror 2020)? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.3 | Yr Ymgeisydd | **Dylunio da – manylion**<br>Darparwch luniadau wrth raddfa (y gellid cyfeirio atynt fel cynlluniau tirwedd a dylunio amlinellol) sy’n dangos gosodiadau’r opsiynau a ffefrir a dyluniad tri dimensiwn yr OnSS i’r paramedrau mwyaf o fewn amlen Rochdale a’r gofynion ar gyfer dylunio a chynaliadwyedd a amlinellir yn y dDCO, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: yr adeiladau arfaethedig, offer trawsyrru trydanol allanol, ffyrdd, ardaloedd storio, triniaethau arwyneb, tirweddu, pyllau gwanhau, systemau draenio cynaliadwy a ffensys. | |
| 5.4 | Yr Ymgeisydd | **Hyrwyddwr dylunio**<br>A oes gennych hyrwyddwr dylunio yn eich sefydliad sydd wedi’i ddynodi i’r prosiect? Os felly, beth yw ei gymwysterau ar gyfer rôl o’r fath a beth yw ei safle hierarchaidd yn y prosiect? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.5 | Yr Ymgeisydd, DCC | **Panel adolygu dylunio**<br>Gwnewch sylwadau ar ddymunoldeb gweithredu panel adolygu dylunio i ddarparu sylwadau 'cyfaill beirniadol' gwybodus ar y cynigion sy'n datblygu er mwyn sicrhau bod yr OnSS arfaethedig yn cael ei dylunio'n gynaliadwy a'i hintegreiddio i'r dirwedd i safon dda yng nghamau dylunio manwl, adeiladu a gweithredu'r prosiect. Sut gallent gael eu sicrhau? | |
| 5.6 | Yr Ymgeisydd | **Canllaw Dylunio**<br>A ddylai Canllaw Dylunio / Cod Dylunio (neu rywbeth tebyg) gael ei ardystio a'i sicrhau yn y DCO i ddarparu'r sail i sicrhau y byddai safonau dylunio da yn cael eu bodloni ar ôl caniatâd? | |
| 5.7 | DCC | **Dylunio da**<br>A yw DCC yn fodlon bod ganddo ddigon o arbenigedd dylunio i sicrhau bod yr OnSS yn cael ei dylunio'n dda wrth gyflawni Gofyniad 6 y dDCO [AS-014]? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.8 | Yr Ymgeisydd | **Dewis inswleiddio ar gyfer yr is-orsaf**<br>**Choice of substation insulation**<br>Mae'r ES Cyfrol 8, Dogfen 8, Dogfen Egwyddorion Dylunio [APP-308] yn egluro y bydd dewis yn cael ei wneud ynglŷn ag offer switshis wedi'u Hinswleiddio ag Aer neu Nwy (AIS neu GIS) ar gyfer yr OnSS arfaethedig yn cael ei wneud ar y cam dylunio manwl, ar ôl caniatâd (os rhoddir caniatâd). Fodd bynnag, gall dewis AIS neu GIS wneud gwahaniaeth arwyddocaol i olwg a gweledolrwydd yr OnSS, ac mae llawer o geisiadau diweddar wedi amodi yn ystod y cam ymgeisio yr opsiwn arfaethedig a ddewiswyd yn rhan o'u hymrwymiad i ddylunio da. Gall hyn hefyd helpu'r holl bartïon â buddiant i gael syniad gwell o olwg debygol yr OnSS arfaethedig.<br><br>a) Rhowch gyfiawnhad pellach dros eich penderfyniad i beidio ag amodi'ch dewis o ddyluniad ar gyfer yr OnSS.<br>b) O safbwynt dylunio, aseswch y gwahaniaeth a manteision ac anfanteision cymharol yr OnSS fel is-orsaf AIS neu GIS, o ran graddfa a màs ond hefyd o ran effaith weledol gosodiad mwy agored neu amgaeëdig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.9 | Yr Ymgeisydd | **Dylunio da – gofyniad**<br>Mae is-adran (2) Gofyniad 6 y dDCO [AS-014] yn datgan bod rhaid i fanylion a gyflwynir o dan y gofyniad "gyd-fynd yn sylweddol â'r ddogfen egwyddorion dylunio a gyflwynwyd".<br><br>Beth yw ystyr "cyd-fynd yn sylweddol" yn y cyd-destun hwn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.10 | Yr Ymgeisydd, DCC | **Dylunio da – manylion**<br>Mae'r ExA yn croesawu cyflwyno [APP-308]. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod canllawiau dylunio ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth a gymeradwywyd yn ddiweddar, fel Norfolk Boreas, East Anglia One North ac East Anglia Two, yn cynnwys mwy o ofynion dylunio manwl a dogfennau ategol nag sydd i'w gweld wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Egwyddorion Dylunio. Mae dogfennau o'r fath yn cynnwys manylion fel:<br><br>• Nodweddion dangosol prosiect ar y tir<br>• Manylion cryno am ddethol safle, i ddangos sut oedd dylunio da wedi cyfrannu at broses o'r fath<br>• Egwyddorion ac argymhellion dylunio manwl<br>• Manylion blychau cyswllt arfaethedig<br>• Manylion tirweddu<br>• Swm, graddfa, gosodiad, golwg, mynediad, a goleuadau'r OnSS arfaethedig<br>• Manylion ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol â'r awdurdod cynhaliol<br>• Ffotograffau enghreifftiol o adeiladau amaethyddol yr ystyrir eu defnyddio mewn datrysiadau GIS neu adeiladau eraill y safle<br>• Adroddiad dylunio rhagarweiniol sy'n rhoi manylion yr ymagwedd at | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddylunio, deunyddiau arfaethedig, paletau lliwiau, cynllun parthau a gosodiad safle.<br><br>Rhowch eich barn ynglŷn â ph'un a ddylai gwybodaeth o'r fath gael ei darparu mewn Dogfen Egwyddorion Dylunio ddiwygiedig a ph'un a all gael ei darparu (ac os felly, erbyn pa derfyn amser y bydd y ddogfen yn cael ei darparu). | |
| 5.11 | Yr Ymgeisydd | **Dylunio da ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol**<br>A ddylai [APP-308] fod yn berthnasol i'r estyniad arfaethedig i is-orsaf y Grid Cenedlaethol? Os na, pam? | |
| **6. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)** | | | |
| Sylwer: Mae cwestiynau / sylwadau yn cyfeirio at dDCO Diwygiad E [AS-014] (glân) / [AS-015] (wedi'i olrhain) | | | |
| **Cyffredinol** | | | |
| 6.1 | Yr Ymgeisydd | Ychwanegwch rifau tudalennau i adlewyrchu'r dudalen gynnwys. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Yr Ymgeisydd | Tudalen dau, yr ail, trydydd a phedwerydd paragraffau – diwygiwch i adlewyrchu'r ffaith bod yr ExA yn Banel. | |
| 6.3 | Yr Ymgeisydd | Yr ail dudalen, pedwerydd paragraff:<br>a) Nid yw'r "cynlluniau tir categori arbennig" (SCLP) wedi'u diffinio yn Rhan 1, Erthygl 2 – cywirwch os gwelwch yn dda;<br>b) A ddylid cyfeirio at y "cynlluniau tir" yma o ystyried mai'r SCLP sy'n dangos tir categori arbennig?<br>c) Nid yw'r ymadrodd "caffael hawliau newydd parhaol" yn ymddangos yn yr SCLP ac mae amrywiad ohono'n ymddangos ar y cynlluniau tir – sicrhewch gysondeb o ran termau. | |
| 6.4 | Yr Ymgeisydd | Cyfeirir at y 'cynllun mynediad gwaith stryd' drwyddo draw. Fodd bynnag, teitl y cynllun yw'r 'cynllun gwaith stryd *a* mynediad'. Diwygiwch y dDCO i adlewyrchu hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.5 | Yr Ymgeisydd | Mae'r asesiadau yn yr ES yn tybio cyfnod gweithredol o 25 mlynedd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig cyn iddo gael ei ddatgomisiynu. Felly, a ddylai'r cyfnod hwn gael ei nodi'n benodol a'i sicrhau fel gofyniad yn y dDCO? Os na, a allai hyn ganiatáu i gyfnod gweithredu hwy ddigwydd a beth yw goblygiadau posibl hyn i asesiadau'r ES? | |
| 6.6 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi fynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau, a'u cywiro, yn ymwneud â theitlau dogfennau sydd i'w sicrhau yn y dDCO a/neu'r Drwydded Forol os oes angen. Er enghraifft, mae'r Egwyddorion Trwydded Forol [AS-023] yn cyfeirio at gynllun cyswllt a chydfodoli â physgodfeydd tra bod yr atodlen lliniaru [APP-310] yn cyfeirio at gynllun cyswllt â physgodfeydd. | |
| 6.7 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi egluro statws yr Atodlen Lliniaru [APP-310] a'r Atodlen Monitro [APP-311]. A ddylai'r rhain gael eu sicrhau yn y dDCO neu eu rhestru fel dogfennau sydd i'w hardystio? | |
| **Cwestiynau / sylwadau yn ymwneud ag Erthyglau (A):** | | | |
| 6.8 | Yr Ymgeisydd | A2, Dehongli – a oes angen cyfeirio at "Ddydd Gwener y Groglith" a "Dydd Nadolig" yn benodol o dan y term "diwrnod busnes" o ystyried y cyfeirir at wyliau banc? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.9 | Yr Ymgeisydd | A2 – Esboniwch ddibenion ‘ardal lliniaru dros dro’ fel y cyfeirir ati yn Atodlen 6, ac a ddylai hyn gael ei ddiffinio yn A2? | |
| 6.10 | Yr Ymgeisydd | A2 – “dechrau”<br>a) Eglurwch beth fyddai’n cael ei gynnwys mewn ‘gwaith paratoi safle ar y tir’.<br>b) Os caiff ‘gwaith paratoi safle ar y tir’ ei eithrio o’r term ‘dechrau’, a allai hyn arwain at oblygiadau i rywogaethau a warchodir neu archaeoleg os gallai hyn ddigwydd cyn bodloni / cyflawni Gofynion 12 a 14?<br>c) Mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2010 yn diffinio gweithrediadau o ddisgrifiad rhagnodedig nad ydynt yn dod o fewn y disgrifiad o’r term ‘gweithredu perthnasol’. Mae’r rheoliadau hyn yn cynnwys rhestr fwy helaeth o lawer o weithrediadau ar gyfer Cymru nag sy’n berthnasol i brosiectau yn Lloegr. Esboniwch oblygiadau a pherthnasedd hyn (os oes rhai). | |
| 6.11 | Yr Ymgeisydd | A3(2) – a fyddai unrhyw waith yn digwydd rhwng “MHWS” ac “MLWS” ac os felly, a oes angen diwygio’r erthygl hon i adlewyrchu hyn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.12 | Yr Ymgeisydd | A7 – Esboniwch a chyfiawnhewch raddau darpariaethau'r Erthygl hon. | |
| 6.13 | Yr Ymgeisydd | A10 – Esboniwch a chyfiawnhewch raddau darpariaethau is-adran (4) yr Erthygl hon. | |
| 6.14 | DCC | A yw'r awdurdod priffyrdd lleol yn fodlon â chynnwys darpariaethau Rhan 3 y dDCO? | |
| 6.15 | Yr Ymgeisydd | A16 - Esboniwch a chyfiawnhewch raddau darpariaethau'r Erthygl hon. | |
| 6.16 | Yr Ymgeisydd | A24 – A ddylai'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol i le awyr hefyd? | |
| 6.17 | Yr Ymgeisydd | A27 –<br>a) Mae'n ymddangos bod A27(8)(a) a (b) yn darparu ar gyfer CA hawliau dros dir / CA isbridd mewn perthynas â thir a amlygwyd ar gyfer TP yn unig (fel yr amlinellir yn Atodlen 6). A wnewch chi gyfiawnhau pwerau o'r fath ac egluro i ba raddau y mae unigolion yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn ymwybodol o hyn?<br>b) Mae'r Cynlluniau Tir yn nodi y byddai tir sy'n destun CA llwyr a CA hawliau yn destun TP hefyd. Ble y darperir ar gyfer hyn yn A27? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.18 | Yr Ymgeisydd | A31 -<br>a) A ddylai is-adran (2) gyfeirio hefyd at Erthygl 26, Hawliau o dan neu dros strydoedd?<br>b) Mae atalnod llawn ar goll yn is-adran (4). | |
| 6.19 | Yr Ymgeisydd, DCC | A34 –<br>a) A yw'n debygol y bydd effaith ar unrhyw goed sy'n destun gorchmynion cadw coed (TPOs)?<br>b) A ddylai'r erthygl hon ddarparu ar gyfer rhoi rhywfaint o rybudd i'r awdurdod cynllunio perthnasol cyn unrhyw waith ar goed sy'n destun TPO?<br>c) Mae A34(2) yn hepgor dyddiad ar gyfer pryd y gwnaed TPOs ar ei ôl. Esboniwch hefyd pam mae angen dyddiad o'r fath. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.20 | Yr Ymgeisydd | A40 –<br>a) A ddylai'r rhestr hon fod yn fwy helaeth o ystyried nad yw'n nodi'r holl gynlluniau a dogfennau a gyflwynwyd?<br>b) A yw'r cyfeiriad at "(dogfen rhif 6)" yn ddigonol i ddisgrifio'r datganiad amgylcheddol? Sut mae hyn yn adlewyrchu unrhyw ddogfennau ES diwygiedig?<br>c) Sicrhewch fod yr erthygl hon yn cael ei chadw'n gyfredol gydag unrhyw ddogfennau diwygiedig. Gallai Atodlen ar wahân yn y Gorchymyn drafft fod yn fwy priodol. Byddai dogfen o'r fath yn symlach i'w diweddaru â dyddiadau cyflwyno dogfennau diwygiedig, wedi'u haddasu a newydd a gyflwynir yn ystod yr Archwiliad. Gellid cyfeirio at yr Atodlen trwy'r Erthygl. | |
| 6.21 | Yr Ymgeisydd | A43 – Esboniwch a chyfiawnhewch raddau darpariaethau'r Erthygl hon. | |
| **Cwestiynau / sylwadau yn ymwneud â Gofynion:** | | | |
| 6.22 | Yr Ymgeisydd | R1 – Cyfiawnhewch yr angen am saith mlynedd ar gyfer dechrau (yn hytrach na phump). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.23 | Yr Ymgeisydd | R2, Tabl 3 – mae hwn yn nodi paramedrau mwyaf Senario Dylunio Mwyaf (MDS) A ac MDS B. O ystyried hyn:<br>a) A fyddai’n caniatáu ar gyfer adeiladu’r paramedrau mwyaf ar gyfer pob senario (e.e. 50 o dyrbinau ar uchder o 332 o fetrau)?<br>b) Yn lle hynny, a ddylai fod dau dabl gydag un yn nodi paramedrau mwyaf MDS A a’r llall yn nodi paramedrau mwyaf MDS B? | |
| 6.24 | Yr Ymgeisydd, NATS | R3 – O ystyried pryderon ynglŷn â darpariaethau goleuo, a allai is-adran ar wahân gael ei hychwanegu at y gofyniad hwn yn datgan y bydd goleuadau o’r fath yn cael eu gweithredu ar y lefel dwysedd golau leiaf a ganiateir? | |
| 6.25 | Yr Ymgeisydd | R5 –<br>a) Diwygiwch is-adran (1) i ddarllen ‘…ei gyflwyno i […] *a’i gymeradwyo ganddo*…’.<br>b) A wnewch chi gadarnhau a yw’r gofyniad hwn yn berthnasol i waith cyn dechrau a gwaith rhagarweiniol? | |
| 6.26 | Yr Ymgeisydd, DCC | R6 – a ddylid ychwanegu darpariaeth ar gyfer manylion ‘golwg’? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.27 | Yr Ymgeisydd | Mae R7 Tabl 4 yn nodi rhai o baramedrau mwyaf yr opsiynau OnSS GIS / AIS. O ystyried hyn:<br>a) A fyddai'n caniatáu ar gyfer adeiladu'r paramedrau mwyaf ar gyfer GIS / AIS (e.e. adeilad o uchder 49.975m AOD mewn cyfadeilad 50,000m$^2$ â ffens o'i amgylch)?<br>b) Yn lle hynny, a ddylai fod dau dabl gydag un yn nodi paramedrau mwyaf GIS a'r llall yn nodi paramedrau mwyaf AIS?<br>c) A ddylid nodi dimensiynau mwyaf eraill adeiladau / elfennau (e.e. 1 x adeilad GIS 50m o hyd x 15m o led x 15m o uchder, fel yr amlinellir yn ES Pennod 1: Disgrifiad o'r Prosiect ar y Tir [APP-062])?<br>ch) A ddylai 'AOD', 'm' ac 'm2' gael eu diffinio yn A2? | |
| 6.28 | Yr Ymgeisydd | R7(2) – dilëwch yr atalnod gwallus ar y diwedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.29 | Yr Ymgeisydd, DCC | R8 –<br>a) Newidiwch 'gynllun rheoli tirwedd ac ecolegol amlinellol' i 'gynllun rheoli tirwedd ac ecoleg amlinellol' i adlewyrchu enw cywir y ddogfen.<br>b) A ddylai'r gofyniad hwn ddarparu ar gyfer darparu cynllun yn ogystal â manylion ysgrifenedig?<br>c) A ddylai ddarparu ar gyfer cynllun cynnal a chadw?<br>ch) Mae'n ymddangos bod y gofyniad yn berthnasol i waith tirwedd o amgylch safle'r OnSS yn unig. A ddylai fod yn berthnasol i'r ECC hefyd?<br>d) Os yw'n ymwneud â'r OnSS yn unig, sut byddai manylion gwaith tirwedd (e.e. plannu gwrychoedd newydd) yn cael eu sicrhau ar gyfer yr ECC ehangach?<br>dd) Os yw'n ymwneud â'r OnSS yn unig, a ddylai ddarparu ar gyfer manylion pyllau dŵr arfaethedig hefyd? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.30 | Yr Ymgeisydd, DCC | R9 –<br>a) R9(1) – a ddylai hyn gyfeirio at y 'rhaglen waith gysylltiedig' a nodir yn R8 hefyd?<br>b) R9(2) – a yw 5 mlynedd yn ddigon o amser o ystyried bod yr ES yn asesu effeithiau (gan gynnwys effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol) ym Mlwyddyn 15? | |
| 6.31 | Yr Ymgeisydd | R10 – mae CNC wedi gofyn am fod yn ymgynghorai ynglŷn â'r gofyniad hwn [RR-015]. A yw'r Ymgeisydd yn fodlon darparu ar gyfer hyn? | |
| 6.32 | Yr Ymgeisydd | R12 –<br>a) a ddylai hyn ddarparu ar gyfer cyhoeddi canfyddiadau a data?<br>b) a ddylai hyn gyfeirio at y "cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar y tir"?<br>c) a yw'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar y tir a gyflwynwyd (sef 'WSI Ar y Tir') yn ddogfen amlinellol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.33 | Yr Ymgeisydd | R13 –<br>a) Newidiwch 'gynllun rheoli tirwedd ac ecolegol amlinellol' i 'gynllun rheoli tirwedd ac ecoleg amlinellol' i adlewyrchu enw cywir y ddogfen.<br>b) A yw'r gofyniad hwn yn ymwneud â rheoli yn unig neu fanylion plannu (e.e. gwrychoedd, glaswelltir, niferoedd, rhywogaethau, dwyseddau ac ati..) hefyd? | |
| 6.34 | Yr Ymgeisydd | R8, R9 ac R13 –<br>a) sut mae 'cynllun tirweddu ysgrifenedig a rhaglen waith gysylltiedig' yn unol â'r oLEMP yn R8 yn wahanol i 'gynllun rheoli tirwedd ac ecolegol ysgrifenedig' yn unol â'r oLEMP yn R13?<br>b) a allai R8, R9 ac R13 gael eu cyfuno i ffurfio gofyniad unigol? | |
| 6.35 | Yr Ymgeisydd | R14 – A ddylai hyn hefyd ymwneud â rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.36 | Yr Ymgeisydd | R15 –<br>a) Mae hyn yn cyfeirio at "7 a.m. a 7 p.m." tra bod Erthygl 4 yn cyfeirio at "2300-0700". Sicrhewch gysondeb wrth ddangos amserau.<br>b) Mae is-adran (2)(d) yn cyfeirio at "elfennau eraill o'r gwaith ar y tir y mae amser yn hollbwysig iddynt". Cynghorwch ba waith 'arall' nad yw wedi'i restru y byddai amser yn hollbwysig iddynt.<br>c) Is-adran (4) – A yw gwaith 24 awr ar gyfer technegau gosod di-ffos yn debygol? Os felly, ym mha leoliadau? | |
| 6.37 | Yr Ymgeisydd | R17 –<br>a) A ddylai'r gofyniad hwn fynnu bod manylion yn cael eu cyflwyno, gan fanylu ar y cyfryw fanylion, a nodi amseriad cyflwyno'r cyfryw fanylion (e.e. cyn i'r gwaith ddechrau)?<br>b) A ddylai hefyd nodi y dylai tir gael ei adfer i'r un ansawdd / cyflwr? | |
| 6.38 | Yr Ymgeisydd | R18(2)(a) – a ddylai'r Safon Brydeinig fod mewn dyfynodau fel yn R4? | |
| 6.39 | DCC | Mae R18 yn nodi lefelau sŵn yn ystod gweithredu'r OnSS. A ydych chi'n fodlon â manylion y gofyniad hwn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.40 | Yr Ymgeisydd | R20 –<br>a) a ddylai hwn fynnu bod manylion yn cael eu cymeradwyo gan yr SoS yn hytrach na chael eu cyflwyno i'r SoS ar gyfer cymeradwyaeth yn unig?<br>b) a oes arno angen cymal gweithredu?<br>c) a ddylai fod yn fwy rhagnodol o ran y manylion sydd i'w cynnwys yn y rhaglen ddatgomisiynu ysgrifenedig? | |
| 6.41 | Yr Ymgeisydd | R21 – A ddylai hwn nodi'r manylion sydd i'w cynnwys yn y cynllun datgomisiynu ysgrifenedig (e.e. yr adeiladau sydd i'w dymchwel, y dull o gael gwared â deunyddiau, gwaith adfer tir, amserlen ar gyfer gweithredu ac ati…) | |
| 6.42 | Yr Ymgeisydd | **Datgomisiynu**<br>Mae R21 (1) yn cyfeirio at gyflwyno'r cynllun datgomisiynu ysgrifenedig ar y tir i'r awdurdod cynllunio perthnasol a'i gymeradwyo ganddo o leiaf chwe mis cyn i'r gwaith ddechrau. Mewn cyferbyniad, mae R20 yn aros yn ddistaw mewn perthynas â graddfa amser.<br><br>Eglurwch pam nad oes angen cynnwys graddfa amser yn R20. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.43 | NATS, Yr Ymgeisydd | A oes angen gofyniad i sicrhau nad oes unrhyw eneradur tyrbin gwynt yn gweithredu cyn datrysiad cytunedig cynllun i warchod Radar Goruchwylio Great Dun Fell a St Anne? | |
| **Cwestiynau / sylwadau yn ymwneud ag Atodlenni (Sch)** | | | |
| 6.44 | Yr Ymgeisydd | Sch 1 – o dan “*Waith Rhif 3*” ac uwchben Tabl 1, mae cyfeiriad at “mae’r cyfesurynnau wedi’u dangos ar y cynllun gwaith ac wedi’u rhestru yn Nhabl 1”. Fodd bynnag, mae’n ymddangos bod y cyfesurynnau a restrir yn Nhabl 1 yn cael eu dangos ar y Cynllun Lleoliad yn hytrach na’r Cynllun Gwaith. A ddylai hwn gyfeirio at y Cynllun Lleoliad yn lle hynny, ac a ddylai’r cynllun hwn gael ei ddiffinio yn A2? | |
| 6.45 | Yr Ymgeisydd | Sch 3 – rhifau dalenni anghywir drwyddi draw – diwygiwch os gwelwch yn dda. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.46 | Yr Ymgeisydd | Sch 4 –<br>a) Y teitl yw 'Strydoedd a hawliau tramwy i'w cau neu eu cyfyngu dros dro'. Fodd bynnag, ni nodir unrhyw strydoedd – a ddylent gael eu nodi?<br>b) Rhifau dalenni anghywir drwyddi draw. Diwygiwch os gwelwch yn dda.<br>c) Nid yw Pwynt Ca yn ymwneud â Llwybr Troed DE/206/44 yn ymddangos ar y Cynllun cau hawliau tramwy cyhoeddus dros dro (TSUPRoW) [AS-009].<br>ch) Nid oes Pwyntiau Ba a Bb yn ymwneud â Llwybr Troed DE/206/23 ar y cynllun TSUPRoW – a ddylai hwn gyfeirio at Bwyntiau Fx ac Fy yn lle hynny?<br>d) Nid yw'n ymddangos bod llwybr troed DE/206/46 wedi'i labelu ar y cynllun TSUPRoW.<br>dd) Mae Pwyntiau Fx ac Fy yn ymwneud â Llwybr Troed DE/206/4 yn ymddangos yn anghyson â'r cynllun TSUPRoW.<br>e) Mae'n ymddangos bod dau lwybr troed DE/206/4 ar y cynllun TSUPRoW – un ar Ddalen 4 ac un ar Ddalen 7 – a yw hyn yn gywir?<br>f) A yw Pwyntiau Ix ac Iy yn ymwneud â Llwybr Ceffylau DE/201/9 yn gywir? Mae'r cynllun TSUPRoW yn nodi fel arall (Kx a Ky).<br>ff) Ai'r un llwybr yw Ffordd Geffylau DE/201/9 a Llwybr Troed DE/201/9? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | g) Nid yw Llwybr Troed DE/105/7 wedi'i labelu ar y cynllun TSUPRoW.<br>ng) Eglurwch b'un a yw Pwynt Ly wedi'i ddangos yn gywir ar y cynllun TSUPRoW. | |
| 6.47 | Yr Ymgeisydd | Sch 5 – rhifau dalenni anghywir drwyddi draw – diwygiwch os gwelwch yn dda. | |
| 6.48 | Yr Ymgeisydd | Sch 10 – a ddylai hyn gyfeirio at y Cynllun Gwrychoedd a Choed a Warchodir, ac a ddylai'r cynllun hwn gael ei ddiffinio yn A2? | |
| 6.49 | Yr Ymgeisydd | Sch 11 – newidiwch y camsillafiad Saesneg 'specifed' yn y teitl i 'specified'. | |
| 6.50 | Yr Ymgeisydd | Sch 12 2(1) – a ddylai hyn gyfeirio at "benwythnosau *a* gwyliau banc"? | |
| **Questions / comments relating to Explanatory Memorandum (EM)** | | | |
| 6.51 | Yr Ymgeisydd | Adran 3.5.10 (Erthygl 27) – mae hyn yn cyfeirio at baragraff (1)(a)(iii) A27. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod A27 yn cynnwys paragraff o'r fath. Mae hefyd yn cyfeirio at baragraff (1)(d) A27. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y disgrifiad EM yn adlewyrchu A27(1)(d) y dDCO. Gwiriwch a chynghorwch, os gwelwch yn dda. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.52 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi esbonio sut bydd yr ymrwymiad i gynnal arolwg cyn adeiladu y tu hwnt i'r OL yn cael ei gyflawni a'i sicrhau? Er enghraifft, yr holl gyrsiau dŵr o fewn neu'n union gerllaw'r OL (250 m i fyny'r afon/ i lawr yr afon o'r OL) (Tabl 1: Arolygon Cyn Adeiladu, Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol) [APP-305], [APP-047], gallai trin angorau a defnyddio angorau fod yn ofynnol y tu allan i Derfynau'r Gorchymyn). | |
| 6.53 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi gadarnhau'r mesur rheoli yn y dDCO i sicrhau yn achos seilbyst unigol, y bydd gwaith gosod seilbyst yn digwydd mewn un lleoliad ar y tro yn unig ac na fydd seilbyst yn cael eu gosod ar yr un pryd neu'n gyfamserol, ac yn achos sylfeini siaced aml-goes ar seiliau pin, y gallai seiliau pin gael eu gosod yn gyfamserol, ond dim ond ar goesau cyfagos o'r un sylfaen siaced heb osod seilbyst ar yr un pryd neu'n gyfamserol mewn dau leoliad sylfeini ar wahân. (Paragraff 71, Disgrifiad o'r Prosiect Alltraeth [APP-047]). | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.54 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi esbonio a disgrifio'r mesur rheoli yn y DCO i atal MDS o 5,000kJ ynni morthwyl ar gyfer seilbyst unigol a 3,000kJ ar gyfer seiliau pin rhag cael ei dorri yn ystod y cam adeiladu o ystyried bod mesurau o'r fath wedi'u hamlygu yn ES Cyfrol 4, Atodiad 7.2 [APP-107]? | |
| 6.55 | Yr Ymgeisydd | A wnewch chi esbonio a disgrifio'r mesur rheoli yn y dDCO ar gyfer technoleg gosod seilbyst trwy ddirgryniad wrth y lanfa yn ystod cyfnod y gaeaf (mis Hydref i fis Mawrth) o ystyried bod mesur lliniaru rhagarweiniol o'r fath ar gyfer adar nad ydynt yn bridio wedi'i amlygu yn ES Cyfrol 3, Pennod 13, Tabl 5 [APP-074]. | |
| **7.** | **Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr** | | |
| 7.1 | Envirowatch.EU | **Cyrff Dŵr**<br>Darparwch wybodaeth ychwanegol ynglŷn â phryderon mewn perthynas â chyrff dŵr, fel y manylir yn eich sylw perthnasol [RR-034]. Lle y bo'n berthnasol, darparwch gynllun sy'n dangos lleoliad(au) y cyrff dŵr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2 | CNC | **Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru**<br>Darparwch gopi o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2021-2027 wedi'i ddiweddaru, fel y manylir yn eich sylw perthnasol [RR-015]. | |
| 7.3 | CNC | **Rhyng-berthnasoedd**<br>Yn dilyn eich sylw perthnasol [RR-015], esboniwch ba ryng-berthnasoedd rhwng ansawdd gwaddodion a dŵr morol a derbynyddion eraill yr ystyriwch eu bod wedi cael eu hanwybyddu, yn ogystal â chyfrifon bacteriol uwch ac iechyd dynol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.4 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn anghytuno â’r casgliadau a wnaed mewn perthynas â halogyddion sydd ynghlwm wrth waddodion, ac mae angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi’r casgliad. Yn ogystal, pan fydd data ar gael, mae CNC yn gofyn i’r Ymgeisydd adrodd ar yr holl ddata yng nghyd-destun Lefelau Gweithredu Canolfan Gwyddorau’r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas). Pan fydd y wybodaeth uchod wedi cael ei diweddaru a’i darparu, mae CNC yn cynghori bod y RIAA yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r wybodaeth newydd hon. Rhowch ymateb ynglŷn â’r materion hyn. | |
| 7.5 | Yr Ymgeisydd | **Asesiadau Ffytoplancton ac Ocsigen Tawdd**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn anghytuno â’r dull o asesu effeithiau ar ffytoplancton ac ocsigen tawdd ac yn anghytuno â’r casgliadau. Rhowch ymateb ynglŷn â’r materion hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.6 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – Claerder Dŵr**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn anghytuno â chasgliadau'r asesiad cydymffurfio mewn perthynas â chlaerder dŵr. Rhowch ymateb ynglŷn â'r mater hwn. | |
| 7.7 | Yr Ymgeisydd | **Technegau Di-ffos a Datganiad Dulliau Adeiladu amlinellol (oCMS)**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn gofyn i unrhyw dechnegau di-ffos a ddefnyddir fod yn ddigon dwfn i osgoi'r morfa heli ac amlygu ceblau cyn lleied â phosibl, a bod pyllau mynediad a gadael priodol yn cael eu nodi. Gofynnir i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr oCMS. Rhowch ymateb ynglŷn â'r materion hyn. | |
| 7.8 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Defnyddiwyd Canllawiau Ansawdd Gwaddodion Morol Canada i sefydlu lefelau effaith trothwy ar gyfer hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAH) o fewn y gwaddod yn ES Cyfrol 2, Pennod 3 [APP-049]. Nid oes gan bedwar PAH a gofnodwyd yn y llinell sylfaen drothwyon a ddiffiniwyd yng Nghanllawiau Canada. Esboniwch ba drothwy amgen a ddefnyddiwyd i gyd-destunoli'r halogyddion hyn neu, fel arall, esboniwch pam nad oes angen trothwy. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.9 | CNC | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Eglurwch y sylwadau a wnaed yn eich sylw perthnasol [RR-015] ynglŷn â’r angen am wybodaeth ac adroddiadau ychwanegol mewn perthynas â Lefelau Gweithredu Cefas. Pa wybodaeth ychwanegol sy’n ofynnol y tu hwnt i’r wybodaeth a gyflwynwyd [APP-049], Tablau 10 a 12? | |
| 7.10 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Mae [APP-049] yn cynnwys asesiad o’r effeithiau ar ansawdd gwaddodion a dŵr morol yn ystod datgomisiynu’r Datblygiad Arfaethedig. Eglurwch a oes posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol tebygol yn sgil dirywiad ansawdd dŵr o ganlyniad i ryddhau halogyddion sydd ynghlwm wrth waddodion a gollwng deunyddiau neu gemegion yn ddamweiniol yn ystod y cam datgomisiynu, yn y senario dylunio mwyaf, h.y. gan symud yr holl seilwaith ymaith. Nodir bod y llwybrau effaith hyn wedi cael eu hasesu ar gyfer y cam adeiladu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.11 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Eglurwch y gwahaniaethau rhwng y disgrifiad o'r senario dylunio mwyaf (MDS) ar gyfer asesu effeithiau ansawdd dŵr morol a gwaddodion yn [APP-049] yn berthynol i'r MDS a ddisgrifiwyd yn ES Cyfrol 1, Pennod 2 [APP-048] ac esboniwch unrhyw oblygiadau i'r asesiad:<br>a) Cyfaint mwyaf y gwaddodion a aflonyddir ac a ryddheir o'r holl ddeilliadau drilio yn sgil gosod sylfeini ar gyfer y generaduron tyrbin gwynt (WTGs), y dywedir ei fod yn 270,161 $m^3$ (50 WTG llai o faint gyda 60% o'r lleoliadau angen drilio) yn ES Cyfrol 2, Pennod 3, Tabl 15 ond sy'n cael ei ddangos fel 276,862 $m^3$ (34 WTG mwy o faint gyda 100% o'r lleoliadau angen drilio) yn ES Cyfrol 2, Pennod 1, Tabl 9; a'r<br>b) Ymagwedd at geblau claddedig, deunyddiau i atal erydu ac amddiffyn ceblau yn ystod datgomisiynu, a ph'un a fyddai'r cydrannau hyn yn cael eu gadael yn y fan a'r lle (fel y dywedir yn [APP-049]) neu eu symud ymaith (fel y dywedir yn ES Cyfrol 2, Pennod 1 [APP-047] ac adran 3.12.1 [APP-049]). Nodir ym mhob achos, cyfeirir at ymgynghori ychwanegol ar yr adeg datgomisiynu i bennu'r ymagwedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.12 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion** Mae Tabl 17 [APP-049] yn rhestru sawl prosiect fel bod yn weithredol neu ar waith. Rhoddwyd statws 'Haen 1' i'r prosiectau hyn. Esboniwch pam y cynhwyswyd y prosiectau hyn yn yr asesiad o effeithiau cronnol ac nid y llinell sylfaen ar gyfer yr asesiad. Nodir, er enghraifft, bod y ffermydd gwynt alltraeth gweithredol a amlygir yn Nhabl 17 wedi cael eu cynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer asesu prosesau ffisegol morol yn [APP-048]. | |
| 7.13 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion** Esboniwch pam mae ES Cyfrol 1, Atodiad 3.1 [APP-094] yn hepgor ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig o'r asesiad o effeithiau cronnol ansawdd dŵr morol a gwaddodion yn [APP-049], er bod nifer o'r rhain wedi'u cynnwys yn yr asesiad o brosesau ffisegol morol yn [APP-048]. Nodir bod ceisiadau cwmpasu wedi cael eu cyflwyno mewn perthynas â nifer o'r prosiectau hyn yn ystod yr haf 2022. Gofynnir i'r Ymgeisydd wneud sylwadau ar b'un a yw hyn yn effeithio ar yr haen y mae'r prosiect yn cael ei gategoreiddio ynddi, yn unol â Thabl 4.4 yn ES Cyfrol 1, Atodiad 3.1 [APP-042] a gwneud sylwadau ar y potensial ar gyfer effeithiau cronnol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.14 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Mae paragraff 159 [APP-049] yn datgan y gallai defnyddio argaeau coffr leihau effeithiau rhyddhau mwd drilio (bentonit) o niweidiol bach i niweidiol dibwys. Eglurwch b’un a fwriedir gweithredu’r mesur gan nad yw’n ymddangos bod cyfeiriad ato yn yr Atodlen Lliniaru [APP-310]. | |
| 7.15 | Yr Ymgeisydd | **Ansawdd Dŵr Morol a Gwaddodion**<br>Bwriedir gwneud gwaith monitro geoffisegol ar draws ardal y gwaith adeiladu alltraeth i bennu effeithiolrwydd claddu ac amddiffyn ceblau, fel y nodir yn yr Atodlen Monitro [APP-311]. A allai’r Ymgeisydd esbonio p’un a gynhaliwyd unrhyw drafodaeth gyda CNC ynglŷn â’r lleoliadau monitro disgwyliedig, amlder a’r trothwyon mesuradwy tebygol ar gyfer camau unioni, a chadarnhau sut byddai’r gwaith monitro ac unrhyw gamau unioni yn cael eu sicrhau trwy’r DCO, o ystyried ei fod wedi’i gynnig fel amod i’r Drwydded Forol/Trwyddedau Morol arfaethedig? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.16 | Yr Ymgeisydd | **Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP)**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn datgan nad ydynt yn cydsynio i gais yr Ymgeisydd am ddatgymhwyso'r FRAP. Mae CNC o'r farn y dylai cais FRAP gael ei wneud ar gyfer pob prif groesfan afon (ac amddiffynfeydd rhag llifogydd cysylltiedig) yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 (EPR 2016). Rhowch ymateb ynglŷn â'r mater hwn. | |
| 7.17 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA)**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn datgan na ddylai mapiau Asesiad Risg Llifogydd Cymru gael eu defnyddio at ddibenion cynllunio. Yn lle hynny, mae CNC yn cynghori bod y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) yn cynrychioli gwybodaeth fwy cyfredol ar gyfer asesu perygl llifogydd. A wnewch chi gadarnhau a fwriedir defnyddio'r FMfP. Os na, rhowch resymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.18 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA)**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn datgan bod gwaith ym Mharth Llifogydd C2 nad yw wedi’i asesu yn yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd ac y dylai gwaith o’r fath fod yn destun FRAP benodol.<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) P’un a yw gwaith o’r fath wedi cael ei hepgor o’r FCA?<br>b) Os hepgorwyd gwaith, rhowch resymau a chadarnhewch b’un a oes angen i waith o’r fath gael ei gynnwys; ac<br>c) A fwriedir cyflwyno FRAP benodol? Os na, rhowch resymau. | |
| 7.19 | DCC | **Asesiad Canlyniadau Llifogydd – Coridor Cebl Allforio Ar y Tir ac Is-orsaf Ar y Tir**<br>A ydych chi’n fodlon â’r dull a’r casgliadau fel y’u manylir yn y ddau FCA ([APP-137] ac [APP-138])? Os na, manylwch ar unrhyw faterion sy’n achos pryder. | |
| 7.20 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol (oPPEIRP)**<br>Yn eu sylw perthnasol [RR-015], mae CNC yn gofyn i fân ddiwygiadau gael eu gwneud i’r oPPEIRP i gryfhau’r fersiwn derfynol. A wnewch chi gadarnhau p’un a fwriedir gwneud diwygiadau o’r fath? Os na, rhowch resymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.21 | Yr Ymgeisydd | **Atodlen Lliniaru**<br>Adolygwch res 12 ar drydanol ar dudalen 8 [APP-310] a chwblhewch y wybodaeth sydd ar goll. Cyflwynwch fersiwn wedi'i diweddaru o [APP-310] erbyn Terfyn Amser 1. | |
| 7.22 | Yr Ymgeisydd | **Lwfansau Newid Hinsawdd**<br>Nid yw'r naill FCA na'r llall yn defnyddio'r lwfansau newid hinsawdd mwyaf diweddar i adlewyrchu Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18) fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru.<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) P'un a yw'r lwfansau newid hinsawdd wedi'u diweddaru yn debygol o effeithio ar y casgliadau ynglŷn â bregusrwydd yr is-orsaf i lifogydd; ac<br>b) O ystyried y wybodaeth fwyaf cyfredol, p'un a oes angen diwygio'r cynigion ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SuDS)?<br>Yn ogystal, nid oes cyfeiriad at ganllawiau 2021 CNC (Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru) sy'n ystyried rhagolygon hinsawdd diweddaraf UKCIP. Esboniwch pam nad oes angen cyfeirio at y ddogfen hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yr Ymgeisydd | **Parthau Perygl Llifogydd**<br>Mae [APP-137] yn asesu'r effeithiau ar rannau o'r llwybr ceblau ar y tir o fewn Parth Llifogydd C1 yn unig. Fodd bynnag, mae Ffigur 2 ac adran 201 [APP-137] hefyd yn cyfeirio at rannau o'r llwybr ceblau sy'n croesi Parthau Llifogydd B ac C2. Nodir mai'r rhan o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn Parth Llifogydd C2 yw Gwaith Rhif 41 (ffordd gludo), a'r achos gwaethaf yw y gallai fod angen iddi aros ar waith drwy gydol cyfnod adeiladu'r llwybr ceblau. Fel y cyfryw, ymhelaethwch ar y rhesymau pam nad yw [APP-137] yn asesu gwaith ym Mharth Llifogydd C2. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.23 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd Dwyrain y Rhyl**<br>Mae paragraff 68 ES Cyfrol 3 Pennod 1 [APP-062] yn datgan y bydd giât amddiffyn rhag llifogydd a rhan o arglawdd yn cael eu symud ymaith dros dro i alluogi mynediad. Mae'r paragraff hwn hefyd yn datgan y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl i DCC gwblhau cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd Dwyrain y Rhyl ac na fydd y giât amddiffyn rhag llifogydd hon yn ffurfio rhan o'r amddiffynfeydd môr mwyach. Eglurwch gynnydd gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd Dwyrain y Rhyl a ph'un a fydd wedi'i gwblhau cyn y bydd angen y gwaith dros dro. | |
| 7.24 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae Ffigur 1.1 [APP-138] yn nodi bod corff dŵr i'r gorllewin o leoliad yr is-orsaf arfaethedig ym Melin Felyn y Gors, ond ni chyfeirir at hyn yn yr FCA. Eglurwch pam yr hepgorwyd hyn o'r asesiad. | |
| 7.25 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae Ffigur 1.1 Atodiad 1 yn [APP-138] yn darlunio ardal llinell goch fwy/gwahanol nag yr ystyriwyd ym mhrif adroddiad FCA yr is-orsaf. Esboniwch pam mae'r ardaloedd llinell goch yn wahanol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.26 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae Adran 1.2 [APP-138] yn disgrifio rhaglen adeiladu 2.5 mlynedd ac oes amcangyfrifedig o 40 mlynedd ar gyfer yr is-orsaf. Mae hyn yn wahanol i’r graddfeydd amser a roddwyd yn yr ES, sef tair blynedd o ddechrau i weithredu ac oes weithredol 25 mlynedd. Eglurwch os gwelwch yn dda. | |
| 7.27 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau Cronnol**<br>Mae Adran 7.13 [APP-068] yn trafod yr asesiad o effeithiau cronnol. Fodd bynnag, nid yw Tabl 7 [APP-074] yn cyfeirio at effeithiau cronnol. Diweddarwch a darparwch fersiwn ddiwygiedig o [APP-074] erbyn Terfyn Amser 1. | |
| 7.28 | DCC | **Cydsyniad Cwrs Dŵr Cyffredin**<br>Yn [APP-037], mae’r Ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn ceisio datgymhwyso Deddf Draenio Tir 1991 gan fod y dDCO yn darparu ar gyfer gwneud gwaith ar Gyrsiau Dŵr Cyffredin a bod y wybodaeth ofynnol wedi cael ei darparu yn yr ES a dogfennau cysylltiedig, fel y CoCP. A ydych chi’n fodlon â’r dull hwn? Os na, ymhelaethwch ar eich rhesymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.29 | Yr Ymgeisydd | **Lleoliad Croesfannau Cyrsiau Dŵr ar yr ECC Ar y Tir**<br>Darparwch fersiwn fanylach o Ffigur 3 [APP-094] i nodi lleoliad cyrsiau dŵr unigol a chroesfannau cysylltiedig yn llawn. | |
| 7.30 | Yr Ymgeisydd | **Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (EPR) 2016**<br>Mae Adran 100 [APP-094] yn datgan "*Byddai angen cydsyniad ar gyfer y gwaith…sy'n effeithio ar y strwythurau amddiffynfeydd môr, prif afonydd, afonydd nad ydynt yn brif afonydd a chyrsiau dŵr cyffredin yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016*". Fodd bynnag, mae [APP-310] (rhes 4, trydanol, tudalen 8) yn cadarnhau y bydd yr EPR yn cael eu datgymhwyso. Eglurwch yr anghysondeb hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.31 | CNC, DCC | **Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol**<br>A ydych chi'n fodlon y byddai'r mesurau a gynhwysir yn [APP-312] a chynlluniau amgylcheddol amlinellol cysylltiedig yn ddigonol i reoli'r isod yn effeithiol yn ystod adeiladu:<br>a) Dŵr ffo afloyw i afonydd;<br>b) Gollyngiadau damweiniol; a<br>c) Dŵr ffo o HDD<br>Os na, ymhelaethwch ar eich rhesymau a rhowch fanylion mesurau lliniaru ychwanegol sy'n ofynnol. | |
| 7.32 | Yr Ymgeisydd | **Mesurau Lliniaru Dynodiad Hydromorffolegol**<br>Mae paragraff 138 [APP-094] yn datgan y gallai mesurau lliniaru 2019 fod wedi newid ers y diweddariad diwethaf. A wnewch chi gadarnhau p'un a yw'r mesurau wedi cael eu diweddaru. Os felly, a yw hyn yn effeithio ar yr asesiad? | |
| 7.33 | DCC | **Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd**<br>Mae paragraff 93 [APP-068] yn datgan bod cynlluniau gwella amddiffynfeydd arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn yn cael eu hymchwilio a'u gweithredu gan DCC. Cadarnhewch gynnydd o ran cynlluniau o'r fath, gan gynnwys Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.34 | Yr Ymgeisydd | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**<br>Mae Is-adran (1) R16 y dDCO [AS-014] yn datgan bod rhaid i’r cynllun draenio dŵr wyneb a dŵr budr “*gyd-fynd yn sylweddol â’r egwyddorion a nodir yn y strategaeth ddraenio amlinellol”*. A wnewch chi gadarnhau beth yw ystyr “*cyd-fynd yn sylweddol*” yn y cyd-destun hwn? | |
| 7.35 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Diweddarwyd y PPG ar Berygl Llifogydd a Newid Arfordirol ar 25 Awst 2022. Mae'r newidiadau yn adnewyddiad sylweddol i'r canllawiau ac yn dod â'r PPG yn gyfredol ac yn unol â'r sefyllfa bolisi diweddaraf ar berygl llifogydd a gyflwynwyd yn y diweddariadau i'r NPPF yn 2018 a 2021.  Cofiwch gynghori a yw'r diweddariad yn effeithio ar yr asesiad a gynhaliwyd. | |
| **8.** | **Yr Amgylchedd Hanesyddol** | | |
| 8.1 | Yr Ymgeisydd | **Archaeoleg Alltraeth**<br>Mae paragraff 45 ES Cyfrol 2 Pennod 11 Archaeoleg Alltraeth [APP-057] yn wag. A wnewch chi gadarnhau p’un ai gwall argraffyddol yw hyn neu a oes paragraff ar goll. Yn achos yr ail, cyflenwch y testun perthnasol os gwelwch yn dda. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.2 | Yr Ymgeisydd | **Data arolwg**<br>Ymhelaethwch ar y dull a ddefnyddiwyd wrth ddelio â'r diffyg rhannol o ddata arolwg geoffisegol ar gyfer yr ardal ryng-gysylltiad arfaethedig rhwng AyM a GyM (mae paragraffau 51 a 11.10.4 [APP-057] yn ystyried hyn). | |
| 8.3 | Cadw, Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd, DCC | **Archaeoleg Alltraeth**<br>Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r ymagwedd at archaeoleg alltraeth fel yr amlinellir yn [APP-057] a ph'un a ymgynghorwyd â chi (neu y byddech yn disgwyl hynny) ynglŷn â'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig (WSI) alltraeth drafft. | |
| 8.4 | Yr Ymgeisydd | **Archaeoleg – torri ffosydd treialu**<br>Mae ES Cyfrol 3 Pennod 8 [APP-069] yn datgan y ceisiwyd torri ffosydd treialu targedig i ddarparu gwybodaeth wirioneddol am y tir rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022, ond nad oedd hyn yn bosibl o ganlyniad i dywydd gwael ac amodau tir gwael, ac y cytunwyd gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys (CPAT) y gallai hyn gael ei wneud ar ôl cael caniatâd (pe byddai caniatâd yn cael ei roi). Esboniwch pam na cheisiwyd torri ffosydd ar adegau gwahanol o'r flwyddyn pan oedd y tywydd yn debygol o fod yn fwy ffafriol i wneud hynny. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.5 | Yr Ymgeisydd | **Archaeoleg – torri ffosydd treialu**<br>Mae [APP-069] yn cydnabod bod un prif faes ansicrwydd yn y Bennod yn ymwneud â natur y llinell sylfaen archaeolegol, sy'n deillio'n bennaf o astudiaethau desg. Ar y cyd â'r diffyg torri ffosydd treialu targedig, meintiolwch unrhyw risg a allai godi yn sgil darganfod asedau archaeolegol yn ystod y gwaith adeiladu (os rhoddir caniatâd). A oes cyfle i ficroleoli er mwyn osgoi unrhyw asedau o'r fath yn yr ECC arfaethedig (a'r OnSS)? | |
| 8.6 | Yr Ymgeisydd | **Archaeoleg – lliniaru**<br>Mae [APP-069] yn nodi bod Cyngor Sir Ddinbych yn datgan y byddai ymchwilio a chofnodi archaeolegol yn lliniaru colli buddiant archaeolegol yn rhannol ac y byddai'n llai ffafriol na gwarchod ased hanesyddol yn y fan a'r lle. A fyddai torri ffosydd treialu cyn rhoi caniatâd yn cynnig cyfle i gyflawni'r olaf, efallai na fyddai'n bosibl ar ôl rhoi caniatâd (pe byddai caniatâd yn cael ei roi)? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.7 | Yr Ymgeisydd, DCC | **Asedau hanesyddol blaendraeth**<br>Mae paragraff 142 [APP-069] yn ymwneud ag asedau hanesyddol blaendraeth ac yn datgan y byddai effaith niweidiol fawr i gymedrol yn digwydd cyn mesurau lliniaru. Yn dilyn y mesurau lliniaru arfaethedig, sef 'gwarchod trwy gofnodi', dywedir y byddai'r risg hon yn lleihau i effaith niweidiol fach. Mae Cyngor Sir Ddinbych (tudalen 141) yn nodi bod ymchwilio a chofnodi archaeolegol yn fesur lliniaru rhannol.<br><br>I'r Ymgeisydd: Rhowch gyfiawnhad ychwanegol dros y gostyngiad hwn o ran effaith ar gyfer Aflonyddu ar asedau hanesyddol ac archaeolegol neu eu colli yn ystod adeiladu – Asedau blaendraeth.<br><br>I DCC: A ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd yn hyn o beth? | |
| 8.8 | Yr Ymgeisydd | **Data arolwg**<br>Mae [APP-069] yn datgan bod Arolwg Geoffisegol wedi cael ei gynnal ar gyfer 95.4% o'r llwybr ceblau arfaethedig. A oes unrhyw gynlluniau i arolygu'r 4.6% sy'n weddill yn ystod cyfnod yr archwiliad? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.9 | Yr Ymgeisydd | **Treftadaeth Hanesyddol – Polisi**<br>Mae [APP-069] yn cynnwys crynodeb o ddarpariaethau allweddol NPS EN-1 (Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni) ac EN-1 drafft (Medi 2021).<br><br>Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad at EN-1 (tudalen 20) o ran 'niwed i asedau treftadaeth dynodedig o faint llai na sylweddol' wedi dod o EN-1. At hynny, mae'n ymddangos bod crynodeb EN-1 Drafft yn ailadrodd yr un testun (tudalen 24) ac eto mae EN-1 drafft fel petai'n cynnwys llawer mwy o wybodaeth am faterion niwed llai na sylweddol i asedau treftadaeth nag EN-1.<br><br>A wnewch chi:<br>a) Gyfiawnhau'r uchod, neu ddarparu fersiwn ddiwygiedig o [APP-069]<br>b) Asesu pa asedau treftadaeth rydych o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed llai na sylweddol iddynt, a pham. Er enghraifft, a fyddai hyn yn cynnwys yr holl asedau treftadaeth yr amlygwyd rhyw lefel o niwed iddynt (o niweidiol dibwys i gymedrol)? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.10 | Yr Ymgeisydd | **Treftadaeth Hanesyddol – Polisi**<br>Mae Tabl 3 [APP-069] yn disgrifio pwysigrwydd derbynyddion treftadaeth. Rhowch gyfiawnhad ychwanegol ynglŷn â pham mae tirweddau hanesyddol arbennig dynodedig o ddiddordeb hanesyddol arbennig (gan gynnwys parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig Gradd II) yn dod o fewn y categori Arwyddocâd Treftadaeth 'Canolig', yn hytrach nag 'Uchel'. | |
| 8.11 | Yr Ymgeisydd | **Eglwys y Santes Fererid (yr Eglwys Farmor), Llanelwy**<br>Yn ystod eu Hymweliad Safle Digwmni 2 (USI2) [EV-003, EV-004], nododd yr ExA fod Eglwys restredig Gradd II* y Santes Fererid yn Llanelwy yn amlwg yn y dirwedd leol. Roedd yn ymddangos bod yr ased treftadaeth hwn wedi'i leoli'n gymharol agos i'r ECC arfaethedig a'r OnSS ac yn ymddangos mewn golygfeydd amrywiol o'u hamgylch. Nid oes asesiad o'r Eglwys ac unrhyw effeithiau arni yn [APP-069].<br><br>Rhowch gyfiawnhad ar gyfer yr uchod, neu asesiad o effeithiau ar yr ased treftadaeth dynodedig hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.12 | Yr Ymgeisydd | **Castell Bodelwyddan**<br>Mae paragraffau 192 a 193 [APP-069] yn ystyried effaith yr OnSS wedi'i hadeiladu ar Gastell Bodelwyddan. Sylwodd yr ExA yn ystod eu USI1 [EV-001], [EV-002] ar agosrwydd yr OnSS arfaethedig i waliau terfyn ystad y Castell.<br><br>Fodd bynnag, mae'r cyfiawnhad ar gyfer yr effaith niweidiol a ganfuwyd ym mharagraffau 192 a 193 yn ymddangos yn gyfyngedig iawn, ac nid yw'n glir p'un a asesir yr effaith ar Barc a Gardd Cofrestredig rhestredig Gradd II Castell Bodelwyddan yn ystod gweithredu'r OnSS. Rhowch eich barn am yr arsylwad hwn a darparwch asesiad ychwanegol os oes angen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.13 | Yr Ymgeisydd | **Castell Penrhyn**<br>Mae paragraffau 206 i 215 [APP-069] yn ystyried effaith yr aráe arfaethedig ar Gastell Penrhyn rhestredig Gradd I. Sylwodd yr ExA yn ystod eu USI1 [EV-001], [EV-002] ar y golygfeydd helaeth o deras y Castell (ac o amryw fannau o fewn y Parc a Gardd rhestredig Gradd II*) a bod golygfeydd o'r fath yn cynnwys golygfeydd pellgyrhaeddol wedi'u fframio'n dda allan i'r môr.<br><br>Nodir hefyd bod y rhestriad ar gyfer y Parc yn disgrifio'r lleoliad a pherthynas y Castell â'r parc a'r dirwedd amgylchynol fel bod yn eithriadol, ac yn nodi bod y golygfeydd gorau wrth y fynedfa i'r Castell ac o'r teras 'barbican' ar ochr ddwyreiniol yr eiddo. Mae'r ddelwedd a gyflwynwyd [APP-246] yn dangos sut byddai'r aráe arfaethedig yn cael ei gweld o'r teras hwn. Mae'r ES yn disgrifio golygfeydd o'r fath fel 'cipolygon'. Mynegodd Cadw [RR-028] a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol [RR-029] bryderon hefyd ynglŷn ag effaith y cynnig ar y Castell a'i Barc a Gardd.<br><br>Rhowch gyfiawnhad ychwanegol i'ch barn y byddai effaith y Datblygiad Arfaethedig ar Gastell Penrhyn a'i barc a gardd cofrestredig yn ddibwys, o ystyried yr uchod. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.14 | Yr Ymgeisydd | **Ynys Seiriol**<br>Mae paragraffau 236 i 240 [APP-069] yn ystyried effaith yr aráe arfaethedig ar heneb gofrestredig Tŵr ac Olion Eglwys ac Anheddiad Mynachaidd ar Ynys Seiriol ac Olion rhestredig Gradd I anheddiad mynachaidd, gan gynnwys tŵr a waliau.<br><br>Mae’r testun yn nodi “Mae’n eithaf posibl bod y lleoliad hwn wedi cael ei ddewis yn fwriadol ar gyfer yr anheddiad mynachaidd oherwydd yr ymdeimlad hwn o arwahanrwydd a bod wedi’i ddatgysylltu’n ffisegol o’r byd, felly mae’r lleoliad morwrol ehangach ac, yn arbennig, y dyfroedd sy’n gwahanu’r Ynys oddi wrth yr arfordir ym Mhenmon yn cyfrannu at ddeall arwyddocâd yr heneb” (paragraff 238), gan fynd ymlaen i ystyried bod y golygfeydd presennol o’r ynys heb eu cyffwrdd gan ddatblygiad, gan gynnwys tyrbinau fferm wynt Gwynt y Môr.<br><br>Fodd bynnag, mae’r olygfan gynrychioliadol [APP-278] yn dangos bod yr aráe arfaethedig yn sylweddol fwy amlwg o’r ynys ac o fewn lleoliad yr asedau treftadaeth dynodedig ar Ynys Seiriol na’r ffermydd gwynt presennol, o ganlyniad i leoliad a graddfa’r tyrbinau arfaethedig. Rhowch gyfiawnhad ychwanegol ar gyfer eich canfyddiadau o effaith ddibwys ar asedau treftadaeth o’r fath. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.15 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau cronnol**<br>Mae paragraff 319 [APP-069] yn datgan na ystyrir, mewn unrhyw achos, bod tyrbinau arfaethedig AyM yn achosi niwed anuniongyrchol ychwanegol neu gronnol i ddiddordeb neu werth treftadaeth penodol unrhyw ased.<br><br>Sylwodd yr ExA yn ystod eu USI1 [EV-001], [EV-002] ac USI2 [EV-003], [EV-004] y gallai effaith yr aráe arfaethedig, mewn rhai achosion, ychwanegu at effaith ffermydd gwynt alltraeth presennol a ‘llenwi’ mwy o olygfeydd presennol â ffermydd gwynt alltraeth. Gellid gweld enghreifftiau o hyn, o bosibl, yn lleoliad Ardal Cadwraeth Llandudno, Pier Llandudno a Bryngaer Pen y Ddinas.<br><br>Rhowch gyfiawnhad ychwanegol i’ch safbwyntiau fel y’u hamlinellir yn Adran 8.13.2 [APP-069]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.16 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae Tabl 14 [APP-069] yn cynnwys y pennawd 'Sensitifrwydd Derbynnydd', tra'i bod yn ymddangos bod Tablau 3, 4 a 5 yn dangos yr un categori fel 'Arwyddocâd Treftadaeth'. Er mwyn cysondeb, a wnewch chi gadarnhau pa eiriad y dylid ei ddefnyddio. | |
| **9.** | **Defnydd Tir** | | |
| 9.1 | Yr Ymgeisydd | **Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas**<br>Mae NPS EN1 (paragraff 5.1.080) yn datgan "*Dylai ymgeiswyr geisio lleihau effeithiau ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas i'r eithaf (a ddiffinnir fel tir o raddau 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol) a defnyddio tir mewn ardaloedd o ansawdd is yn ddelfrydol (graddau 3b, 4 a 5)*."<br>Esboniwch sut y bodlonir y prawf ym mharagraff 5.10.8 NPS EN-1 mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig? | |
| 9.2 | Yr Ymgeisydd | **Effaith ar Weithrediadau Busnes**<br>Pa ystyriaeth a roddwyd i'r effaith ar iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael eu lletya neu sy'n pori yn agos i'r Datblygiad Arfaethedig h.y. effeithiau o ganlyniad i sŵn a llwch?<br>Pa fesurau, os o gwbl, sy'n angenrheidiol i liniaru effeithiau a sut bydd y rhain yn cael eu sicrhau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.3 | DMPC | **Effaith ar Fentrau Amaethyddol**<br>O ran sylwadau perthnasol a wnaed ar ran eich cleientiaid ([RR-038] i [RR-041]), rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â'r pryderon canlynol:<br>a) Hyfywedd y fenter amaethyddol bresennol/y mentrau amaethyddol presennol; a<br>b) Mesurau lliniaru arfaethedig, gan gynnwys dulliau adfer<br>Anodwch ar fap ardal(oedd) y daliadau yr effeithir arnynt a chanran y daliad y mae hyn yn ei chynrychioli. | |
| 9.4 | Rostons | **Effaith ar Fentrau Amaethyddol**<br>O ran sylwadau perthnasol a wnaed ar ran eich cleientiaid ([RR-042] i [RR-051]), rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â'r pryderon canlynol:<br>a) Cynhyrchu bwyd a diogeledd bwyd, a<br>b) Mesurau lliniaru arfaethedig, gan gynnwys dulliau adfer.<br>Anodwch ar fap ardal(oedd) y daliadau yr effeithir arnynt a chanran y daliad y mae hyn yn ei chynrychioli. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.5 | Cymru Gynaliadwy | **Tir Amaethyddol**<br>Rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â'r pryder a godwyd yn eich sylw perthnasol [RR-036], sef "*Mae'r safle arfaethedig ar dir glas amaethyddol ar hyn o bryd sy'n cynhyrchu bwyd*". | |
| 9.6 | Yr Ymgeisydd | **Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)**<br>Darparwch ddadansoddiad canrannol o ansawdd tir amaethyddol ar gyfer Rhan A y Llwybr fel y manylir yn Nhabl 7 ES Cyfrol 3, Pennod 6 [APP-067]. Yn ogystal, mae Rhan G y Llwybr o fewn Tabl 7 yn datgan "*gradd 3b cyfyngedig (da i gymedrol) (10%)*". A wnewch chi gadarnhau p'un a yw'r dosbarthiad ALC yn cyfeirio at dir gradd 3a neu 3b. | |
| 9.7 | Yr Ymgeisydd | **Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)**<br>O ran Tabl 7 [APP-067], rhowch enw'r daliad, maint ac ALC yn ôl rhan o'r llwybr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.8 | Yr Ymgeisydd | **Adnoddau Pridd Gradd 3a a 3b**<br>O ran yr OnSS arfaethedig, dywedir y bydd 0.38ha o adnoddau pridd Gradd 3a yn cael eu colli'n barhaol (paragraff 137 [APP-067]). O ran seilwaith glanfa, dywedir y bydd 20 metr sgwâr o adnodd pridd yn cael ei golli (paragraff 140 [APP-067]). Yn y ddau achos, dywedir bod y colledion yn fach o gymharu â'r adnoddau pridd Gradd 3a a Gradd 3b sy'n parhau i fod ar gael. A wnewch chi gadarnhau cyfanswm yr adnoddau pridd Gradd 3a a 3b sydd yn y rhanbarth. | |
| 9.9 | CBBC, DCC, CNC | **Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol (oCoCP) ac Adnoddau Pridd**<br>A ydych chi'n fodlon ag ymagwedd a chynnwys yr oCoCP [APP-312] ac atodiadau cysylltiedig (e.e. y Cynllun Rheoli Pridd amlinellol (oSMP) [APP-316]) o ran rheoli effeithiau posibl ar adnoddau pridd? Os na, rhowch fanylion dulliau a/neu fesurau lliniaru ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn yr oSMP. Yn ogystal, a wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon y byddai priddoedd yn addas i'r defnydd terfynol sy'n ofynnol a phriodoldeb y dulliau adfer pridd arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.10 | CBBC, DCC, CNC | **Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol (oCoCP) a Chyflwr y Tir**<br>A ydych chi’n fodlon ag ymagwedd a chynnwys yr oCoCP [APP-312] ac atodiadau cysylltiedig (e.e. y Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol (oPPEIRP) [APP-318]) o ran rheoli effeithiau posibl ar gyflwr y tir?<br>Os na, rhowch fanylion dulliau a/neu fesurau lliniaru ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn yr oPPEIRP. | |
| 9.11 | Yr Ymgeisydd | **Storio Pridd**<br>Mae’r oSMP yn cadarnhau y bydd priddoedd yn cael eu categoreiddio yn seiliedig ar eu tarddiad, ac yn cael eu pentyrru/storio yn unol â hynny (paragraff 23 [APP-316]). Pa ddogfennau a mesurau rheoli ffisegol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i atal cymysgu’n ddamweiniol? Sut bydd y rhain yn cael eu sicrhau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.12 | Yr Ymgeisydd | **Rheoli Pridd**<br>Mae'r oSMP yn cadarnhau pan fydd pridd yn cael ei storio am fwy na 6 mis y bydd yn cael ei orchuddio er mwyn lleihau erydu i'r eithaf neu'n cael ei adael er mwyn i lystyfiant aildyfu'n naturiol i leihau dŵr ffo o bridd (paragraff 4.6.2 [APP-316]). O ran pentyrrau sy'n cael eu storio am lai na 6 mis, a fyddant yn cael eu hadu i gynnal sefydlogrwydd llethr ac atal erydu a/neu gynhyrchu llwch? Yn ogystal, mae adran 2.1.1 y Cynllun Rheoli Ansawdd Aer amlinellol (oAQMP) [APP-315] yn datgan y bydd hesian, tomwellt neu gyfansoddion cemegol i gynyddu gludedd (*trackifiers*) yn cael eu defnyddio lle nad yw'n bosibl gorchuddio pridd sy'n cael ei storio neu aildyfu llystyfiant arno. A wnewch chi gadarnhau a fydd y mesur lliniaru hwn yn cael ei gynnwys yn yr oSMP ac os na, esbonio pam.<br>Esboniwch pam yr ystyrir bod y mesur lliniaru hwn yn fesur *"dymunol"* yn hytrach nag yn fesur *"a argymhellir yn fawr"* yn yr oAQMP. | |
| 9.13 | Yr Ymgeisydd | **Rheoli Pridd**<br>A fydd priddoedd sy'n cael eu storio yn cael eu profi am blastigrwydd? Os felly, rhowch fanylion y fethodoleg arfaethedig. Os na fwriedir cynnal profion, esboniwch eich rhesymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.14 | Yr Ymgeisydd | **Rheoli Pridd**<br>Sut bydd gwybodaeth a gynhwysir yn yr SMP terfynol yn cael ei throsglwyddo a’i lledaenu ar y safle? A ddisgwylir defnyddio sgyrsiau ‘blwch offer’? Os felly, sut bydd hyn yn cael ei sicrhau? | |
| 9.15 | Yr Ymgeisydd | **Dulliau Adfer Pridd**<br>Sut bydd addasrwydd pentyrrau pridd i’w hadfer yn cael ei asesu? A wnewch chi gadarnhau p’un a fydd yr SMP terfynol yn cynnwys methodoleg adfer. | |
| 9.16 | Yr Ymgeisydd | **Cydymffurfio Mewnol**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a fydd yr SMP terfynol yn destun unrhyw archwiliadau cydymffurfio mewnol? Os felly, a fydd yr SMP yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru fel y bo’r angen? Rhowch fanylion ynglŷn â’r broses hon. | |
| 9.17 | Yr Ymgeisydd | **Datgomisiynu**<br>Nid yw’r oSMP [APP-316] yn cyfeirio at y cam datgomisiynu. A wnewch chi gadarnhau pam nad yw hyn yn angenrheidiol a ph’un a fydd y cam hwn yn cael ei ystyried yn yr SMP terfynol. Os na, esboniwch eich rhesymau. | |
| **10.** | **Tirwedd a Gweledol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.1 | DCC, CNC | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a ydych chi’n fodlon â’r:<br>a) ardaloedd astudio ECC ac OnSS; a’r<br>b) lleoliadau golygfan OnSS a ddewiswyd, fel yr amlygwyd yn ES Pennod 2: Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd a’r Effaith Weledol (LVIA) [AS-029].<br>Os na, esboniwch y rhesymau dros hyn. | |
| 10.2 | DCC, CNC | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a ydych yn cytuno â:<br>a) methodoleg LVIA yr Ymgeisydd; a’i<br>b) asesiad o effeithiau mewn perthynas â nodweddion y dirwedd, cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol.<br>Os na, esboniwch y rhesymau dros hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.3 | DCC, CNC, yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae'r fethodoleg LVIA yn darparu ar gyfer dosbarthu effeithiau niweidiol cymedrol fel bod naill ai'n 'arwyddocaol' neu 'heb fod yn arwyddocaol' yn seiliedig ar farn broffesiynol.<br>**DCC / CNC** – A wnewch chi gadarnhau eich bod yn fodlon â'r dull hwn.<br>**Yr Ymgeisydd** – A wnewch chi roi cyfiawnhad ychwanegol ar gyfer yr achosion lle yr ystyrir bod effeithiau niweidiol cymedrol 'heb fod yn arwyddocaol' yn Nhablau 8, 10, 13 a 14, gan nad yw'r union resymau dros hyn yn glir i'r ExA. | |
| 10.4 | DCC | **Asesiad**<br>Mae'r ffotograff a dynnwyd o Olygfan (VP) 6 (Castell Bodelwyddan) [APP-186] yn dangos golygfeydd yn yr haf tuag at safle'r OnSS. A ydych chi'n fodlon bod hyn yn ddigonol at ddibenion yr asesiad? | |
| 10.5 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Nid oes mynediad cyhoeddus mewn perthynas â VP 6 (Castell Bodelwyddan). Esboniwch y rheswm dros ei chynnwys yn yr asesiad. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.6 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-029] yn nodi bod ffotograffau wedi cael eu tynnu pan nad oedd coed a gwrychoedd yn ddeiliog a bod hyn yn cynrychioli senario achos gwaethaf o ran effeithiau gweledol posibl. O ystyried hyn, a wnewch chi:<br>a) gyfiawnhau’r rheswm dros y ffotogyfosodiadau Blwyddyn 15 weithredol sy’n dangos y plannu arfaethedig deiliog; ac<br>b) egluro p’un a yw’r asesiad o effeithiau gweledol yn ystyried amrywiadau tymhorol, ac i ba raddau y mae’n gwneud hynny. | |
| 10.7 | Yr Ymgeisydd | **Gosodiadau Ar Ben y Tir**<br>Heblaw am nodweddion sy’n gysylltiedig â’r OnSS, a fyddai unrhyw osodiadau parhaol eraill ar ben y tir yn gysylltiedig ag elfennau ar y tir y Datblygiad Arfaethedig? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.8 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>A wnewch chi esbonio:<br>a) sut y pennwyd y safle ar gyfer yr OnSS (Gwaith Rhifau 31 a 31A), gan gynnwys ei siâp a'i gyfeiriad;<br>b) i ba raddau y mae'n adlewyrchu ei hamgylchedd ac yn ystyriol ohono o ran cymeriad y dirwedd, y dirffurf a phatrymau caeau a gwrychoedd; a<br>c) pham mae angen i'r OnSS fod ar lwyfan gwastad yn hytrach na dilyn proffiliau presennol y tir? | |
| 10.9 | Yr Ymgeisydd | **Lliniaru**<br>Mae Adran 2.9 [AS-029] yn ymwneud â lliniaru. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei bod yn mynd i'r afael ag i ba raddau y gallai dyluniad yr OnSS a'i helfennau helpu i leihau effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac yn weledol. Mae Gofyniad 6 y dDCO [AS-014] yn ymwneud â dyluniad manwl yr OnSS. A wnewch chi esbonio sut gallai dyluniad manwl yr OnSS, o ystyried darpariaethau Gofyniad 6 (h.y. (1)(a) i (e)) y dDCO, helpu i liniaru effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac yn weledol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.10 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae'r ffotogyfosodiadau Blwyddyn 15 o VP 1 [APP-181], lle y rhagfynegir effeithiau arwyddocaol gweddilliol, yn dangos y byddai rhan fawr o'r OnSS yn weladwy o hyd trwy fwlch llydan rhwng coetir newydd a blannwyd.<br>Esboniwch:<br>a) b'un a oes lle i blannu mwy o goetir yn yr ardal hon er mwyn lleihau golygfeydd o'r OnSS o VP 1 ymhellach; ac<br>b) os oes lle i wneud hynny, p'un a fyddech yn fodlon darparu plannu ychwanegol yn yr ardal hon. | |
| 10.11 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau ar Fynediad**<br>Mae Erthygl 13 [AS-014] yn gwneud darpariaethau i ganiatáu i'r ymgymerwr ffurfio a gosod mynedfeydd, neu wella mynedfeydd presennol, gan gynnwys fel rhan o Waith Rhif 41. A allai gwaith o'r fath effeithio ar unrhyw nodweddion tirwedd, fel coed a gwrychoedd, ac os felly, a ystyriwyd hyn yn rhan o'r asesiad? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.12 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Pa mor dda mae safle'r OnSS yn cysylltu â datblygiad presennol o fewn Parc Busnes Llanelwy ac is-orsafoedd Gwynt y Môr a Burbo Bank? Pam na ellid lleoli'r OnSS i'r de o Barc Busnes Llanelwy yng nghyffiniau'r is-orsafoedd hyn e.e. yn union i'r gorllewin o is-orsafoedd Gwynt y Môr a'r Grid Cenedlaethol? | |
| 10.13 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Yn ystod archwiliad safle digwmni [EV-001], [EV-002], arsylwodd yr ExA olygfeydd tuag at safle'r OnSS o fewn Gwarchodfa Natur Glascoed sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Gwnewch sylwadau ar ddefnydd tebygol o'r warchodfa natur hon gan y cyhoedd, gan gynnwys gweithwyr sy'n gysylltiedig â Pharc Busnes Llanelwy, a darparwch asesiad o effeithiau gweledol ar gyfer ei defnyddwyr. | |
| 10.14 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Gan nodi paragraff 5.10.8 NPS EN-1 drafft fel y cyfeirir ato yn [AS-029], a yw'r asesiad wedi ystyried sut byddai sŵn o weithgareddau adeiladu a gweithredol yn cael ei leihau i'r eithaf ar gyfer amwynder preswyl, lleoliadau sensitif, derbynyddion a golygfeydd? Os na, esboniwch sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.15 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae [AS-029] yn nodi, yn dibynnu ar lefelau deunydd wedi'i gloddio a phridd dros ben sy'n gysylltiedig â safle'r OnSS, bod posibilrwydd o greu byndiau tirweddu mewn ardaloedd coetir arfaethedig a fyddai'n cyfyngu ar olygfeydd o'r OnSS ymhellach ac yn darparu mesur lliniaru tirwedd a gweledol ychwanegol. Nodwch:<br>a) ble mae hyn yn cael ei sicrhau; a<br>b) ph'un a yw hyn wedi cael ei asesu o ran effeithiau ar gymeriad y dirwedd? | |
| 10.16 | DCC, CNC | **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**<br>Mae VP 9 [APP-189] wedi'i lleoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. A ydych chi'n fodlon:<br>a) na fyddai'r OnSS yn arwain at effeithiau arwyddocaol o'r olygfan hon (a'r AHNE yn ei chyfanrwydd); ac<br>b) y byddai hyn hefyd yn wir pe byddai'r AHNE yn newid i statws Parc Cenedlaethol (er y gallai ffiniau fod yn wahanol)? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.17 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae [AS-029] yn nodi posibilrwydd o blannu rhywfaint o goetir yn ystod camau cynnar adeiladu’r OnSS i sicrhau sgrinio cadarn cyn gynted â phosibl. A wnewch chi ddiffinio ‘cyn gynted â phosibl’. Yn ogystal, a wnewch chi gadarnhau ble mae hyn yn cael ei sicrhau a sut y byddai’n cael ei gymeradwyo. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.18 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Ni chyflwynwyd arolwg coed nac asesiad o'r effaith ar goedyddiaeth (AIA) gyda'r cais. Fodd bynnag, nodir yn [AS-029] a'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) [APP-305] y byddai angen cael gwared ag oddeutu 20-26 o goed sy'n gysylltiedig â safle'r OnSS ac oddeutu 33 o goed sy'n gysylltiedig â'r ECC. Heb arolwg coed nac AIA, sut gall yr ExA fod yn sicr:<br>a) P'un a allai hyn effeithio ar unrhyw goed eraill;<br>b) Gwerth y coed yr effeithir arnynt;<br>c) P'un a yw unrhyw goed yr effeithir arnynt yn dangos nodweddion a allai eu categoreiddio fel coed hynafol neu hynod; a<br>ch) Ph'un a yw gwaith, er enghraifft, Gwaith Rhif 30A, y tu allan i ardal amddiffyn gwreiddiau coed, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig ag ardaloedd coetir, gan gynnwys coetir hynafol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.19 | Yr Ymgeisydd | **Diogelu Coed**<br>Mae’r oLEMP [APP-305] yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu coed yn unol â BS 5837:2012 – Coed o ran dylunio, dymchwel ac adeiladu. Ble mae hyn yn cael ei sicrhau? A ddylai gael ei nodi’n benodol yn yr Atodlenni Lliniaru [APP-310] a Monitro [APP-311] neu ei sicrhau fel gofyniad o’r dDCO? | |
| 10.20 | DCC | **Plannu Coetir**<br>A ydych chi’n fodlon â chyfraddau twf awgrymedig plannu coetir (7-10m dros 15 mlynedd) fel yr amlinellir yn [AS-029] a’r uchder plannu coetir o 8.5 metr (ar gyfartaledd) a ddangosir ar y ffotogyfosodiadau Blwyddyn 15? | |
| 10.21 | Yr Ymgeisydd | **Ardaloedd Lliniaru Dros Dro**<br>Beth fyddai dibenion yr ‘Ardaloedd Lliniaru Dros Dro’ fel y’u dangosir ar y Cynlluniau Gwaith ac yn yr oLEMP [APP-305]? Ble mae’r rhain yn cael eu diffinio? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.22 | Yr Ymgeisydd, DCC | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae Tabl 6 [AS-029] yn nodi dimensiynau mwyaf ar gyfer adeiladau sy’n gysylltiedig â’r OnSS. A ddylai’r holl ddimensiynau hyn gael eu hadlewyrchu yn Nhabl 4 R7 [AS-014] ac os na, sut gellid sicrhau na fyddai dimensiynau adeiladau’n mynd yn fwy na’r rheiny a ystyriwyd yn yr asesiad? | |
| 10.23 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-029] yn ystyried ‘Eiddo unigol’ fel derbynnydd gweledol. A yw hyn yn ymwneud yn benodol â meddianwyr / preswylwyr yr eiddo hyn? Esboniwch sut mae cynnwys asesiad o olygfeydd preifat y derbynyddion hyn yn rhan o’r LVIA yn cyd-fynd â pharagraffau 6.16 a 6.17 y Canllawiau ar gyfer Asesu Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol: Trydydd Argraffiad. | |
| 10.24 | Yr Ymgeisydd | **Coridor Ceblau Allforio Ar y Tir**<br>Mae [AS-029] yn dod i’r casgliad “…*mae’r LVIA wedi asesu na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol gweddilliol ar y dirwedd a’r adnodd gweledol o ganlyniad i’r ECC ar y tir*”. Eglurwch b’un a fyddai hyn yn wir am yr holl dderbynyddion perthnasol (a ddangosir yn Nhabl 17), gan gynnwys “*gwrychoedd talach a choed perthi*”. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.25 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae effeithiau gweledol ar gyfer preswylwyr y Faenol Bropor wedi cael eu hasesu yn ystod adeiladu'r ECC. Eglurwch b'un a yw effeithiau gweledol wedi cael eu hasesu ar gyfer y derbynnydd hwn hefyd o ran adeiladu a gweithredu'r OnSS (e.e. a yw VP1 yn cynrychioli effeithiau o'r eiddo hwn yn ogystal ag ar gyfer defnyddwyr llwybr troed / llwybr ceffylau? Os na, darparwch asesiad o'r fath neu gyfiawnhad pam nad oes ei angen, gan nodi cynnwys [RR-038]. | |
| 10.26 | DCC | **Dethol Rhywogaethau Coetir**<br>A wnewch chi gadarnhau eich bod yn fodlon â'r detholiad rhywogaethau coetir awgrymedig fel yr amlinellir ym mharagraff 168 [AS-029]? Os na, rhowch resymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.27 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae Tabl 8 [AS-029] yn darparu asesiad o effeithiau tirwedd ffisegol yn ystod adeiladu. O ran safle’r OnSS, mae’n ymddangos bod effeithiau o’r fath wedi cael eu hystyried o ran coed yn unig. Eglurwch:<br>a) b’un a yw’r lliniaru ar gyfer effeithiau ar y coed hyn yn cynnwys y plannu coetir arfaethedig neu a yw’n dibynnu ar blannu coed newydd ar ôl datgomisiynu, neu’r ddau; a<br>b) ph’un a ddylai tir amaethyddol, gwrychoedd a gwrychoedd talach fod yn rhan o’r asesiad o effeithiau tirwedd ffisegol ar gyfer safle’r OnSS fel y maent ar gyfer yr ECC? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.28 | Yr Ymgeisydd | **Plannu**<br>Mae tudalen 22 yr Atodlen Lliniaru [APP-310] yn datgan “*Bydd yr holl gynefinoedd yn cael eu hadfer cyn gynted â phosibl ar ôl adeiladu. Bydd gwrychoedd ar hyd y cebl ECC ar y tir yn cael eu hadfer gan ddefnyddio cymysgedd brodorol rhywogaeth gyfoethog sy’n briodol yn lleol, gan gynnwys coed safonol trwm ar gymhareb 3:1 ar gyfer unrhyw rai a gollir.*” Mae paragraff 68 yr oLEMP [APP-305] hefyd yn awgrymu y byddai coed safonol trwm yn cael eu plannu mewn gwrychoedd.<br><br>Eglurwch:<br>a) b’un a fyddai coed safonol trwm yn cael eu cynnwys mewn plannu gwrychoedd cyfnewid o ystyried yr awgrymir mewn mannau eraill yn nogfennau’r cais (gan gynnwys [AS-209] ac [APP-305]) na all coed gael eu plannu ar hyd yr ECC ar y tir; a<br>b) ph’un a fyddai’r holl wrychoedd yn cael eu hamnewid, o ystyried bod ail bwynt bwled paragraff 172 [AS-029] yn defnyddio’r term ‘*lle y bo’n ymarferol’*. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.29 | Yr Ymgeisydd | **Coed**<br>Gan nodi lled ffosydd ceblau o gymharu â chyfanswm lled yr ECC ar y tir ynghyd â'r dyfnder y byddai ceblau'n cael eu claddu (fel y dangosir ar Ffigur 24 ES Pennod 1: Disgrifiad o'r Prosiect Ar y Tir [APP-062]), eglurwch:<br>a) unrhyw gyfyngiadau gweithredol ynglŷn â phlannu coed ar hyd yr ECC ar y tir; ac<br>b) unrhyw risg i geblau o wreiddiau coed dros gyfnod 25 mlynedd. | |
| 10.30 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Terfynol**<br>Mae paragraff 8 [APP-035] yn dweud y byddai'r LEMP terfynol yn ddogfen ymarferol a fyddai'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol ac a fyddai R13 [AS-014] yn darparu ar gyfer hyn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.31 | Yr Ymgeisydd | **Plannu**<br>O ystyried bod effeithiau tirwedd a gweledol yn cael eu hystyried ym Mlwyddyn 15 yn rhan o'r LVIA, a wnewch chi gadarnhau:<br>a) a yw 3 blynedd o ôl-ofal, fel yr amlinellir yn [APP-035], yn ddigonol, a sut byddai'n cael ei amlygu a'i sicrhau pe byddai angen ei ymestyn;<br>b) a yw cyfnod pum mlynedd, fel y nodir yn R9 [AS-014], ar gyfer plannu cyfnewid yn ddigonol; a<br>c) sut byddai unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol a phlannu cyfnewid yn cael eu sicrhau pan fydd y tir yn cael ei drosglwyddo'n ôl i dirfeddianwyr? | |
| 10.32 | Yr Ymgeisydd | **Coetir Hynafol**<br>Mae'r ardal ar gyfer Gwaith Rhif 35 yn cynnwys ardal o goetir hynafol. Beth yw'r goblygiadau i'r coetir hwn o ystyried y disgrifiad o Waith Rhif 35 yn Atodlen 1 [AS-014]? | |
| 10.33 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-029] yn cyfeirio at 'Flwyddyn 1' tra bod y ffotogyfosodiadau'n cyfeirio at 'Flwyddyn 0'. Beth yw'r rheswm dros hyn, ac a yw'n berthnasol i'r asesiad? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.34 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a yw cyfeiriad y ffotograffiaeth a ddangosir ar gyfer VP 9 (yn Ffigur 2.26a [APP-189]) yn gywir. | |
| 10.35 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a yw’r llinell maint paramedr mwyaf yn y delweddau ar gyfer VP 5 [APP-185] yn gywir. | |
| 10.36 | DCC, CNC | **Asesiad Cronnol**<br>A ydych chi’n fodlon â’r rhestr o ddatblygiadau at ddibenion asesiad cronnol fel y dangosir yn Nhabl 15 ES Pennod 2 [AS-029] a’r casgliadau na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y dirwedd ac effeithiau gweledol arwyddocaol yn digwydd? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.37 | DCC, CNC, Yr Ymgeisydd | **Asesiad Cronnol**<br>**DCC / CNC** – Mae [AS-029] yn nodi nad yw'r asesiad cronnol yn ystyried yr estyniad angenrheidiol i is-orsaf y Grid Cenedlaethol ar y sail nad oedd digon o fanylion amdano'n hysbys ar yr adeg yr asesiad. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i awgrymu y byddai effeithiau'r estyniad yn lleol ac felly'n annhebygol o arwain at effaith gronnol arwyddocaol. A ydych chi'n cytuno â hyn?<br>**Yr Ymgeisydd** – A fu unrhyw gynnydd o ran yr estyniad i is-orsaf y Grid Cenedlaethol a allai helpu i ystyried effeithiau cronnol yn fanylach? | |
| 10.38 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Cronnol**<br>Esboniwch y rheswm dros y blychau gwag niferus o dan y meysydd pwnc perthnasol, gan gynnwys 'Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol', yn y matrics asesu effeithiau cronnol ar y tir yn y Fethodoleg Asesu Effeithiau Cronnol [APP-042] (e.e. cynllunio, cyf. 40/2018/1036 – gorsaf bŵer, cyf. 44/2018/0855 / 44/2015/1075 – 99 o anheddau, ac ati). | |
| **11.** | **Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.1 | Yr Ymgeisydd | **Effaith ar Brosesau Arfordirol**<br>Yng ngoleuni paragraffau 5.5.7 a 5.5.10 NPS EN-1, dangoswch sut gall y penderfynwr fod yn fodlon:<br>a) Y byddai unrhyw effeithiau posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf; ac<br>b) Y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn wydn i erydu a gwaddodi arfordirol, o ystyried y newid yn yr hinsawdd, yn ystod oes weithredol y prosiect ac unrhyw gyfnod datgomisiynu. | |
| 11.2 | Yr Ymgeisydd | **Deunyddiau Eilaidd i Atal Erydu**<br>Mae CNC [RR-105] yn nodi bod dimensiynau lleol deunyddiau eilaidd i atal erydu yn dibynnu'n fawr ar siâp, dyluniad a lleoliad penodol y deunyddiau i atal erydu. Yn ogystal, mae CNC yn datgan ymhellach bod y paramedrau'n amrywiol iawn ac felly nad oes dull meintiol clir na sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhagfynegi dimensiynau deunyddiau eilaidd i atal erydu yn gywir. Mae CNC yn cynghori y dylid meddwl am fonitro ar ôl adeiladu, o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â chyfaint a maint gofodol deunyddiau eilaidd i atal erydu. Ymatebwch i'r materion penodol hyn a chadarnhewch sut y byddai monitro o'r fath yn cael ei sicrhau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.3 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Risg Claddu Ceblau**<br>Cadarnhewch ba bryd y bwriedir cwblhau'r Asesiad Risg Claddu Ceblau a rhowch drosolwg lefel uchel o'r cynnwys. | |
| 11.4 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau a Phrotocol Claddu Llwybr Ceblau**<br>Gan nodi bod y cynllun a'r protocol hyn i'w cynhyrchu ar ôl rhoi caniatâd, cadarnhewch sut y bwriedir eu sicrhau a rhowch drosolwg lefel uchel o'r cynnwys. | |
| 11.5 | Yr Ymgeisydd, CNC | **Asesiad o Newid i Lwybrau**<br>Mae paragraff 43 ES Cyfrol 2, Pennod 2 [APP-048] yn cadarnhau na fydd yr asesiad o newid posibl i lwybrau, ar yr adeg hon, yn cynnwys casgliad ynglŷn ag arwyddocâd effeithiau.<br>**Yr Ymgeisydd** – A wnewch chi gadarnhau pam nad oes angen cynnwys casgliadau ynglŷn ag arwyddocâd effeithiau mewn perthynas â'r mater hwn. A fwriedir eu darparu'n ddiweddarach?<br>**CNC** – A ydych chi o'r farn bod angen casgliadau o'r fath? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.6 | Yr Ymgeisydd | **Trwch Setliad**<br>Rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â pham na ellir amcangyfrif trosolwg o siâp a thrwch tebygol dyddodion ar wely'r môr o ganlyniad i ryddhau deunydd o'r treilliwr ar wyneb y dŵr (paragraff 61 [APP-048]. A yw'r MDS yn ystyried bod dyddodion o'r fath yn debygol o amrywio? | |
| 11.7 | Yr Ymgeisydd | **Tyllau Gweithio HDD**<br>A wnewch chi gadarnhau p'un a fwriedir i'r deunydd sy'n cael ei gloddio ar gyfer y tyllau gweithio HDD gael ei storio yn yr ardal rynglanw. Os felly, a fydd hyn yn union gerllaw'r tyllau gweithio? | |
| 11.8 | Yr Ymgeisydd | **Tyllau Gweithio HDD**<br>Mae paragraff 114 [APP-048] yn datgan y byddai unrhyw ymateb morffolegol o ganlyniad i'r twmpathau sborion sydd wedi'u lleoli yn yr ardal rynglanw yn lleol iawn ac y byddai unrhyw ymledu'n cael ei gyfyngu gan bresenoldeb y grwynau. A yw'r datganiad hwn yn ystyried y cyfnod 10 mis posibl pan fyddai bylchau o hyd at 5 metr yn digwydd yn y grwynau? Os na, esboniwch pam. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.9 | Yr Ymgeisydd | **Amddiffyn Ceblau Ger y Lan**<br>Mae ymrwymiad wedi'i wneud i ddefnyddio matresi ceblau yn yr ardaloedd ger y lan, os bydd angen (paragraff 131 [APP-048]). Sut bydd ymrwymiad o'r fath yn cael ei sicrhau? | |
| **12.** | **Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo** | | |
| 12.1 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Lliniaru**<br>Gan gyfeirio at y Cynllun Cyswllt a Chydfodoli â Physgota (FLCEP) [APP-306], a wnewch chi:<br>a) gadarnhau cyfnod gweithredu'r fferm wynt/prosiect. Mae'r FLCEP yn datgan "disgwylir i'r fferm wynt weithredu am gyfnod o 20 mlynedd", tra bod yr ES Cyfrol 2 Pennod 1 [APP-047] yn datgan "disgwylir i oes weithredol y prosiect fod oddeutu 25 mlynedd";<br>b) cadarnhau'r meini prawf ar gyfer nodi arbenigwyr sy'n gallu cynnal asesiad taliad cydweithio;<br>c) amlinellu'r amserlen ar gyfer pob cam allweddol yn y broses taliad cydweithio ym mharagraff 3.2;<br>ch) disgrifio a chadarnhau'r dull datrys anghydfod ar gyfer taliad cydweithio;<br>d) cadarnhau sut bydd y taliad cydweithio'n cael ei sicrhau yn y dDCO [AS-014]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.2 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Cyffredinol**<br>A wnewch chi gadarnhau sut byddai cydnawsedd galwedigaethau pysgota (fel rhwydi clwm neu ddrysu) ym mhresenoldeb tyrbinau gwynt yn cael ei asesu? | |
| 12.3 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Lliniaru**<br>A wnewch chi gadarnhau a fyddai cyflafareddu’n cael ei ddefnyddio i ddatrys effeithiau niweidiol ar weithgareddau alltraeth masnachol eraill ac a yw’n cael ei sicrhau yn y dDCO. Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 12.4 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Llinell Sylfaen**<br>A wnewch chi gadarnhau’r gostyngiad neu’r cynnydd posibl mewn cyflenwadau pysgod a fyddai’n digwydd o ganlyniad i bresenoldeb y datblygiad arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.5 | Llywodraeth Ynys Manaw (Pwyllgor Môr Tiriogaethol), Captain Haddock’s Seafood, Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod Manaw | **Pysgodfeydd Masnachol – Cyffredinol**<br>A ydych chi’n fodlon ag ES Cyfrol 2, Pennod 8 [APP-054] a’r canlynol:<br>a) mai fflyd gewyll, fflyd rwydo a fflyd lusgrwydo yw’r tri derbynnydd y mae angen eu hasesu ar gyfer pysgodfeydd masnachol;<br>b) ffynonellau data yn nhabl 5 i lywio asesiad y datganiad amgylcheddol pysgodfeydd masnachol;<br>c) dull gwerth glaniadau blynyddol pro rata yr ymgeisydd i ddiffinio maint yr effaith – paragraffau 73-78;<br>ch) bod yr holl brosiectau perthnasol a haenau cysylltiedig wedi’u hystyried yn yr asesiad o effeithiau cronnol ar bysgodfeydd masnachol yn nhabl 13.<br><br>Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw un o’r pwyntiau uchod, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| 12.6 | Llywodraeth Ynys Manaw (Pwyllgor Môr Tiriogaethol) | **Pysgodfeydd Masnachol – Cyffredinol**<br>A ydych chi’n fodlon bod y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu cyfleu yn nhabl 2-3 yn yr Adroddiad Llinell Sylfaen Pysgodfeydd Masnachol [APP-109]? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.7 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Cyffredinol**<br>A wnewch chi wirio’r cyfeirnod pennod a’r cyfeirnod cais ar gyfer y datganiad canlynol yn ES Cyfrol 2, Pennod 14 tudalen 13 [APP-060] a’r datganiad “… *gan ddefnyddio’r asesiad yng Nghyfrol 2, Pennod 6: Pysgodfeydd Masnachol; cyfeirnod cais: 6.2.6*”. | |
| 12.8 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Llinell Sylfaen**<br>A wnewch chi esbonio a disgrifio a amlygwyd unrhyw feysydd pysgota pwysig<br>a) o fewn yr OL,<br>b) gerllaw a thu hwnt i’r OL. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.9 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Lliniaru**<br>Mae [APP-054] yn cyfeirio at golli mynediad at fflydiau meysydd pysgota yn lleol yn y tymor byr (llai na 5 mlynedd). Rhagfynegir y bydd yr effaith yn ysbeidiol gyda gwaharddiad lleol o amgylch gweithgareddau adeiladu ac y byddai'n cael ei lliniaru trwy roi digon o rybudd am weithgarwch adeiladu cynlluniedig a gefnogir gan swyddog cyswllt pysgodfeydd lle y bo'n briodol. A wnewch chi esbonio a disgrifio'r dull cynllunio ac amserlennu adeiladu i amlygu'r parthau gwahardd ysbeidiol a lleol hyn, a'r cyfnod rhybudd am weithgarwch adeiladu cynlluniedig yr ystyrir ei fod yn ddigonol ei roi i grwpiau derbynnydd pysgota? | |
| 12.10 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Lliniaru**<br>A wnewch chi ddisgrifio'r opsiynau sy'n cael eu hystyried i annog cydfodolaeth â'r diwydiant pysgota. | |
| 12.11 | Yr Ymgeisydd | **Pysgodfeydd Masnachol – Sylw Perthnasol**<br>A wnewch chi ymateb i fater llongau 12m a llai a set data a lleoliad llongau ar goll o bosibl, ac nad yw'r data system monitro llongau sydd ar gael i'r ymgeisydd yn cynnwys llongau <15m o hyd gan Janet Finch-Saunders AS [AS-036] pwynt 8. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.12 | MCA, Tŷ'r Drindod, Siambr Forgludiant y Deyrnas Unedig | **Morgludiant a Mordwyo – Cyffredinol**<br>A ydych chi'n fodlon â'r ES Cyfrol 2, Pennod 9 [APP-055] a'r canlynol:<br>a) nad yw'r senario dylunio mwyaf ar gyfer parthau diogelwch 500 metr o amgylch strwythurau yn ystod adeiladu, 50 metr o amgylch strwythurau sydd wedi'u gosod ond sy'n aros am waith ychwanegol neu gomisiynu, a 500 metr oddi wrth strwythurau sy'n destun gwaith cynnal a chadw mawr yn arwyddocaol i rwystro'ch gweithgareddau;<br>b) nad yw'r bwlch lleiaf o 830 metr rhwng strwythurau yn y senario dylunio mwyaf yn arwyddocaol i rwystro'ch gweithgareddau;<br>c) bod yr holl brif lwybrau (17 i gyd) wedi cael eu hamlygu a'u bod fel y dangosir yn Ffigur 6;<br>ch) nad yw'r datblygiad arfaethedig yn amharu ar ddefnyddio lonydd môr cydnabyddedig sy'n hanfodol i fordwyo rhyngwladol; a<br>d) bod unrhyw effeithiau negyddol ar lonydd mordwyo nad ydynt yn rhyngwladol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.<br>Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r uchod, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.13 | Yr Ymgeisydd | **Morgludiant a Mordwyo – Cyffredinol**<br>Mae'r Egwyddorion Trwydded Forol [AS-023] yn cyfeirio at ostyngiad mewn dyfnder yn sgil amddiffyn ceblau, gan ddweud bod rhaid i hyn beidio â pheryglu mordwyo diogel nac arwain at ostyngiad x% yn y dyfnder amgylchynol, oni chytunir fel arall gyda CNC. A wnewch chi esbonio a disgrifio:<br>a) eich dull o ymgynghori ac ymgysylltu ynglŷn â gostyngiadau dyfnder gydag MCA, Tŷ'r Drindod a Siambr Forgludiant y Deyrnas Unedig;<br>b) y meini prawf ar gyfer x% y gostyngiad mewn dyfnder amgylchynol o fewn yr MDS. | |
| 12.14 | Yr Ymgeisydd | **Morgludiant a Mordwyo – Lliniaru**<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) sut mae'r Asesiad Ymateb Chwilio ac Achub (cyn dechrau adeiladu) yn cael ei sicrhau yn y dDCO [AS-014];<br>b) a oes unrhyw hawl fordwyo gyhoeddus yn cael ei diddymu ac, os felly, pa ddarpariaethau sy'n cael eu gwneud yn y dDCO [AS-014];<br>c) parthau diogelwch sy'n cael eu sicrhau yn y dDCO a phellteroedd parthau diogelwch sy'n cael eu gweithredu a'u monitro ar y safle [APP-055]. | |

**ExQ1: 27 Medi 2022**

**Mae’n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 24 Hydref 2022**

| **13.** | **Morol – Naturiol** | | |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Yr Ymgeisydd | **Ecoleg Fenthig – Sŵn**<br>Mae Tabl 4 ES Cyfrol 2 Pennod 5 [APP-051] yn nodi bod effeithiau sŵn ar ecoleg fenthig wedi cael eu hepgor ac nad ydynt yn cael eu hasesu yn y Bennod. Fodd bynnag, mae’r crynodeb o ‘Ymgynghori a Materion Allweddol a godwyd’ yn datgan “llygredd sŵn ar ecoleg fenthig yn ystod gosod sylfeini yn ystod adeiladu” heb sôn am hepgor. Mae’r Arolygiaeth yn nodi bod y Farn Gwmpasu y gofynnwyd amdani yn ID 4.3.1 yn Nhabl 4.3 yn datgan ‘Dylai’r ES gynnwys gwybodaeth i esbonio graddau’r effaith debygol ac asesu unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol. Dylai’r ES hefyd asesu effeithiau ar ecoleg islanw a rhynglanw fenthig o sŵn a gynhyrchir yn ystod gweithgareddau adeiladu eraill, gan gynnwys gosod yr ECR alltraeth.’<br><br>A all yr Ymgeisydd ddarparu’r wybodaeth hon neu gyfiawnhau ei hepgor? | |
| 13.2 | Yr Ymgeisydd | **Gosod deunyddiau i atal erydu**<br>Nid yw’r MDS yn cyfeirio at faint o ddeunyddiau i atal erydu a dybir yn yr asesiad. Gofynnir i’r Ymgeisydd ddarparu’r wybodaeth hon ac esbonio sut mae hyn wedi llywio’r asesiad ecoleg fenthig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.3 | Yr Ymgeisydd | **Lliniaru**<br>Mae Tabl 12 [APP-051] yn datgan, cyn dechrau, "Bydd arolwg geoffisegol yn cael ei gynnal i hwyluso microleoli o amgylch cynefinoedd sensitif fel Sabellaria". Nid yw'r Atodlen Lliniaru [APP-310] yn cyfeirio at arolygon geoffisegol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau sut byddai cyflawni'r mesur lliniaru hwn yn cael ei sicrhau? | |
| 13.4 | JNCC | **Ecoleg Fenthig**<br>A wnewch chi gadarnhau, neu fel arall, a ydych yn fodlon â chynnwys a chasgliadau [APP-051]. | |
| 13.5 | Yr Ymgeisydd | **Rhywogaethau estron**<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru [RR-015] yn datgan eu bod o'r farn y dylai maint yr effaith o'r posibilrwydd o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol morol gael ei gyflwyno fel bod yn isel ac nid yn ddibwys. A wnewch chi ymateb i'r farn hon ac addasu [APP-051] os oes angen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.6 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad risg bioddiogelwch**<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru [RR-015] yn nodi ymrwymiad yr Ymgeisydd i gynhyrchu asesiad risg bioddiogelwch fel amod o’r Drwydded Forol, ond yn argymell bod cynllun bioddiogelwch morol yn cael ei gadw’n annibynnol ac ar wahân. Rhowch eich barn am y cynnig hwn a’r dull rheoliadol mwyaf priodol sy’n ofynnol i’w sicrhau. | |
| 13.7 | JNCC | **Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn**<br>A wnewch chi gadarnhau, neu fel arall, a ydych yn fodlon â chynnwys a chasgliadau ES Cyfrol 2, Pennod 6, Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn [APP-052]. | |
| 13.8 | Yr Ymgeisydd | **Ecoleg Bysgod**<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru [RR-015] yn amlygu anghysondebau yn Nhabl 18 [APP-052] a hefyd o’r farn bod y cyflymder nofio ar gyfer derbynyddion pysgod silio sy’n ffoi wedi’i or-ddweud, gan arwain at senarios afrealistig ar gyfer lledod chwithig, lledod coch, penfreision, a gwyniaid môr. Gwnewch sylwadau ar yr arsylwadau hyn a darparwch Bennod wedi’i diweddaru os oes angen. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.9 | Yr Ymgeisydd | **Ecoleg Bysgod**<br>Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru [RR-015] weld mwy o wybodaeth am sut yr ystyriwyd yr effeithiau cronnol ar boblogaethau pysgod dros nifer o dymhorau silio o ganlyniad i sŵn tanddwr sy'n deillio o weithgarwch adeiladu olynol o sawl prosiect fferm wynt alltraeth ym Mae Lerpwl. Ymatebwch i'r cais hwn, os gwelwch yn dda. | |
| 13.10 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | **Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn**<br>Mae Tabl 4 [APP-052] yn crynhoi sylwadau gennych chi ac yn rhoi sylwadau gan yr Ymgeisydd (tudalennau 63-65) ar y materion canlynol:<br>a) Effeithiau sŵn ar benwaig;<br>b) Egwyddor ragofalus ar gyfer penwaig o ran gweithio mewn meysydd silio posibl penwaig; a<br>c) Gweithgareddau pysgota o fewn y llinell sylfaen.<br>Rhowch eich sylwadau ar ymatebion yr Ymgeisydd sydd wedi'u cynnwys yng ngholofn 3 Tabl 4. | |
| 13.11 | Yr Ymgeisydd | **Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn – Sŵn**<br>A wnewch chi gadarnhau'r rhesymeg dros ddewis y lleoliadau modelu sŵn ar gyfer sŵn tanddwr (ffoi a sefydlog) fel y dangosir yn Ffigurau 8 a 9 [APP-052]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.12 | CNC, JNCC, RSPB, NWWT | **Alltraeth – Cyffredinol**<br>A ydych chi'n fodlon nad oes asesiad aflonyddu ar gael i asesu gweithgareddau adeiladu eraill fel drilio, treillio, gweithgarwch llongau? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |
| **14.** | **Iechyd y Cyhoedd a Niwsans** | | |
| 14.1 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**<br>Sut ydych chi wedi ystyried Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Cymru 2018 i 2023 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | |
| 14.2 | DCC, CCBC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon â'r asesiad o sŵn gweithredol o'r tyrbinau a'i gasgliad yn Adran 10.5.2 ES Cyfrol 3 Pennod 10: Sŵn a Dirgryniad [APP-071]? | |
| 14.3 | DCC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon â phenderfyniad yr Ymgeisydd i beidio â chynnal asesiad dirgryniad gweithredol o'r OnSS, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn Adran 10.12.5 [APP-071]? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.4 | DCC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon bod y lleoliad monitro sŵn sylfaenol CR1, y darperir ei leoliad yn Nhabl 56 a Ffigur 5 [APP-071], yn gynrychioliadol o'r adeiladau preswyl yn Rhydwen Farm Mews a Pharc Cartrefi Gwyliau New Pines? | |
| 14.5 | DCC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon â defnyddio dull cosb donyddol wrth asesu lefelau sŵn gweithredol o'r OnSS yn lle data band wythfed 1/3 a'r terfynau lefel mesur sŵn diffiniedig sy'n deillio o'r OnSS, a nodir yng Ngofyniad 18 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [AS-014]? | |
| 14.6 | DCC | **Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad amlinellol**<br>A ydych chi'n fodlon y bydd y Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad amlinellol [APP-314] yn rheoli sŵn a dirgryniad yn ddigonol yn ystod adeiladu ar y tir? Os na, pa ddiwygiadau yr hoffech chi eu gweld? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.7 | DCC | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**<br>A ydych chi'n fodlon â'r oriau gwaith arfaethedig yng Ngofyniad 15 y dDCO [AS-014] a'r broses arfaethedig ar gyfer cytuno ar amrywiadau penodol i leoliad? Os na, pa ddiwygiadau yr hoffech chi eu gweld? | |
| 14.8 | DCC | **Cynllun Cyfathrebu Adeiladu amlinellol**<br>A ydych chi'n fodlon â'r Cynllun Cyfathrebu Adeiladu amlinellol [APP-324]? | |
| 14.9 | CCBC, DCC | **Asesiad a Rheolaethau**<br>A ydych chi'n fodlon â'r asesiad o sŵn o waith adeiladu alltraeth a ddarperir yn [APP-071] a'r darpariaethau i'w fonitro a'i reoli yng Ngofyniad 4 y dDCO [AS-014]? | |
| 14.10 | Cymru Gynaliadwy | **Pibell Asbestos**<br>Yn eich Sylw Perthnasol [RR-036], rydych yn cyfeirio at bibell asbestos. A wnewch chi roi gwybodaeth ychwanegol am ei hunion leoliad a sut gallai effaith y prosiect arni godi pryderon ynglŷn ag iechyd y cyhoedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.11 | Prifysgol Glyndŵr (ar ran Glyndŵr Innovations Limited) | **Dirgryniad**<br>a) A wnewch chi roi manylion hyd, natur/math a maint y dirgryniad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar weithrediadau Glyndŵr Innovations Limited.<br>b) Yn ystod eu hymweliad safle [EV-001], [EV-002] nododd yr EXA agosrwydd ffordd ddeuol yr A55 i Glyndŵr Innovations Limited. A yw hyn yn creu unrhyw broblemau o ran dirgryniad i'ch gweithrediadau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.12 | DCC, CNC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon:<br>a) Nad yw arolwg monitro ansawdd aer penodol i brosiect wedi cael ei gynnal?<br>b) Â'r dull a ddefnyddiwyd i ystyried effeithiau llwch adeiladu cronnol yn Adran 11.13 ES Cyfrol 3 Pennod 11: Ansawdd Aer [AS -030]?<br>c) Bod yr holl dderbynyddion perthnasol wedi cael eu hamlygu?<br>ch) Ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau traffig ffyrdd ac nad oes cynnig i ddefnyddio modelu gwasgariad i feintioli'r effaith ganlyniadol ar lwythi critigol a/neu lefelau critigol?<br>d) Â'r asesiad o effeithiau llwch adeiladu ar safleoedd ecolegol?<br>dd) Bod sgrinio teithiau traffig yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol a dyfarniadau cyfreithiol? Ac<br>e) Â'r asesiad o effeithiau iechyd posibl o ganlyniad i PM10 NRMM yn Adran 11.10.1 ES Cyfrol 3 Pennod 11: Ansawdd Aer [AS-030]? | |
| 14.13 | DCC | **Coetir Hynafol**<br>A ydych chi'n fodlon na fydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar Goetir Hynafol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.14 | DCC | **Lliniaru a Gofynion**<br>A ydych chi'n fodlon â'r cynllun rheoli llwch drafft, sy'n rhan o'r Cynllun Rheoli Ansawdd Aer amlinellol [APP-315] a bod y gofynion drafft yn y dDCO [AS-014] ynglŷn â'r mater hwn yn ddigonol? | |
| 14.15 | Yr Ymgeisydd | **Is-orsaf Ar y Tir**<br>Mae'r ExA yn nodi'r posibilrwydd i'r OnSS gael ei hinswleiddio â nwy (GIS). A oes unrhyw gynigion i ddefnyddio nwy sylffwr hecsafflŵorid (SF6)? Os felly, sut bydd yn cael ei reoli er mwyn osgoi perygl iechyd y cyhoedd neu niweidio'r amgylchedd? | |
| 14.16 | Yr Ymgeisydd | **Goleuadau'r Is-orsaf Ar y Tir**<br>Pa oleuadau a gynigir ar gyfer yr OnSS yn ystod ei gweithrediad? Pa ardaloedd fyddai'n cael eu goleuo'n barhaol a pha rai dim ond pan fydd angen? Rhowch y rhesymau ar gyfer pob un. Pa asesiad a wnaed o effaith y trefniadau goleuo arfaethedig ar dderbynyddion? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.17 | PHW, DCC | **Asesiad**<br>A ydych chi’n fodlon â’r asesiad o effeithiau posibl y prosiect ar iechyd o ganlyniad i ymbelydredd electromagnetig yn ystod gweithredu, fel yr amlinellir yn Adran 12.10 ES Cyfrol 3 Pennod 12: Iechyd y Cyhoedd [APP-073]? | |
| **15. Prosiectau a Chynigion Eraill** | | | |
| Mae cwestiynau yn ymwneud â’r maes pwnc hwn i’w gweld yn Adran 1.1, Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol | | | |
| **16. Disgrifiad o’r Prosiect a Dethol Safle** | | | |
| 16.1 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o’r Prosiect**<br>Mae’r trosolwg o’r prosiect yn nodi arolygon a gwaith adeiladu yn 2024 a 2025, ac mae’r rhaglen adeiladu ddangosol yn dangos gwaith cyn-adeiladu alltraeth (arolygu/clirio ac ati) yn dechrau ym Mlwyddyn 1 Chwarter 1.<br><br>A wnewch chi gadarnhau’r flwyddyn/blynyddoedd ar gyfer asesiad o effaith y gwaith cyn-adeiladu a diffinio cwmpas datganiad “ac ati”. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.2 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o'r Prosiect**<br>O ran gwaith y rhaglen adeiladu ddangosol (Ar y Tir), a wnewch chi gadarnhau gweithgarwch a hyd yn i) y lanfa, ii) yr ECC ar y tir a iii) yr OnSS ar gyfer:<br>a) Gwaith cyn dechrau<br>b) Gwaith rhagarweiniol<br>c) Adfer | |
| 16.3 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o'r Prosiect**<br>Darparwch osodiad cynllun dangosol wedi'i anodi o'r cyfadeilad adeiladu dros dro, gyda dimensiynau ar gyfer arwynebeddau:<br>a) 10,000m2;<br>b) 22,500m2; a<br>c) 37,500m2. | |
| 16.4 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o'r Prosiect**<br>Ar gyfer ardal adeiladu'r Is-orsaf Ar y Tir, darparwch luniadau dangosol wedi'u hanodi o'r canlynol:<br>a) croestoriadau ar hyd pwyntiau gogleddol a deheuol y llwyfan (i gyfeiriad dwyrain-gorllewin yn gyffredinol) sy'n dangos nodweddion, lefelau a chysylltiadau presennol ac arfaethedig;<br>b) trawslun hydredol (i gyfeiriad gogledd-de yn gyffredinol) sy'n dangos nodweddion, lefelau a chysylltiadau presennol ac arfaethedig. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.5 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o'r Prosiect**<br>A wnewch chi gadarnhau neu ddiffinio allbwn trydanol arfaethedig y prosiect. | |
| 16.6 | Yr Ymgeisydd | **Disgrifiad o'r Prosiect**<br>Ategwch Ffigur 30: Gosodiad Is-orsaf AIS Dangosol a Ffigur 31: Gosodiad Is-orsaf GIS Dangosol Ar y Tir [APP-062] â lluniad cynllun drafft wedi'i anodi o osodiad y ddwy is-orsaf gydag adeiladau a strwythurau wedi'u labelu a dimensiynau allweddol wedi'u nodi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.7 | Yr Ymgeisydd | **Dethol Safle**<br>Mae Tabl 2 ES Cyfrol 1 Pennod 4, Dethol Safle a Dewisiadau Amgen [APP-044] yn nodi mewn crynodeb o feini prawf estyniadau Ystad y Goron "Heblaw am y fferm wynt bresennol, rhaid i'r estyniad arfaethedig beidio â thresmasu o fewn radiws o 5km o unrhyw fferm wynt arall oni bai bod tenant unrhyw fferm wynt o'r fath yn cadarnhau ei gytundeb yn ysgrifenedig i Ystad y Goron". Mae cydymffurfiaeth y datblygiad arfaethedig yn datgan wrth ymateb "y fferm wynt agosaf i'r…prosiect yw fferm wynt alltraeth Gwastadeddau'r Rhyl, sy'n fwy na 5km i ffwrdd ac sydd hefyd yn cael ei gweithredu gan RWE".<br><br>Mae [RR-020] gan DLA Piper ar ran Rhyl Flats Wind Farm Limited yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, i bob pwrpas.<br><br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) y pellter rhwng y datblygiad arfaethedig a Gwastadeddau'r Rhyl<br>b) p'un a yw fferm wynt Gwastadeddau'r Rhyl yn cael ei gweithredu gan RWE. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.8 | Yr Ymgeisydd | **Dethol Safle**<br>Mae Ffigur 10 [APP-044] yn dangos yr ardal chwilio ar gyfer yr OnSS arfaethedig. Mae’r ffigur hwn yn dangos fel bloc yr estyniad arfaethedig i is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol ar ochr orllewinol yr is-orsaf bresennol. A oedd lleoliad yr estyniad hwn wedi effeithio ar leoliad arfaethedig yr OnSS? | |
| 16.9 | Yr Ymgeisydd | **Dethol Safle**<br>Mae Tabl 10 [APP-044] yn manylu ar y rhestr hir o opsiynau coridor cebl arfaethedig. Nodir opsiwn coridor cebl 5c, ond nid yw’n ymddangos bod yr opsiwn hwn i’w weld ar Ffigur 19 cysylltiedig yr un ddogfen. Darparwch fanylion ychwanegol a Ffigur 19 wedi’i ddiweddaru os oes angen. | |
| 16.10 | Yr Ymgeisydd | **Dethol Safle**<br>Mae Tabl 10 [APP-044] yn manylu ar y rhestr hir o opsiynau coridor cebl arfaethedig. Mae’r crynodeb o’r dadansoddiad ar gyfer cynnig coridor cebl 5b yn datgan “ni symudwyd ymlaen â’r opsiwn oherwydd bod dadansoddiad cyfochrog wedi eithrio’r llwybr hwn o ystyriaeth bellach”.<br><br>Ymhelaethwch ar y rhesymeg hon/y dadansoddiad hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.11 | Yr Ymgeisydd | **Dethol Safle**<br>Mae Tabl 11 [APP-044] yn manylu ar adborth gan randdeiliaid ar amryw lwybrau cebl arfaethedig, gan gynnwys opsiynau 5a a 5c. Mae paragraffau dilynol yn cynnwys y rhesymeg dros ddethol llwybr 5a at ddibenion y PEIR. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod llwybr 5c wedi'i grybwyll o gwbl o fewn rhesymeg o'r fath.<br><br>Esboniwch pam na symudwyd ymlaen â llwybr 5c ac ymhelaethwch ar hynny os oes angen. | |
| **17. Morlun, Tirwedd a Gweledol** | | | |
| 17.1 | DCC, IoACC, CCBC, GC, FCC, SNP, CNC | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon â'r canlynol:<br>a) yr ardal astudio;<br>b) y Parth Gwelededd Damcaniaethol;<br>c) y lleoliadau golygfan a ddewiswyd; a<br>ch) graddau'r asesiad o'r golygfannau hyn, fel y nodir yn ES Pennod 10: Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) [AS-027].<br>Os na, esboniwch y rhesymau dros hyn. | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.2 | DCC, IoACC, CCBC<br>GC, FCC, SNP, CNC | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon â'r canlynol:<br>a) methodoleg SLVIA yr Ymgeisydd; a'i<br>b) asesiad o'r effeithiau ar gymeriad y morlun, cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol.<br>Os na, esboniwch y rhesymau dros hyn. | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |
| 17.3 | DCC, IoACC, CCBC, GC<br>FCC, SNP, CNC | **Asesiad**<br>Mae'r fethodoleg SLVIA yn darparu ar gyfer dosbarthu effeithiau niweidiol cymedrol fel bod naill ai'n 'arwyddocaol' neu 'heb fod yn arwyddocaol' yn seiliedig ar farn broffesiynol.<br>**DCC/IoACC/CCBC/GC/FCC/SNP/CNC** - A wnewch chi gadarnhau eich bod yn fodlon â'r dull hwn.<br>**Yr Ymgeisydd** – A wnewch chi roi cyfiawnhad ychwanegol ar gyfer yr achosion lle yr ystyrir bod effeithiau niweidiol cymedrol 'heb fod yn arwyddocaol', gan nad yw'r union resymau dros hyn yn glir i'r ExA. | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.4 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn nodi sawl gwaith bod tueddiad derbynyddion i newid yn cael ei gymedroli gan bellter o'r ardal aráe. Rhowch gyfiawnhad ychwanegol dros hyn o ystyried nad yw'n ymddangos bod 'pellter' yn ffactor ar gyfer 'tueddiad i newid' yn Atodiad 10.1: Methodoleg SLVIA [APP-112]. | |
| 17.5 | SNP, CNC | **Asesiad**<br>Mae SNP [RR-006] a CNC [RR-015] yn mynegi pryderon ynglŷn â than-adrodd effeithiau arwyddocaol. Nodwch yn benodol beth yw'ch pryderon, gyda rhesymau ategol am hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.6 | SNP | **Asesiad**<br>Mae RR SNP [RR-006] yn cyfeirio at effeithiau gweledol o fannau penodol yn y Parc Cenedlaethol, fel o Garnedd Llywelyn a'r Carneddau yn eu cyfanrwydd. Gan nodi bod VP 10 [APP-239] o Garnedd Llywelyn a bod VP 38 [APP-267] o Foel Fras:<br>a) a yw SNP yn fodlon bod y golygfannau hyn yn gynrychioliadol o'r rhan hon o'r Parc Cenedlaethol (h.y. y Carneddau);<br>b) a yw SNP yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol o'r golygfannau hyn yn gymedrol niweidiol ac arwyddocaol; ac<br>c) a yw SNP yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol ar Ardal Cymeriad Tirwedd (LCA) 02 SNP: Cadwyn y Carneddau yn fach-gymedrol niweidiol ac nid yn arwyddocaol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.7 | SNP, CNC, GC (os yw’n berthnasol), CCBC (os yw’n berthnasol) | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) p’un a ydych yn cytuno bod nodweddion arbennig perthnasol y Parc Cenedlaethol wedi’u cyfyngu i ‘Dirweddau amrywiol’ a ‘Llonyddwch ac unigedd – Ardaloedd heddychlon’ fel y diffinnir yng Nghynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2020 (SNPPP);<br>b) statws yr SNPPP, gan nodi bod [AS-027] yn datgan ei fod ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac yn destun ymgynghoriad; a<br>c) ph’un a ydych yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau mewn perthynas â’r nodweddion arbennig hyn (Tabl 10) a’i gasgliad cyffredinol na fyddai unrhyw niwed i’r fath raddau ag y byddai’n effeithio ar gyfanrwydd a harddwch naturiol cynhenid y Parc Cenedlaethol (paragraff 806). | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.8 | CNC | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn adrodd na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ar gyfer SNP LCA 01: Ucheldiroedd Gogleddol ac SNP LCA 02: Cadwyn y Carneddau. Mae hefyd yn adrodd na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar nodweddion arbennig dynodedig y Parc Cenedlaethol. Mae'n ymddangos bod CNC [RR-015] (paragraffau 3.1.2 a 3.1.5) yn awgrymu fel arall. Esboniwch eich rhesymau dros hyn. | |
| 17.9 | CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>**CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol** – Mae CNC [RR-015] a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol [RR-029] yn awgrymu y dylid ystyried gwella tirweddau dynodedig. Esboniwch beth a olygir gan hyn a sut rydych yn disgwyl iddo gael ei gyflawni?<br><br>**Yr Ymgeisydd** – A yw hyn yn rhywbeth rydych wedi'i ystyried neu'n fodlon ei ystyried? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.10 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn nodi ‘Tirweddau amrywiol’ a ‘Llonyddwch ac unigedd – Ardaloedd heddychlon’ fel nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys yn Nhabl 10. Fodd bynnag, mae paragraffau 798 ac 806 yn awgrymu bod ‘Golygfeydd Amrywiol’ yn nodweddion arbennig. Eglurwch, os gwelwch yn dda. | |
| 17.11 | CNC, IoACC | **Asesiad**<br>A ydych chi’n cytuno bod nodweddion arbennig perthnasol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn cynnwys ‘Golygfeydd eang’; ‘Heddwch a llonyddwch’; ac ‘Ynysoedd o amgylch Ynys Môn’ fel yr adroddir yn [AS-027]? Gan ddilyn ymlaen o hyn, a ydych chi’n cytuno â’r casgliadau yn Nhabl 7 sy’n ymwneud â’r rhain a’r casgliad cyffredinol ym mharagraff 562 na fyddai niwed yn digwydd i’r fath raddau fel y byddai’n effeithio ar gyfanrwydd cyffredinol AHNE Ynys Môn neu ei harddwch naturiol cynhenid? Rhowch resymau os oes unrhyw anghytundeb. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.12 | DCC, FCC, CNC | **Asesiad**<br>A ydych chi’n cytuno bod nodweddion arbennig perthnasol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys ‘Llonyddwch’; a ‘Phellenigrwydd a Gwylltineb’ fel yr adroddir yn [AS-027]? Gan ddilyn ymlaen o hyn, a ydych chi’n cytuno â’r casgliadau yn Nhabl 13 sy’n ymwneud â’r rhain? Rhowch resymau os oes unrhyw anghytundeb. | |
| 17.13 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a yw rhifau golygfan 46, 47, 48 a 51 wedi’u hepgor yn fwriadol. | |
| 17.14 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn defnyddio’r termau ‘bach-gymedrol’ / ‘cymedrol-fach’ a ‘chymedrol-fawr’ / ‘mawr-gymedrol’ yn gyfnewidiol. Eglurwch b’un a yw’r termau hyn yn golygu’r un peth. | |
| 17.15 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn adrodd am rai effeithiau arwyddocaol a heb fod yn arwyddocaol ar rannau o Ardal Cymeriad Morlun (SCA) 28: Gogledd-ddwyrain o Ynys Môn. Beth fyddai’r effaith ar SCA 28 yn ei chyfanrwydd? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.16 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>A wnewch chi esbonio pam na ddarparwyd ffotograffau ar gyfer rhai golygfannau (gan gynnwys VP 3 (Ynys Seiriol), VP 26 (Bryn-Ilwyn), VP 30 (Hilbre Point), VP 31 (Crosby), VP 32 (Formby Point), VP 33 (Pier Southport), VP 35 (Tŵr Blackpool), VP 39 (Llwybr Gogledd Cymru), VP 54 (Y Foel), VP 55 (llwybr troed uwchben Cilgwyn Mawr), VP 56 (Pen-y-Corddyn-Mawr) a VP 57 (Moelfre Isaf)). | |
| 17.17 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae paragraff 2.35.9 NPS EN-3 drafft yn datgan *"… dylai gosodiad tyrbinau gael ei ddylunio'n briodol i leihau niwed i'r eithaf...*". Mae [AS-027] yn datgan bod gosodiad ffurf grid o'r gogledd i'r de yn adlewyrchu'r achos gwaethaf o ran effeithiau ar y morlun a'r dirwedd ac effeithiau gweledol. I ba raddau y byddai gosodiadau amgen yn lleihau / lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol ac a ystyriwyd y rhain? | |
| 17.18 | DCC, IoACC, CCBC, GC<br>FCC, SNP, CNC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n cytuno y byddai MDS A ac MDS B yn cael effeithiau tebyg o ran y morlun a'r dirwedd ac o ran effeithiau gweledol, fel y nodir ym mharagraff 138 [AS-027]? | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.19 | Yr Ymgeisydd | **Lleoli**<br>O ran Ffigurau 2a [APP-191] a 2b [APP-192], a fyddai unrhyw le i adleoli rhai o'r tyrbinau mwyaf gorllewinol, neu'r cyfan ohonynt, i rannau eraill o'r ardal aráe? Os na, esboniwch y rhesymau dros hyn. | |
| 17.20 | Yr Ymgeisydd | **Gorffeniad Lliw**<br>Eglurwch ba liw y byddai'r tyrbinau gwynt a rhowch gyfiawnhad dros hyn. | |
| 17.21 | Yr Ymgeisydd | **Tirweddu**<br>O ystyried paragraff 5.9.23 NPS EN-1, a yw'r Ymgeisydd wedi ystyried y posibilrwydd y gallai tirweddu oddi ar y safle liniaru effeithiau niweidiol o olygfeydd pellach? | |
| 17.22 | Yr Ymgeisydd | **Gweledd Tyrbinau**<br>Esboniwch pam nad yw tyrbinau presennol sy'n gysylltiedig â ffermydd gwynt eraill i'w gweld yn rhai o'r delweddau sylfaenol ond eu bod yn ymddangos yn y ffotogyfosodiadau (e.e. VP 17 (Teras Castell Penrhyn) [APP-246])? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.23 | Yr Ymgeisydd | **Rhifau Golygfannau**<br>Nid yw rhifau golygfannau ar Ffigur 11 [APP-204] yn glir ac maen nhw wedi'u cuddio gan rifau golygfannau eraill weithiau, yn enwedig o amgylch ardal Llandudno. Hefyd, nid yw'r map gwaelodol yn arbennig o glir. A ellir datrys y materion hyn er mwyn eglurder? | |
| 17.24 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae Tabl 2 [AS-027] yn nodi bod VP 43 (Mynydd y Garn) yn olygfan gynrychioliadol, ond nid yw'n ymddangos bod asesiad pellach wedi'i gynnal ynglŷn â hi ac nid yw wedi'i chynnwys yn Nhabl 20. Rhowch reswm dros hyn neu darparwch asesiad o effeithiau o'r olygfan hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.25 | Yr Ymgeisydd | **Lliniaru**<br>Mae'r ExA yn cydnabod bod graddfa'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei lleihau ers ymgynghoriadau cyn-ymgeisio. Mae [AS-027] yn adrodd bod hyn yn fath o liniaru. Gan fod yr ExA yn ystyried y Datblygiad Arfaethedig fel yr ymgeisiwyd amdano, a wnewch chi:<br>a) gyfiawnhau sut ac i ba raddau y gall newidiadau cyn-ymgeisio gynrychioli mesurau lliniaru ar gyfer y cynllun presennol sy'n cael ei asesu; ac<br>b) o ystyried paragraff 5.9.2.1 NPS EN-1, pa gwmpas sydd i leihau graddfa'r Datblygiad Arfaethedig er mwyn lliniaru effeithiau ar y morlun a'r dirwedd ac effeithiau gweledol (gyda buddion arwyddocaol iawn yn hyn o beth) gan leihau swyddogaeth ychydig yn unig (e.e. allbwn cynhyrchu trydan)? | |
| 17.26 | Yr Ymgeisydd | **Goleuadau**<br>Mae [AS-027] yn nodi y byddai mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau yn y nos yn cynnwys lleihau goleuadau hedfanaeth i 200 candela pan fydd gwelededd yn fwy na 5km. Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.27 | Yr Ymgeisydd | **Goleuadau**<br>Mae Tabl 16 [AS-027] yn amlinellu opsiynau ychwanegol ar gyfer lliniaru'r effaith weledol yn y nos. Rhowch ddiweddariad ar ymarferoldeb mesurau lliniaru o'r fath, gan nodi bod goleuadau yn y nos wedi cael eu codi fel pryder mewn rhai RRs (gan gynnwys [RR-015] ac [RR-029]). | |
| 17.28 | Yr Ymgeisydd | **Goleuadau**<br>Mae paragraff 1407 [AS-027] yn datgan *"Mae'r ffotogyfosodiadau yn y nos a ddangosir yn y ffigurau hyn wedi cael eu cynhyrchu i ddangos golau 2,00cd, i lywio'r asesiad o'r effeithiau achos gwaethaf a aseswyd […]"*. O ystyried presenoldeb yr atalnod, a yw'r ffigur hwn yn 200 neu a ddylai fod yn 2000? | |
| 17.29 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau yn y Nos**<br>Mae paragraff 1559, adran 10.17.6 [AS-027], yn ymwneud â chrynodeb o effeithiau yn y nos ac mae'n cyfeirio at effeithiau arwyddocaol yn hyn o beth mewn perthynas ag AHNE Ynys Môn. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cael ei adrodd mewn mannau eraill yn y bennod. Eglurwch, os gwelwch yn dda. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.30 | DCC, IoACC, CCBC, GC<br>FCC, SNP, CNC | **Asesiadau Cronnol a Rhyng-berthynas**<br>A ydych chi'n fodlon o'r asesiad o effeithiau cronnol a rhyng-berthynas yn adrannau 10.13 a 10.14 [AS-027]? | Gweler Ymateb Grŵp Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac Adroddiad LUC |
| 17.31 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad Cronnol**<br>A fu unrhyw gynnydd o ran prosiectau fferm wynt Mona, Morgan neu Morecambe a allai effeithio ar yr asesiad cronnol a amlinellir yn adran 10.13 [AS-027]? | |
| 17.32 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae Tabl 20 [AS-027] yn cyfeirio at "*VP 30: Copa'r Wyddfa*". A wnewch chi gadarnhau y dylai hyn fod yn "*VP 34: Copa'r Wyddfa*"? | |
| 17.33 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae paragraff 678 [AS-027] yn cyfeirio at Gastell Penrhyn mewn perthynas â Rhan I Llwybr Arfordir Cymru. A yw hyn yn gywir? | |
| 17.34 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae [AS-027] yn cyfeirio at "*Ffigur 18.1 (Atodiad 10.5)*" ym mharagraffau 598, 613, 1055, 1074, 1268, 1273 a 1351, "*Ffigur 10.1*" ym mharagraff 1271 ac "*Atodiad 10.6*" drwyddo draw. A yw'r cyfeiriadau hyn yn gywir? Gwiriwch a chywirwch y rhain fel y bo'r angen yn ogystal ag unrhyw anghywirdebau eraill. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.35 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Cywirwch yr is-bennawd ar gyfer ‘Sir Ddinbych’ rhwng paragraffau 1232 a 1233 [AS-027]. | |
| **18.** | **Economaidd-Gymdeithasol** | | |
| 18.1 | Yr Ymgeisydd | **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (WBFGW) 2015**<br>Yn unol ag amcanion Deddf WBFGW 2015, rhowch fanylion ynglŷn â sut mae’r Datblygiad Arfaethedig yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar lefel ranbarthol Gogledd Cymru ac ar lefel genedlaethol Cymru. Rhowch ymateb yn unol â’r saith nod llesiant fel y manylir yn y Ddeddf. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.2 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol (FWNP)2040**<br>A ydych chi'n fodlon bod dyluniad y Datblygiad Arfaethedig yn cyfrannu at amcanion FWNP o ran cynnal a datblygu economi fywiog a gwella iechyd a lles cymunedau? Os na, esboniwch eich rhesymau. | Bodlon |
| 18.3 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Polisi Cynllunio Cymru 11 (PPW-11)**<br>A ydych chi'n fodlon bod dyluniad y Datblygiad Arfaethedig yn cyfrannu at amcanion PPW-11 o ran gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Gogledd Cymru? Os na, esboniwch eich rhesymau. | Bodlon |
| 18.4 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: Datblygu Economaidd**<br>A ydych chi'n fodlon bod dyluniad y Datblygiad Arfaethedig yn cyfrannu at amcanion TAN 23 o ran cynhyrchu cyfoeth, swyddi ac incwm? Os na, esboniwch eich rhesymau. | Bodlon |
| 18.5 | Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos a Llanelian-yn-Rhos | **Grant Digolledu**<br>Yn eich sylw perthnasol [RR-008], cyfeirir at ddarparu grant digolledu i ardal y Cyngor Cymuned. Ymhelaethwch ar ddiben grant o'r fath a'r angen amdano. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.6 | Rostons | **Gweithrediadau Masnachol**<br>O ran sylwadau perthnasol a wnaed ar ran eich cleientiaid ([RR-045] i [RR-051]), rhowch fanylion ychwanegol ynglŷn â'u pryderon ynghylch y gweithrediadau masnachol wedi'u harallgyfeirio yng Nghwybr Fawr. | |
| 18.7 | Captain Haddock's Seafood | **Gweithrediadau Masnachol**<br>Rhowch fwy o fanylion am eich pryder a godwyd yn eich sylw perthnasol [RR-032] ynglŷn â'r effaith y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chael ar eich gweithrediadau masnachol. | |
| 18.8 | Carl Davies | **Gweithrediadau Masnachol**<br>Rhowch fwy o fanylion am eich pryder a godwyd yn eich sylw perthnasol [RR-060] ynglŷn â'r effaith y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chael ar eich gweithrediadau masnachol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.9 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau ar Fusnesau Lleol**<br>Mae sawl sylw perthnasol yn cyfeirio at y posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar eu busnesau:<br>a) [RR-030] ac [RR-031] – niwed i weithrediadau;<br>b) [RR-044] i [RR-051] – effaith ar yr economi ehangach; ac<br>c) [RR-035] – effeithiau o ganlyniad i sŵn<br>Ymatebwch i'r pryderon hyn ac amlinellwch sut, os oes cyfiawnhad iddynt, y gallai mesurau lliniaru gael eu darparu ar gyfer pob un o'r busnesau. | |
| 18.10 | Yr Ymgeisydd | **Data Llongau Manaw**<br>Mae [RR-027] ac [RR-033] yn amau p'un a yw data llongau Manaw wedi cael ei gynnwys yn llawn yn y setiau data a gyflwynwyd. A wnewch chi gadarnhau p'un a ystyriwyd data llongau Manaw ac os na, esboniwch eich safbwynt yn hyn o beth. | |
| 18.11 | Yr Ymgeisydd | **Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth**<br>Mae [RR-004] yn awgrymu bod diffyg gofyniad wedi'i eirio'n briodol yn y dDCO mewn perthynas â chymeradwyo 'Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth' a'i bod yn arfer da paratoi a chyflwyno amlinelliad o gynllun o'r fath. Esboniwch eich safbwynt yn hyn o beth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.12 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Datganiad Ieithyddol Cymunedol**<br>A ydych chi'n fodlon â chynnwys y Datganiad Ieithyddol Cymunedol [APP-325] a'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau negyddol ar y cymeriad cymdeithasol, ieithyddol a'r ardal leol? Yn ogystal, a ydych chi'n fodlon na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn rhwystro'r gallu i gyflawni'r amcanion polisi cenedlaethol a lleol perthnasol o ran y Gymraeg? Os na, esboniwch eich safbwynt yn hyn o beth. | Bodlon |
| 18.13 | Yr Ymgeisydd | **Datganiad Ieithyddol Cymunedol**<br>Mae paragraff 57 [APP-325] yn cadarnhau y bydd yr holl elfennau gweledol annhechnegol o'r Datblygiad Arfaethedig yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. A wnewch chi gadarnhau sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau. Yn ogystal, bydd angen i gontractwyr a'r holl gwmnïau cadwyn gyflenwi gydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg RWE. Darparwch gopi o'r polisi hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.14 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Darparwch gynllun diwygiedig o 'Ffigur 1: Ardaloedd astudio a ddefnyddiwyd yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol' a 'Ffigur 4: Amddifadedd cyffredinol ar hyd arfordir Gogledd Cymru' wrth raddfa o 1:50,000 (ES Cyfrol 3, Pennod 3 [AS-034]). | |
| 18.15 | Yr Ymgeisydd | **Senario Dylunio Mwyaf**<br>Rhowch gyfiawnhad ychwanegol ar gyfer y senario niweidiol mwyaf a aseswyd o ran amharu ar gyfleusterau cymunedol, gan fod y cyfiawnhad a roddwyd yn Nhabl 23 [AS-034] yn aneglur. | |
| 18.16 | Yr Ymgeisydd | **Cyflogaeth Adeiladu**<br>Mae paragraff 219 [AS-034] yn datgan y gallai'r Datblygiad Arfaethedig gefnogi 150 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) y flwyddyn, sy'n ymwneud â'r 'Senario Dim Porthladd Lleol'. Cadarnheir ymhellach bod y ffigur o 150 o swyddi CALl yn debygol o gynnwys 30 o swyddi sy'n ymwneud â gosod a chomisiynu ar y tir, a bod y 120 sy'n weddill yn ymwneud ag adeiladu alltraeth. Rhowch ddadansoddiad tebyg o fathau o swyddi ar gyfer y ffigurau CALl 'Senario Porthladd Lleol'. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.17 | Yr Ymgeisydd | **Cyflogaeth Adeiladu**<br>Mae paragraff 291 [AS-034] yn cyfeirio at 210 o swyddi CALl ychwanegol sy'n debygol o fod yn ofynnol i gefnogi adeiladu alltraeth. Dywedir bod y rolau hyn yn debygol o gael eu cyflawni gan weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig, er y byddant yn byw yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod adeiladu. A yw'r 210 o rolau CALl ychwanegol hyn wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad o effaith adeiladu ar gyfleusterau cymunedol, yr economi a chyflogaeth? Os na, esboniwch eich safbwynt yn hyn o beth. | |
| 18.18 | Yr Ymgeisydd | **Cyflogaeth Adeiladu**<br>A yw'r sectorau cyflogaeth a restrir ym mharagraff 192 [AS-034] ar gyfer lefel genedlaethol Cymru, yr un fath ar gyfer lefel Gogledd Cymru? Os na, rhestrwch y sectorau perthnasol. | |
| 18.19 | Yr Ymgeisydd | **Prentisiaethau**<br>A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn darparu cyfleoedd prentisiaeth a phartneriaethau hyfforddi ychwanegol â Choleg Llandrillo? Os felly, sut bydd y rhain yn cael eu sicrhau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.20 | Yr Ymgeisydd | **Gwasanaethau Gofal Iechyd**<br>Mae paragraff 224 [AS-034] yn datgan y bydd yr Ymgeisydd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd. A wnewch chi gadarnhau:<br>a) Pa wasanaethau gofal iechyd sydd i'w darparu gan yr Ymgeisydd?<br>b) A fydd y gwasanaethau ar gael i weithwyr nad ydynt wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig yn unig?<br>c) Sut bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu sicrhau? | |
| 18.21 | Yr Ymgeisydd | **Gwasanaethau Gofal Iechyd**<br>Mae paragraff 223 [AS-034] yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai capasiti'r Datblygiad Arfaethedig fynd yn fwy na 576MW. Un o oblygiadau posibl cynnydd mewn capasiti yw os yw'r gweithlu'n cynyddu, gallai lefel y cleifion ychwanegol ar gyfer gwasanaethau Meddyg Teulu achosi i nifer y cleifion cofrestredig fynd yn fwy na'r meincnod argymelledig o 1,800 o gleifion fesul Meddyg Teulu. Esboniwch ba effeithiau eraill y byddai cynnydd mewn capasiti uwchlaw 576MW yn eu cael ar ganlyniad yr asesiadau economaidd-gymdeithasol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.22 | Yr Ymgeisydd | **Gwasanaethau Gofal Iechyd**<br>Mae paragraff 98 [AS-034] yn datgan, o ran y galw am wasanaethau gofal iechyd, bod yr asesiad wedi'i seilio ar ardal ehangach Gogledd Cymru ond y gallai'r effaith ganolbwyntio'n lleol, o amgylch ardaloedd gweithgarwch adeiladu neu borthladd. Gan na wnaed penderfyniad eto ynglŷn â'r porthladd, sut mae'r asesiad yn adlewyrchu'r amrywiad daearyddol posibl yn y dalgylch llafur? | |
| 18.23 | Yr Ymgeisydd | **Tai**<br>O ystyried oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig, a ystyrir bod y gweithwyr hynny sy'n adleoli i'r ardal ar gyfer y cam gweithredol yn symud i'r ardal 'dros dro' neu'n adleoli i'r ardal yn barhaol? | |
| 18.24 | Yr Ymgeisydd | **Gwariant Gydol Oes y Deyrnas Unedig**<br>Mae paragraff 119 [AS-034] yn datgan bod yr Ymgeisydd yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni cynnwys uwch yn y Deyrnas Unedig na'r achos sylfaenol a dybiwyd. A wnewch chi gadarnhau:<br>a) Pa fesurau a ddefnyddir i gyflawni cynnwys uwch?<br>b) Sut bydd mesurau o'r fath yn cael eu sicrhau? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.25 | Yr Ymgeisydd | **Canolfan Weithrediadau**<br>Darparwch unrhyw ddiweddariad ynglŷn â dethol canolfan weithrediadau ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. | |
| 18.26 | Yr Ymgeisydd | **Strategaeth Cadwyn Gyflenwi**<br>A oes ymrwymiad i ddarparu cyfran o gontractau trwy gyflenwyr lleol? Os felly, sut byddai hyn yn cael ei sicrhau, ei fonitro a’i gyflawni? | |
| 18.27 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Mesurau Lliniaru**<br>A ydych chi’n fodlon â’r mesurau lliniaru ymgorfforedig a chymhwysol arfaethedig mewn perthynas ag effeithiau economaidd-gymdeithasol y Datblygiad Arfaethedig? | Bodlon |
| 18.28 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau Rhyng-berthynas**<br>A oes unrhyw effeithiau rhyngberthynol rhwng rhannau alltraeth ac ar y tir y Datblygiad Arfaethedig wedi cael eu hamlygu o safbwynt economaidd-gymdeithasol? | |
| **19.** | **Twristiaeth a Hamdden** | | |
| 19.1 | Yr Ymgeisydd | **Seilwaith Gwyrdd**<br>A wnewch chi gadarnhau sut mae’r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â pharagraff 5.10.20 NPS EN-1 o ran cysylltedd seilwaith gwyrdd? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.2 | CCBC, DCC, FCC, GC, IoACC, SNP | **Polisi Cynllunio Cymru 11 (PPW-11)**<br>A ydych chi’n fodlon bod dyluniad y Datblygiad Arfaethedig yn cyfrannu at amcanion PPW-11 o ran gwella lles diwylliannol Gogledd Cymru? Os na, esboniwch eich rhesymau. | Bodlon |
| 19.3 | DCC | **Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Ddinbych**<br>Mae Garford Road a Ferguson Avenue wedi’u lleoli o fewn Parthau Gwarchod Twristiaeth Arfordirol, fel y manylir ym Mholisi PSE 11 y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. O ganlyniad i’r Cyfadeilad Adeiladu Dros Dro a’r trefniadau mynediad arfaethedig yn y ddau leoliad, disgwylir effeithiau niweidiol dros dro. Fodd bynnag, mae’r Ymgeisydd yn datgan y bydd y rhain yn cael eu rheoli i sicrhau bod effeithiau o’r fath yn cael eu lleihau i’r eithaf (paragraff 34 ES Cyfrol 3, Pennod 4 [APP-065]).<br>A wnewch chi gadarnhau p’un a ydych yn fodlon â rheolaeth effeithiau o’r fath ac yn fodlon na fyddai hyn yn arwain at golli unrhyw gyfleusterau twristiaeth yn barhaol? Os na, esboniwch eich rhesymau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.4 | Yr Ymgeisydd | **Llwybr Ceffylau Llanelwy**<br>Gan ymateb i [RR-036], a wnewch chi gadarnhau p'un a fydd y fynedfa i lwybr ceffylau Llanelwy yn cael ei rhwystro yn ystod unrhyw gam o'r Datblygiad Arfaethedig? Os bwriedir cyfyngu ar fynediad, rhowch fanylion y rhesymau a'r hyd disgwyliedig. | |
| 19.5 | Jodi Cook | **Effeithiau ar Dwristiaeth**<br>Darparwch fanylion ychwanegol mewn perthynas â'r pryder a godwyd gennych yn sylw perthnasol [RR-057] ynglŷn â'r effaith y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chael ar dwristiaeth yn Llandudno. | |
| 19.6 | Rostons | **Effeithiau ar Hamdden**<br>O ran sylwadau perthnasol a wnaed ar ran eich cleientiaid ([RR-044] i [RR-051]), darparwch fanylion ychwanegol mewn perthynas â phryderon ynghylch y Datblygiad Arfaethedig a marchogaeth yn ystod y cam adeiladu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.7 | Yr Ymgeisydd | **Buddion i'r Sector Twristiaeth**<br>A wnewch chi ymateb i'r pryder a godwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn â'r effaith bosibl ar dwristiaeth [RR-029]. Yn benodol, ymatebwch i'r datganiad *"Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddulliau gweithredu penodol wedi cael eu cynnwys yn y cyflwyniad, na bod yr ymrwymiad hwn wedi cael ei ymestyn i effeithiau gweithredol, na bod archwiliad manwl o'r budd posibl hwn"*. | |
| 19.8 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Mae Tabl 4 ES Cyfrol 3, Pennod 13 [APP-074] yn amlygu effaith weddilliol arwyddocaol ar Glwb Golff y Rhyl yn ystod datgomisiynu. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod [APP-065] yn adrodd ar effaith o'r fath. Eglurwch yr anghysondeb hwn, os gwelwch yn dda. | |
| 19.9 | Yr Ymgeisydd | **Asesiad**<br>Darparwch gynllun ychwanegol o 'Ardaloedd Astudio a Ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Twristiaeth a Hamdden' [APP-065] wrth raddfa 1;50,000 sy'n dynodi'r Ardal Dylanwad Leol yn glir. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.10 | CCBC, DCC | **Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol (oPAMP)**<br>A ydych chi'n fodlon ag ymagwedd a chynnwys yr oPAMP [APP-320]? Os na, manylwch ar ba fesurau ychwanegol sy'n ofynnol i ategu'r oPAMP. | |
| 19.11 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol (oPAMP)**<br>Mae Adran 2.2.3 yr oPAMP [APP-320] yn trafod yr angen am gau dros dro heb wyriad. Mae teitl yr adran hon yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) yn unig. Fodd bynnag, mae testun ym mharagraff 21 [APP-320] yn cyfeirio at Lwybrau Teithio Llesol (ATR) hefyd. A wnewch chi gadarnhau pa un o'r llwybrau a restrir yn Nhabl 1 yr oPAMP sy'n PRoW, neu'r ddau? | |
| 19.12 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol (oPAMP)**<br>Adolygwch Dabl 1 yr oPAMP [APP-320] a chadarnhewch fod yr holl PRoWs wedi'u manylu o fewn Atodlen 4 y dDCO [AS-014]. | |
| 19.13 | Yr Ymgeisydd | **Astudiaeth Dwristiaeth Scottish Power Renewables**<br>Darparwch gopi o'r astudiaeth gan Scottish Power Renewables (2020), fel y manylir ym mharagraff 247 [APP-065]. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.14 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau Disodli**<br>Dywedir pan fydd perygl y gallai rhai ymwelwyr gwyliau a dydd benderfynu peidio ag ymweld, mae posibilrwydd y gallai'r ymwelwyr hyn gael eu disodli gan ymwelwyr eraill wrth i'r farchnad a'r sector twristiaeth lleol addasu (paragraff 299 a Thabl 33 [APP-065]. Pa dystiolaeth sy'n bodoli i gefnogi'r datganiad hwn a phwy yr ystyrir yw'r ymwelwyr 'eraill'? | |
| 19.15 | Yr Ymgeisydd | **Buddion i'r Sector Twristiaeth**<br>Mae paragraffau 257 a 301 [APP-065] yn datgan bod cyfleoedd yn ystod y camau adeiladu a gweithredol i AyM gefnogi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol er mwyn hyrwyddo a gwireddu buddion cadarnhaol posibl i'r sector twristiaeth o fewn Llandudno a Phen y Gogarth.<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) Pa fuddion a ragfynegir i'r sector twristiaeth o fesurau o'r fath?<br>b) Sut byddent yn cael eu sicrhau? Ac<br>c) A ystyrir bod mesurau o'r fath yn fesurau lliniaru neu wella? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.16 | Yr Ymgeisydd | **Pysgota Hamdden**<br>Yn dilyn data arolwg 2020/2021 ynglŷn â mathau o longau a fanylir yn Ffigurau 3, 4 a 5 ES Cyfrol 2, Pennod 9 [APP-055], darparwch ddata arolwg ar wahân ar gyfer cyfnodau'r gaeaf a'r haf sy'n dangos llongau pysgota a hamdden yn unig. | |
| 19.17 | Yr Ymgeisydd | **Pysgota Hamdden**<br>Mae paragraff 112 ES Cyfrol 2, Pennod 12 [APP-058] yn cadarnhau y bydd unrhyw rywogaethau pysgod yr aflonyddir arnynt yn dychwelyd yn syth ar ôl y cam adeiladu, ac felly y bydd adferadwyedd yn uchel.<br>A wnewch chi gadarnhau:<br>a) P'un a yw'r datganiad hwn yn ymwneud â'r holl brif rywogaethau pwysig a restrir; ac<br>b) Ar ba dystiolaeth y mae'r datganiad wedi'i seilio? | |
| 19.18 | Llywodraeth Ynys Manaw (Pwyllgor Môr Tiriogaethol), Carl Davies | **Hurio Llongau Genweirio**<br>A ydych chi'n fodlon bod y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu cyfleu yn nhabl 2-2 yn yr Adroddiad Sylfaenol ar Hurio Llongau Genweirio [APP-118]? Os na, esboniwch eich rhesymau a rhowch gyfiawnhad gyda thystiolaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.19 | Yr Ymgeisydd | **Effeithiau Rhyng-berthynas**<br>A oes unrhyw effeithiau rhyngberthynol rhwng rhannau alltraeth ac ar y tir y Datblygiad Arfaethedig wedi cael eu hamlygu o ran twristiaeth a hamdden? Os felly, rhowch fanylion. | |
| **20. Traffig a Thrafnidiaeth** | | | |
| 20.1 | Yr Ymgeisydd | **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021**<br>Amlinellwch sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a gynhwysir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Yn arbennig, sut bydd y prosiect yn hyrwyddo'r defnydd o fathau cynaliadwy o drafnidiaeth ac yn cynnal a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer teithio llesol? | |
| 20.2 | Yr Ymgeisydd | **Porthladd Adeiladu**<br>A wnewch chi roi diweddariad ar y porthladd tarddiad ar gyfer danfon newidyddion is-orsaf a chydrannau mawr eraill. Os yw porthladd wedi cael ei amlygu bellach, beth yw'r llwybr Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AIL) arfaethedig i safle adeiladu'r is-orsaf? A oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r seilwaith ffyrdd ar hyd y llwybr? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.3 | Yr Ymgeisydd | **Porthladd Adeiladu**<br>A wnewch chi roi diweddariad ar y porthladd a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith alltraeth. Os yw porthladd wedi cael ei amlygu bellach, darparwch asesiad o effaith cynnydd mewn symudiadau traffig ar y rhwydwaith priffyrdd a thrafnidiaeth lleol. | |
| 20.4 | Yr Ymgeisydd | **Peiriannau Adeiladu**<br>Mae ES Cyfrol 5, Atodiad 10.3: Peiriannau Adeiladu [APP-153] yn awgrymu y bydd angen i rai o'r peiriannau sydd i'w defnyddio wrth adeiladu'r llwybr ceblau ar y tir a'r OnSS gael eu danfon ar gerbyd llwytho isel:<br>a) A yw'r holl lwybrau mynediad wedi cael eu gwirio i sicrhau y gallant ymdopi ag ehangylch cerbydau o'r fath?<br>b) Pa addasiadau, os o gwbl, sy'n ofynnol i'r seilwaith priffyrdd ar bob un o'r llwybrau i ymdopi â cherbydau o'r fath? Ac<br>c) A oes unrhyw bontydd islaw'r safon o ran uchder neu gapasiti cludo llwythi ar unrhyw un o'r llwybrau mynediad y bydd angen mesurau arbennig i'w goresgyn? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.5 | DCC | **Asesiad**<br>Fel awdurdod priffyrdd, a ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg, y data sylfaenol a'r symudiadau traffig rhagfynedig a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau traffig a thrafnidiaeth yn ES Pennod 9: Traffig a Thrafnidiaeth [APP-070]? Amlygwch unrhyw faterion sy'n weddill a sut byddech yn dymuno iddynt gael eu trin. | |
| 20.6 | DCC | **Asesiad**<br>Yn ES Cyfrol 5, Atodiad 9.1 [APP-148], mae cynnydd 15% wedi cael ei ychwanegu at ddata traffig newydd a gasglwyd ym mis Ebrill 2021 i gyfrif am effeithiau Covid-19. A ydych chi'n fodlon â'r dull hwn? | |
| 20.7 | DCC | **Asesiad**<br>A ydych chi'n fodlon mai dim ond asesiad ansoddol a gynhaliwyd ynglŷn ag effeithiau traffig a thrafnidiaeth ar gyfer cam datgomisiynu'r prosiect? | |
| 20.8 | DCC | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**<br>Fel Awdurdod Priffyrdd, a ydych chi'n fodlon â'r pwerau arfaethedig a gynhwysir yn Erthyglau 9 i 13, Rhan 3, Strydoedd, o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [AS-014]? Os na, sut byddech chi'n dymuno iddynt gael eu diwygio, pam ac i ba effaith? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.9 | Yr Ymgeisydd | **Cynllun Teithio amlinellol**<br>Darperir Cynllun Teithio amlinellol yn Atodiad 9 y Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol (oCoCP) [APP-321]:<br>a) Beth yw effaith debygol y pecyn arfaethedig o fesurau ar leihau'r defnydd o geir preifat?<br>b) Sut bydd effaith y Cynllun yn cael ei monitro?<br>c) Sut bydd camau unioni'n cael eu hamlygu a'u cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)?<br>ch) Ar hyd pa raddfeydd amser y bydd camau unioni'n cael eu cychwyn? a<br>d) Sut bydd darpariaethau'r Cynllun Teithio amlinellol yn cael eu sicrhau yn y dDCO? | |
| 20.10 | DCC | **Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol – Atodiadau Cysylltiedig**<br>A ydych chi'n fodlon ag Atodiadau 7, 8 a 9 yr oCoCP, y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu amlinellol, [APP-319], y Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol [APP-320] a'r Cynllun Teithio amlinellol [APP-321], yn y drefn honno? A ydych chi'n fodlon bod eu darpariaethau wedi'u sicrhau'n ddigonol gan y dDCO [AS-014]? Os na, pa newidiadau yr hoffech chi eu gweld a pham? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.11 | Y Post Brenhinol | **Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu amlinellol**<br>A ydych chi'n fodlon â'r cynigion yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu amlinellol [APP-319] i ymgynghori ynglŷn ag aflonyddu posibl ar draffig yn ystod cam adeiladu'r prosiect a lliniaru ei effeithiau? | |
| 20.12 | Network Rail | **Drilio Cyfeiriadol Llorweddol**<br>A ydych chi'n fodlon bod cynigion i ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) o dan Brif Linell Gogledd Cymru yn ymarferol ac na fyddant yn arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar seilwaith neu wasanaethau rheilffyrdd? | |
| 20.13 | Network Rail | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**<br>A ydych chi'n fodlon â'r darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 6, Atodlen 9 y dDCO [AS-014]? Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech chi'n dymuno iddynt gael eu gwneud a pham? | |
| 20.14 | Llywodraeth Cymru | **Drilio Cyfeiriadol Llorweddol**<br>A ydych chi'n fodlon bod cynigion i ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) o dan Gefnffordd yr A55 yn ymarferol ac na fyddant yn arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar ei seilwaith neu lifoedd traffig prif linell a chyffyrdd? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.15 | Llywodraeth Cymru | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft**<br>Pa ddarpariaethau amddiffynnol ar gyfer Cefnffordd yr A55, os o gwbl, yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys yn Rhan 6, Atodlen 9 y dDCO [AS-014]? | |
| 20.16 | Yr Ymgeisydd | **Mynediad i'r Is-orsaf Ar y Tir**<br>Pa lwybrau eraill a ystyriwyd i gael mynediad i safle'r OnSS nad ydynt yn cynnwys Glascoed Road (e.e. o'r gogledd neu'r dwyrain trwy Barc Busnes Llanelwy)? Pam y diystyriwyd y llwybrau amgen hyn? Dangoswch, at ei gilydd, fod y llwybr a ddewiswyd yn cael yr effaith niweidiol leiaf. | |
| 20.17 | Yr Ymgeisydd | **Llwybr Mynediad Cynnal a Chadw**<br>Cynigir llwybr mynediad cynnal a chadw gerllaw ffin orllewinol Parc Coffa ac Amlosgfa Sir Ddinbych [llain 436, Cynllun Tir (Ar y Tir) [AS-005] a Llyfr Cyfeirio [AS-020a]].<br>Darparwch fanylion:<br>a) Pa mor aml y mae'n debygol o gael ei ddefnyddio;<br>b) Y peiriannau a'r offer a fydd yn ei ddefnyddio;<br>c) Y gweithrediadau a fydd yn cael eu cynnal; a<br>ch) Llwybrau mynediad amgen a ystyriwyd a pham y'u diystyriwyd. | |

**ExQ1: 27 Medi 2022**
**Mae’n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 24 Hydref 2022**

**ATODIAD A: Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr – Atodlen Gwrthwynebiadau Caffael Gorfodol / Meddiant Dros Dro**

Os amlygir buddiant newydd yn y tir, neu unigolyn Categori 3 newydd, dylai’r Ymgeisydd roi gwybod i’r unigolion hynny am eu hawl i wneud cais i ddod yn Unigolyn â Buddiant o dan a102A PA2008.

| Rhif y Gwrth.[i] | Enw/ Sefydliad | Rhif Cyf. IP/AP[ii] | Rhif Cyf. RR[iii] | Rhif Cyf. WR[iv] | Rhif Cyf. Dogfen Arall[v] | Buddiant[vi] | Parhaol/ Dros dro[vii] | Llain/ Lleiniau | CA?[viii] | Statws y gwrthwynebiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

i Rhif y Gwrth. = rhif y gwrthwynebiad. Dylid rhoi rhif olynol unigryw i bob gwrthwynebiad a restrir yn y tabl hwn
ii Rhif cyfeirnod a roddir i bob Unigolyn â Buddiant (IP) ac Unigolyn yr Effeithir Arno (AP)
iii Rhif cyfeirnod a roddir i bob Sylw Perthnasol (RR) yn llyfrgell yr Archwiliad
iv Rhif cyfeirnod a roddir i bob Sylw Ysgrifenedig (WR) yn llyfrgell yr Archwiliad
v Rhif cyfeirnod a roddir i unrhyw ddogfen arall yn llyfrgell yr Archwiliad
vi Mae hyn yn cyfeirio at rannau 1 i 3 y Llyfr Cyfeirio:

Rhan 1, sy’n cynnwys enwau a chyfeiriadau perchnogion, deiliaid prydles, tenantiaid, a meddianwyr pob llain o dir y Gorchymyn, ac eraill sydd â buddiant ynddynt neu’r pŵer i’w gwerthu a’u trawsgludo, neu eu rhyddhau;

Rhan 2, sy’n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion nad yw’r Gorchymyn yn effeithio ar eu tir yn uniongyrchol, ond “a fyddai neu a allai” fod â hawl i wneud hawliad o dan adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965, o ganlyniad i weithredu’r Gorchymyn, neu Ran 1 Deddf Digolllediad Tir 1973, o ganlyniad i ddefnyddio’r tir pan fydd y Gorchymyn wedi cael ei weithredu;

Rhan 3, sy’n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion sydd â hawl i hawddfreintiau neu hawliau preifat eraill dros dir y Gorchymyn a allai gael eu cau, eu hatal dros dro neu eu hymyrryd o dan y Gorchymyn.

vii Mae’r golofn hon yn nodi p’un a yw’r ymgeisydd yn ceisio caffael tir / hawliau yn orfodol neu eu meddiannu dros dro
viii CA = caffael gorfodol. Yr ateb yw ‘ie’ os yw’r tir yn rhannau 1 neu 3 y Llyfr Cyfeirio ac mae'r Ymgeisydd yn ceisio caffael tir / hawliau yn orfodol.